

Yr Arolygiaeth Gynllunio

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019/20

Yr Arolygiaeth Gynllunio

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019/20

Cyflwynwyd gerbron Tŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 7 Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

I'w argraffu dan orchymyn Tŷ'r Cyffredin ar 10 Medi 2020

The Planning Inspectorate
Temple Quay House
2 The Square
Temple Quay
Bristol
BS1 6PN

Rhif ffôn: 0303 444 5000

E-bost:

enquiries@planninginspectorate.gov.uk

This publication is available in English, please contact the Inspectorate's Bristol office, and in large print, please contact the Inspectorate's Bristol Office.

The Planning Inspectorate
Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

Rhif ffôn: 0303 444 5940

E-bost:

wales@planninginspectorate.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg trwy gysylltu â Swyddfa'r Arolygiaeth yng Nghaerdydd, ac mewn print bras trwy gysylltu â Swyddfa'r Arolygiaeth ym Mryste.



© Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni ddywed yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn Planning Inspectorate Press Office, Temple Quay House, 2 The Square, Bristol, BS1 6PN neu drwy anfon neges e-bost at press.office@planninginspectorate.gov.uk

ISBN 978-1-5286-1759-8

CCS CS01209294746 09/20

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys lleiafswm o 75% o ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Cynnwys

Adroddiad ar berfformiad	3
--------------------------	---

Datganiad y Prif Weithredwr	5
Datganiad Cadeirydd y Bwrdd	9
Crynodeb o berfformiad	
1 Datganiad o ddiben a gweithgareddau	11
2 Uchafbwyntiau perfformiad	12
3 Risgiau strategol	14
Dadansoddiad o berfformiad	
4 Gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol	18
5 Gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd	22
6 Mwy o ymgysylltu â staff	24
7 Dulliau a gwasanaethau arloesol	26
8 Effaith gymunedol ac amgylcheddol	28
9 Dadansoddiad manwl o berfformiad – Lloegr	33
10 Dadansoddiad manwl o berfformiad – Cymru	55
11 Dadansoddiad manwl o ansawdd – Cymru a Lloegr	58

Adroddiad Atebolrwydd

Adroddiad llywodraethu corfforaethol	61
12 Adroddiad y Cyfarwyddwyr	61
13 Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	63
14 Y Datganiad Llywodraethu	64
Adroddiad cyflogau a staff	86
15 Adroddiad Cyflogau	86
16 Adroddiad Staff	93

Atebolrwydd Seneddol ac Adroddiad Archwilio	100
17 Dyraniadau'r gyllideb ac all-dro	100
18 Taliadau credydwy	102
19 Ffioedd a thaliadau	103
20 Rheoleidd-dra gwariant	104
21 Rhwymedigaethau digwyddiadol bychan	105
Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin	106
Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020	110
22 Datganiad o wariant net cynhwysfawr	110
23 Datganiad o'r sefyllfa ariannol	111
24 Datganiad o lifoedd arian	112
25 Datganiad o newidiadau i ecwiti trethdalwyr	113
26 Nodiadau i'r Cyfrifon	114
Annexes	
Atodiad A – Perfformiad yn erbyn targedau gweinidogol	131
Atodiad B – Gwasanaeth cwsmeriaid a chysylltiadau	135

Adroddiad ar berfformiad

TROSOLWG:

Mae'r crynodeb o berfformiad hwn yn darparu gwybodaeth am ddiben yr Arolygiaeth Gynllunio, ein prif weithgareddau, uchafbwyntiau perfformiad a risgiau allweddol.

Mae'r adran dadansoddi perfformiad yn rhoi manylion am ein gwaith tuag at ein blaenoriaethau strategol, yn ogystal â'n canlyniadau yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol, gan gynnwys mewn perthynas ag ansawdd. Mae hefyd yn amlinellu ein heffaith gymunedol ac amgylcheddol ac yn darparu'r data sy'n ofynnol o ran cynaliadwyedd.

Datganiad y Prif Weithredwr



Parhau â'r daith o welliannau cynlluniedig

Bu'r flwyddyn o fis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020 yn flwyddyn o wir gynnydd a newid sylweddol i'r Arolygiaeth Gynllunio. Ar adeg ysgrifennu'r datganiad hwn, mae hyn i gyd yn teimlo fel rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol oherwydd ymateb i effaith y pandemig fu'r pwyslais yn ystod y misoedd diwethaf.

I sicrhau bod yr Arolygiaeth Gynllunio ar y trywydd iawn i gyrraedd ei thargedau perfformiad ar gyfer penderfynu ar bob apêl, un o'n blaenoriaethau cyflawni allweddol ar gyfer 2019/20 oedd cyflwyno ein rhaglen adfer perfformiad yn llwyddiannus. Yn sgil gweithredu'r rhaglen hon, rydym wedi gwella ein perfformiad gwaith achos yn sylweddol drwy gydol y flwyddyn, o ran achosion apeliadau cynllunio a'n gwaith apeliadau gorfodi. Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gweithredu argymhellion adolygiad Rosewell ac mae'r amser cyfartalog a gymerir i benderfynu ar ymholiadau apêl wedi haneru bron.

Cyn y pandemig, disgwyliwyd y byddem yn gweld cynnydd parhaus o ran gwella'r amser a gymerir i benderfynu ar apeliadau cynllunio; gwella'r amserlenni ar gyfer ein gwaith apeliadau gorfodi ymhellach; ac, fel blaenoriaeth, cynyddu cysondeb ein hamserlenni gwaith achos yn ystod yr haf 2020 a thu hwnt.

Roedd y pandemig COVID-19 tua diwedd y flwyddyn ariannol wedi effeithio ar y cynnydd da a wnaed gennym. Er hynny, gwnaethom ymateb i'r her hon yn gyflym ac yn effeithiol mewn sawl maes, gan gynnwys prysuro ein gwaith i gyflwyno gwrandawiadau ac ymchwiliadau rhithwir.

Blaenoriaeth allweddol arall ar gyfer y flwyddyn oedd gweddnewid y sefydliad, sy'n ceisio gwella canlyniadau i gwsmeriaid. I gyflawni hyn, gwnaethom greu cyfarwyddiaethau newydd, timau newydd a ffyrdd agosach o weithio rhwng ein harolygwyr a'n timau gwaith achos. Rhannwyd y prosiect yn ddau gam.

Gosododd y cam cyntaf ein model gweithredu mewn tair cyfarwyddiaeth a chaniataodd i ni sefydlu strwythur uwch arweinyddiaeth newydd. Roedd cam dau yn ymwneud â gweithio'n agos gyda phob un o'r cyfarwyddiaethau newydd i greu cynlluniau sefydliadol ar gyfer ein staff, gan gynnwys arolygwyr a phob aelod o staff islaw gradd 7.

Rhoddwyd y strwythur newydd hwn ar waith yn llwyddiannus ar 1 Ebrill 2020. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r pandemig COVID-19, gwnaethom ohirio'r newidiadau i drefniadau rheoli llinell ar gyfer Arolygwyr tan fis Gorffennaf 2020.

Gan fod ein sylfeini wedi'u gosod bellach, bydd y gwaith cynllunio'n symud i ddatblygu ein pobl a'n diwylliant. Mae hyn yn canolbwyntio ar ein hymrwymiad i fod yn sefydliad mwy cydlynol, gan wella ein hatebolrwydd, ein gallu i addasu a'n hyblygrwydd.

Symudodd ein prosiect newid digidol, Gweddnewid Cyflawni Sefydliadol, i gam newydd ym mis Awst 2019, wrth i 27 Awdurdod Cynllunio Lleol ledled y de-ddwyrain ddefnyddio'r porth newydd. Mae'r prosiect wedi rhyddhau amryw ddiweddariadau ers hynny ac wedi ychwanegu ystod o swyddogaethau ychwanegol.

Trwy gyflenwi'r rhaglenni cynllunio a datblygu sefydliadol, a gwneud cynnydd da o ran newid digidol, byddwn yn gwella profiad ein cwsmeriaid yn fawr, gan fynd i'r afael yn uniongyrchol â thair o'n pedair blaenoriaeth strategol sefydliadol

- gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol;
- arloesi a dulliau newydd; a
- gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Effaith yr achosion COVID-19

Gan fynd i'r afael â'n pedwaredd flaenoriaeth strategol, sef 'mwy o ymgysylltu â staff', cynhaliwyd ein trydydd digwyddiad staff cyfan, sef OnePINS, yn llwyddiannus ym mis Mawrth 2020. Fe'i cynhaliwyd ochr yn ochr â'r digwyddiad hyfforddiant blynyddol i arolygwyr sydd wedi bod ar waith ers tro. Barnwyd bod y ddau ddigwyddiad yn llwyddiannus yn sgil mwy o ymgysylltiad a llawer o adborth cadarnhaol. Yn wir, er ein bod yn gweithio trwy gyfnod o newidiadau arwyddocaol yn y sefydliad, cynyddodd ein sgôr ymgysylltu i 63% yn Arolwg Pobl 2019, sef dau bwynt canran yn well na 2018.

Roedd tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn siomedig. Roedd dau ffactor wedi cyfrannu at hyn, sef anwadalrwydd incwm a swyddi a fu'n wag am gyfnod hwy na'r disgwyl. Mae ein dulliau cyllidebu a rhagfynegi yn faes a amlygwyd i'w wella, a ddylai dderbyn sylw trwy gryfhau ein tîm cyllid yn sgil cyflwyno swyddi newydd.

Mae ein penderfyniadau ynglŷn â chyflogau wedi sicrhau ein bod wedi mynd i'r afael â materion cyflogau cyfartal, ond rwyf yn pryderu o hyd bod ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau (cymharu cyfartaledd holl gyflogau gwrywod â holl gyflogau benywod) yn parhau i fod yn ystyfnig o eang. Mae'r achosion yn gymhleth ond fe'u deëllir yn dda, ac rwyf wedi ymrwymo i ganfod ffyrdd o gau'r bwlch. Mae'n galonogol bod canlyniadau'r Arolwg Pobl diweddaraf ar thema cynhwysiant a thriniaeth deg yn gadarnhaol iawn.

Roedd yr ymateb angenrheidiol i'r pandemig COVID-19 wedi newid ein hymagwedd at symud ymlaen â gwaith achos yn sylweddol ac, yn naturiol, cafodd effaith ar gynnal ein hadferiad o ran perfformiad. Mae diogelu ein pobl, yn ogystal â darparu gwasanaeth cwsmeriaid a chefnogi gweithrediadau rheng flaen, yn flaenoriaethau clir i ni. Gwirfoddolodd dros 30 o'n Harolygwyr i gynorthwyo'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, a bu angen help llaw hyd at 21 ohonynt ar y Weinyddiaeth pan oedd y pandemig ar ei anterth.

O ganlyniad i'r buddsoddiad sylweddol a wnaed gennym yn 2018/19 yn ein hoffer digidol, roedd ein staff yn gallu newid i weithio gartref ar draws y sefydliad bron yn gwbl ddiidrafferth. Y flaenoriaeth oedd cadw staff yn ddiogel a gwaith achosion i fynd. Wrth i'r cyfyngiadau symud lacio, gan alluogi ymweliadau safle i gael eu cynnal, rhoddwyd blaenoriaeth i drefnu'r rhain yn gyflym hefyd. Mae'r newid i gynnal gwrandawiadau ac ymchwiliadau rhithwir wedi bod yn nodedig.

Edrych tua'r dyfodol

Yn 2020/21, byddwn yn gweithio i gyflawni'r blaenoriaethau allweddol a osodwyd gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, gan gynnwys ymateb parhaus i'r sefyllfa COVID-19; paratoi ar gyfer yr Adolygiad diweddaraf o Wariant a galluogi'r newidiadau a weithredir yn dilyn yr ymgynghoriad ar ddiwygio'r system gynllunio. Byddwn yn gwneud hyn ochr yn ochr â chwblhau ein prosiect Gweddnewid Cyflawni Gweithredol, gweithio i sicrhau cydraddoldeb yn y gweithlu, a rheoli ein hadnoddau a'n cynhyrchedd i ganolbwyntio ar adfer perfformiad.

Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau proses drosglwyddo ddi-dor wrth iddi sefydlu ei Harolygiaeth Gynllunio benodol ei hun yn 2021.

Mae cyflawni ein prosiect digidol Gweddnewid Cyflawni Gweithredol yn llwyddiannus yn allweddol i'n gallu i sicrhau gwelliant cynaliadwy mewn perfformiad a bodloni anghenion ein defnyddwyr a'n cwsmeriaid. Bydd hyn yn flaenoriaeth a phwyslais penodol i'r Arolygiaeth yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae ymateb ein staff i heriau'r pandemig yn un enghraifft yn unig o'r ffordd y mae'r holl staff wedi cyfrannu at y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rwyf yn eithriadol o falch o'u hymrwymiad i'r sefydliad ac i'n gwaith.

Rwyf yr un mor falch o'r ffordd y mae staff yr Arolygiaeth Gynllunio yn gefnogol ac yn hael, a ddangosir trwy'r flaenoriaeth a roddir i les, a'u parodrwydd i wirfoddoli i gynorthwyo sefydliadau a chydweithwyr eraill.



Sarah Richards
28 Awst 2020

Datganiad Cadeirydd y Bwrdd



Yn hanesyddol, mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi bod yn adnabyddus am ei thegwch a'i didueddrwydd, a bellach dylwn ychwanegu ei gallu i addasu at hynny. Mae'r ffordd y mae'r sefydliad wedi ymateb i heriau'r pandemig COVID-19 wedi bod yn drawiadol o ran ei hymagwedd a'i chanlyniadau.

Rhoddodd y sefydliad flaenoriaeth i les ei bobl, symudodd ymlaen â'i waith achosion a chyflawnodd arloesedd, a hynny i gyd ar yr un pryd â galluogi staff i wirfoddoli a chynorthwyo'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru yn eu timau ymateb i argyfwng.

Aildrefnodd ei brosesau gweithredol ac ymgysylltodd â rhanddeiliaid wrth brofi sut y gallai'r ffyrdd newydd o weithio effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth a phobl eraill y mae ei benderfyniadau'n effeithio arnynt.

Mae'r Arolygiaeth wedi elwa'n fawr o'r hyn a ddysgodd wrth weithredu argymhellion Bridget Rosewell y llynedd. Yn ogystal, defnyddiodd profiadau ei arolygwyr sy'n gweithio gartref i helpu cydweithwyr eraill i newid i weithio gartref, a hynny oll gyda chymorth adeiladol cydweithwyr undebau llafur.

Daeth y pandemig tua diwedd blwyddyn ariannol a welodd nifer o gyflawniadau nodedig. Nid oes amheuaeth bod y gwelliannau a wnaed yn ystod y flwyddyn – o ran amseroldeb, technoleg, profiad cwsmeriaid, arloesedd, lles ac ymgysylltiad staff y sefydliad – oll wedi ei helpu i ymateb yn effeithiol.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn rhithwir ar hyn o bryd, a myfyriodd ar y cyflawniadau hyn a'i adferiad o ran perfformiad ym mis Mawrth. Cydnabu'r ymdrech gyfunol i gyrraedd y sefyllfa hon ac fe'i calonogwyd gan y disgwyliad o gyflawni enillion cynaliadwy pellach.

Mae'n anochel y bydd yr amodau presennol wedi effeithio ar berfformiad, ond parhaodd y busnes i fwrw ymlaen ag achosion a chyhoeddi penderfyniadau yn ddi-baid. Bydd y penderfyniadau a wnaed ganddo wedi cyfrannu at adferiad y wlad ac mae ei baratoadau ar gyfer adfer yn y dyfodol yn hollbwysig.

Mae ymateb y sefydliad i'r pandemig wrth newid i ffyrdd rhithwir a newydd o weithio wedi cyflymu a, thrwy wneud

hynny, wedi cynyddu'r potensial i ymgysylltu ag ystod ehangach o gwsmeriaid a rhanddeiliaid, yn ogystal â chefnogi ein hymdrechion ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Bydd yr Arolygiaeth yn parhau i weithio i gyflymu penderfyniadau, a bydd yn cyfrannu at gyflawni menter Prosiect Cyflymder llywodraeth y Deyrnas Unedig. Gyda'i dealltwriaeth fanwl o'r system gynllunio a'i hawydd i ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio, bydd yr Arolygiaeth yn cyfrannu at weithredu diwygiadau i'r system gynllunio yn Lloegr.

Mae gwaith yr Arolygiaeth yn parhau i fod yn ganolog i'r system gynllunio: o seilwaith sy'n arwyddocaol yn lleol ac yn genedlaethol, helpu i gefnogi'r economi trwy archwilio cynlluniau lleol a chynigion ar gyfer cartrefi, i dreftadaeth amgylcheddol, a chyfrifoldeb diwylliannol a chymdeithasol i helpu i greu cymunedau ffyniannus.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn ymwybodol iawn bod ei defnyddwyr gwasanaeth yn wynebu cyfnod heriol. Boed hynny'n awdurdodau lleol sy'n cynorthwyo eu cymunedau a phobl agored i niwed ar yr un pryd ag archwilio ffyrdd newydd o weithio (fel pwyllgorau cynllunio rhithwir), neu sefydliadau'r sector preifat neu'r trydydd sector sy'n cydbwyso penderfyniadau i oroesi a ffynnu. Trwy orfodi rheolau cynllunio'n deg, mae'r Arolygiaeth yn helpu i warchod y pethau sy'n bwysig i gymunedau.

Gwelwyd newid eleni yn fy nghyd-gyfarwyddwyr anweithredol. Hoffwn ddiolch i'r cyfarwyddwyr anweithredol a ymadawodd, sef David Holt, Susan Johnson a Jayne Erskine, am eu cyfraniad i'r sefydliad. Croesawaf Rebecca Driver, Sally Dixon a Stephen Tetlow, sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol yn barod. Hoffwn hefyd ddiolch yn bersonol i Sarah Richards a'i Thîm Gweithredol am eu hymrwymiad i sicrhau bod eu pobl yn aros yn ddiogel ac yn iach, a diolch i gydweithwyr ar draws y sefydliad am eu dycnwch wrth sicrhau bod yr Arolygiaeth yn parhau i gyflawni ei diben.

Gyda'n gilydd, gallwn barhau i wella ein perfformiad, ar yr un pryd ag aros yn driw i werthoedd y sefydliad, sef tegwch, tryloywder, didueddrwydd a rhoi'r cwsmer yn gyntaf. Wrth wneud hynny, bydd y sefydliad yn parhau i gyfrannu at helpu Cymru a Lloegr i gyflawni nodau datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Trudi Elliott
28 Awst 2020


Crynodeb o berfformiad

1. Datganiad o ddiben a gweithgareddau

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn gyd-asiantaeth weithredol y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru. Fe'i harweinir gan Brif Weithredwr, sef Sarah Richards, sy'n cael ei chynorthwyo gan dîm o gyfarwyddwyr gweithredol. Mae'r Arolygiaeth yn cynnwys Arolygwyr cyflogedig ac ar contract sy'n gweithio gartref, ynghyd â staff cymorth sy'n gweithio yn ein swyddfeydd ym Mryste a Chaerdydd.

Mae'r Arolygiaeth yn gweithredu mewn system a arweinir gan gynlluniau, a ddiffinnir gan sawl darn o ddeddfwriaeth sylfaenol:


- mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ymdrin â'r system Cynlluniau Lleol;
- mae Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) yn ymdrin â'r drefn ganiatáu ar gyfer prosiectau Seilwaith Cenedlaethol yn Lloegr;
- mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn ymdrin â Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yng Nghymru;
- mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) yn ymdrin â'r system apeliadau; ac
- mae fframweithiau a sefydlwyd gan ddeddfwriaeth gysylltiedig yn ymdrin â meysydd gwaith eraill, fel apeliadau Amgylcheddol a gwaith achos Hawliau Tramwy.



2. Blaenoriaethau strategol yn 2019 – 2020:

Performance highlights

'Darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol' a
'Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd'



Blaenoriaeth Strategol: Darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol

Nifer y penderfyniadau gwaith achos apêl ac arbenigol a gyhoeddwyd yn 2019/20 (Lloegr):

22,635 ↑ 21% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol



434 Wedi'u cyhoeddi yng Nghymru

Amser ddilysu i benderfynu ar gyfer gwaith achos apêl ac arbenigol (cyfartaleddau canolrifol):

21 Wythnos

✓ I lawr o 24 wythnos yn y flwyddyn flaenorol (yn Lloegr)

Effaith 'Rosewell':

24 Wythnos

Yr amser cyfartalog canolrifol a gymerir i benderfynu ar achosion o ddilysu. Yn cyfrif 66 apêl gynllunio a symudodd ymlaen trwy ymchwiliad cyhoeddus o dan raglen wella 'Adolygiad Rosewell'.



Ein gwerthoedd:


Teg Agored Diduedd

Canolbwyntio ar Gwsmeriaid

8 o bob 10

yn credu ein bod yn cynnal ein gwerthoedd*


* Yn seiliedig ar ddata o'n harolwg cwsmeriaid 2019.



Gwariant gros ar:

£28.6M wedi'i

wario ar arolygwyr cyflogedig, arolygwyr ar contract a swyddogion cynllunio apeliadau.



£32.7M pob gwariant arall.

Incwm a gynhyrchwyd:


£17.6M



Gwariant gwirioneddol o gymharu â'r gyllideb (yn glir o incwm):

£2.3M

tanwariant




Targedau a gyrhaeddwyd gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru:

100%

Cyrhaeddwyd neu rhagorwyd ar yr holl dargedau ansawdd a pherfformiad yng Nghymru yn ystod y flwyddyn. Daeth ychydig yn fwy o waith achos i mewn (1.06%) ac aeth mwy o waith achos allan na'r flwyddyn flaenorol (-16.7%).



Nifer yr Arolygwyr



Blaenoriaethau strategol yn 2019 – 2020:

‘Mwy o ymgysylltu â staff’ ac
‘Amlygu a threialu dulliau newydd’

Blaenoriaeth Strategol: **Mwy o Ymgysylltu â Staff**

Sgôr mynegai ymgysylltu (Arolwg
Pobl y Gwasanaeth Sifil 2019):

63%

↑ 2% yn uwch
na'r flwyddyn
flaenorol.
↓ 4% yn is na
pherfformwyr
gorau'r
gwasanaeth sifil.

Canfyddiadau o Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2019:

Mae bron **8 o bob 10** o aelodau staff yn cytuno eu bod yn
“cydweithio i ganfod ffyrdd o wella'r gwasanaeth a ddarparwn”.



Mae dros **7 o bob 10** o aelodau staff yn credu bod eu rheolwyr
yn “cymryd camau pendant i ddangos yr ymddygiadau a
amlinellir yn Natganiad Arweinyddiaeth y Gwasanaeth Sifil”.



Proffesiynau sydd wedi'u sefydlu yn yr
Arolygiaeth Gynllunio:

- Masnachol
- Cyfathrebu
- Digidol
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Rheoli Gwybodaeth a Hysbysrwydd
- Cyflawni Gweithredol
- Arolygwyr Cynllunio
- Cyflawni Prosiectau
- Ystadegau



Canlyniad ailgynllunio sefydliadol
(gweithwyr nad ydynt yn
Arolygwyr):

377

o swyddi
parhaol

30


o swyddi cyfnod
penodol

76%

o'r sefydliad ar waith
ar 1 Ebrill 2020



Blaenoriaeth Strategol: **Amlygu a threialu dulliau newydd**



Awtomeiddio

Treialu offer awtomeiddio i gyflymu'r broses o brofi
system gwaith achos newydd yr Arolygiaeth, PICASO:



Templed adroddiad cynllun lleol

Mae'r defnydd o dempled adroddiad gan Arolygwyr wedi
helpu i gynyddu effeithlonrwydd wrth ysgrifennu argymhellion
ar gyfer cynlluniau lleol.



Sesiynau briffio rhithwir i staff

Gan ddefnyddio Microsoft Teams Live Events, rydym wedi
llwyddo i sbarduno gwell ymgysylltiad â staff trwy sesiynau
holi ac ateb byw. Mae defnyddio'r dechnoleg wedi ein helpu
i baratoi ar gyfer digwyddiadau gwaith achos rhithwir yn
2020/21.

3. Risgiau strategol

Mae ein perfformiad yn erbyn ein hamcanion strategol ac, yn benodol, ein perfformiad wrth ymdrin â gwaith achos yn agored i risg.

Mae'r tabl isod yn dangos y risgiau a oedd yn cael eu monitro ar ddiwedd 2019/20 a'r camau lliniarol mwyaf arwyddocaol ar gyfer pob un ohonynt.

Risgiau strategol		
Maes risg	Disgrifiad o'r risg	Camau lliniarol
Gallu a chapasiti	Achos: : Methiant i asesu'r adnoddau y mae arnom eu hangen yn rhagweithiol ac ymsefydlu prosesau hyblyg i sicrhau bod gennym ni'r bobl iawn ar gael ar yr adeg ac yn y lleoliad y mae arnom eu hangen. Digwyddiad: Bydd yn arwain at ddiffyg staff sy'n allweddol i fusnes. Canlyniad: Nid ydym yn gwneud defnydd effeithiol o'n gwybodaeth am newidiadau sydd ar ddod a fydd yn effeithio ar yr Arolygiaeth er mwyn rheoli ein hadnoddau'n rhagweithiol.	- Datblygu cynllunio strategol y gweithlu. - Datblygu strategaeth dalent. - Adolygu'r broses o weithredu Cynllun y Sefydliad.
Sganio'r gorwel a chynllunio adnoddau	Achos: Nid ydym yn gwneud defnydd effeithiol o'n gwybodaeth am newidiadau sydd ar ddod a fydd yn effeithio ar yr Arolygiaeth er mwyn rheoli ein hadnoddau'n rhagweithiol. Digwyddiad: Dim digon o adnoddau i ymdrin â gwaith achos, ddim yn barod ar gyfer newidiadau i bolisi. Ni all systemau fodloni gofynion sy'n newid. Canlyniad: Penderfyniadau anghyson, camgymeriadau ac amserlenni estynedig ar gyfer penderfynu ar apeliadau. Cost a niwed i enw da.	- Cydweithio â'r adrannau perthnasol i amlygu effaith newidiadau polisi yn y dyfodol. - Rheoli risgiau sy'n dod i'r amlwg ar lefel weithredol trwy gofrestr ar wahân, gan uwchgyfeirio yn ôl yr angen. - Ymgorffori newidiadau Cynllun y Sefydliad (gan gynyddu gallu yn y Gyfarwyddiaeth Strategaeth).
Agenda gweddnewid ac arbedion	Achos: Mae diffyg gallu a/neu gapasiti yn golygu nad yw prosiectau'n cyflawni'r buddiannau disgwylidig. Digwyddiad: Methiant i gyflawni'r agenda gweddnewid yn llwyddiannus. Canlyniad: Mae'r Arolygiaeth yn methu â chyrraedd targedau perfformiad a chyflawni'r arbedion sy'n ofynnol.	- Adolygu'r manteision disgwylidig a'u diweddaru'n rheolaidd. - Monitro'r baich ar adnoddau newid a chapasiti'r sefydliad.

Perfformiad gweithredol	Achos: Diffyg cyfatebiaeth rhwng y galw am wasanaethau a'r gallu a'r sgiliau i'w darparu. Digwyddiad: Methu â chynnal lefel y perfformiad sy'n ofynnol gan Weinidogion a chwsmeriaid. Canlyniad: Effaith arwyddocaol ar ysbryd cyflogeion ac enw da a hygredd yr Arolygiaeth ymhlith Gweinidogion a chwsmeriaid.	• Datblygu gallu gwell o ran gwybodaeth reoli (adolygu modelu adnoddau, cynlluniau recriwtio a hyfforddi. • Cynyddu gallu cynllunio strategol y gweithlu. • Treialu dulliau newydd o ddarparu.
Gwrthwynebiad diwylliannol i newid	Achos: Mae cyfran sylweddol o staff wedi gweithio yn y sefydliad am 10 mlynedd neu fwy ac wedi bod yn gwneud yr un gwaith mewn ffyrdd tebyg iawn ar hyd y cyfnod hwnnw. Digwyddiad: Mae ofn methu sy'n gysylltiedig â symud i ffwrdd o'r sefyllfa bresennol yn drech, yn hytrach nag awydd a brwdfrydedd i weithio mewn ffyrdd newydd a gwneud gwelliannau. Canlyniad: Mae gwrthwynebiad diwylliannol i newid yn golygu bod cyflawni perfformiad gwell yn annhebygol.	• Cynnwys staff mewn prosiectau newid a threialon. • Modelu'r diwylliant a ddymunir mewn digwyddiad staff. • Mynegi a rhannu rhesymau cymhellol o blaid newid.
Effaith cyflwyno prosiect Maes Awyr Heathrow	Achos: Bydd graddfa, cymhlethdod a phroffil prosiect Maes Awyr Heathrow yn cyflwyno heriau newydd sylweddol i'r sefydliad. Digwyddiad: Methiant i gynllunio a rhagfynegi lefelau mewnbwn gan Arolygwyr yn ddigonol, neu amlygu pob math o gostau. Neu fethiant gweithdrefnol yn ein gwaith. Canlyniad: Gallai achosi i gostau fynd y tu hwnt i gyllid y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Mae ceisiadau hwyr am adnoddau arolygwyr ychwanegol yn effeithio'n uniongyrchol ar berfformiad. Costau her yn yr uchel lys. Niwed sylweddol i enw da'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Arolygiaeth Gynllunio.	• Sefydlu cyllid a thîm prosiect penodol. • Cynnwys Seilwaith Cenedlaethol wrth ddatblygu'r porth Gweddnewid Cyflawni Gweithredol.

Diogelu data	Achos: Diffyg diwylliant ymgorfforedig ac aeddfed o lywodraethu data Dealltwriaeth gyfyngedig o'r polisïau a'r prosesau sy'n angenrheidiol i sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Digwyddiad: Mae'r Arolygiaeth yn methu â chydymffurfio â'i rhwymedigaethau rheoleiddiol gan arwain at fynediad diawdurdod at ddata. Canlyniad: Niwed i enw da'r Arolygiaeth; niwed neu ofid i unigolion; cosbau ariannol i'r Arolygiaeth gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.	• Sefydlu tîm prosiect i amlygu'r gwaith sy'n ofynnol. • Cyflawni rhaglen wella. • Cyflwyno hyfforddiant GDPR wedi'i deilwra ar draws y sefydliad. • Penodi a hyfforddi Perchenogion Asedau Gwybodaeth ac Arbenigwyr Asedau Gwybodaeth.
Gweithredu Gweddnewid Cyflawni Gweithredol	Achos: Methiant i ddarparu'r dechnoleg a'r prosesau newydd sy'n angenrheidiol, a hyfforddi staff i'w defnyddio. Digwyddiad: Effaith negyddol bosibl ar allu ac effeithiolrwydd gweithredol yr Arolygiaeth a'i henw da am wneud penderfyniadau diduedd, teg a thryloyw. Canlyniad: Mae'n cymryd mwy o amser i Arolygwyr ganfod a gweithio trwy'r deunydd y mae arnynt ei angen i wneud penderfyniadau, gan arwain at oedi wrth wneud penderfyniadau.	• Gweithredu ffrwd waith benodol i sicrhau bod y system gwaith achos newydd yn cael ei chyflawni, dan oruchwyliaeth uwch reolwr. • Cynnal adolygiadau sicrwydd annibynnol o feysydd allweddol.
Methiant i reoli rhanddeiliaid	Achos: Mae'r berthynas â chwsmeriaid a rhanddeiliaid yn cael ei hesgeuluso, torrir addewidion neu ceir achos o gamgymeriad/ anghymhwysedd difrifol yn yr Arolygiaeth sy'n cael ei drin yn wael. Digwyddiad: Mae'r Arolygiaeth yn methu â rheoli perthnasoedd/cyfathrebu â rhanddeiliaid. Canlyniad: Mae'r Arolygiaeth yn dioddef niwed i'w enw da ac mae cwsmeriaid a rhanddeiliaid yn colli ffydd yn y sefydliad.	• Monitro adborth gan gwsmeriaid yn barhaus trwy amryw ddulliau a chymryd camau prydlon i fynd i'r afael â materion. • Datblygu a rheoli'n weithredol offeryn rheoli rhanddeiliaid i ddeall agweddau a buddiannau rhanddeiliaid. • Gwella profiad cwsmeriaid trwy ymdrin â materion yn brydlon. • Darparu hyfforddiant digonol i bob aelod o staff ar bob maes perthnasol.

Nid oes unrhyw adnoddau penodol ar gyfer ymdrin ag effaith Brexit. Sefydlwyd gweithgor yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r grŵp wedi cyfarfod ddwywaith yn ystod 2019/20 i drafod effeithiau ar ein pobl, ein gwasanaethau digidol, ein gwasanaethau gweithredol,

a'n polisi. Yn flaenorol, amlygodd y gweithgor risgiau masnachol yn ymwneud â chyflenwi nwyddau a gwasanaethau, ac yn ymwneud â hygyrchedd data, a nododd gamau lliniarol priodol. Rhoddwyd llawer o'r camau lliniarol ar waith a lliniarwyd y risgiau masnachol i raddau helaeth. Mae'r risg i bolisi yn parhau, wedi'i lliniaru gan ein gallu uwch i sganio'r gorwel a gweithio'n agos gydag adrannau allweddol y llywodraeth e.e. yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, yr Adran Drafnidiaeth, ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y rhan fwyaf o'n risgiau strategol, yn enwedig risgiau o ran gallu a chapasiti a risgiau o ran perfformiad gweithredol. Mae'r camau lliniarol wedi cynnwys sefydlu grŵp prosiect penodol i gynllunio ymateb uniongyrchol a thymor hwy i'w effeithiau.

I liniaru'r effaith ar berfformiad gweithredol, mae'r Arolygiaeth wedi sefydlu ffyrdd newydd o weithio yn gyflym. Wrth i ni dreialu ffyrdd newydd o weithio, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn parhau i fod yn deg, yn agored ac yn dryloyw, gan wneud yn siŵr bod pob grŵp yn gallu ymgysylltu. Mae cwynion a phryderon ynglŷn â ffyrdd newydd o weithio yn isel ar hyn o bryd, ond mae angen ystyried cymhlethdod gwaith achos ac amrywiaeth y partïon sy'n gysylltiedig.

Ers yr ymateb cyntaf i'r pandemig i adeg cymeradwyo'r adroddiad hwn, rhoddodd yr Arolygiaeth flaenoriaeth i les cyflogeion, bwrw ymlaen â'i gwaith achos, ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol/cwsmeriaid a chynorthwyo'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i ymateb i'r argyfwng. Llwyddodd yr Arolygiaeth i barhau i fwrw ymlaen â'i phrosiect newid digidol, gan gynnwys Gweddnewid Cyflawni Sefydliadol, ailgynllunio'r sefydliad, a chyhoeddi tua 3000 o benderfyniadau (rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2020). Disgwylir y byddwn yn cyrraedd sefyllfa 'adennill costau' (cyfateb lefel y gwaith sy'n dod i mewn i'r gwaith sy'n mynd allan) erbyn mis Awst 2020 ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i wella perfformiad ymhellach. Mae'r Arolygiaeth yn datblygu cynllun adfer perfformiad tymor hir ac yn dargyfeirio adnoddau oddi wrth swyddogaethau ategol i fwrw ymlaen â gwaith achos rheng flaen yn y tymor byr er mwyn lleihau effaith y pandemig ar berfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth am ein proses rheoli risg ar gael yn y Datganiad Llywodraethu yn y ddogfen hon.

Dadansoddiad o berfformiad

Ein blaenoriaethau strategol yn 2019/20 oedd:

- Gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol
- Effeithlon ac effeithiol
- Mwy o ymgysylltu â staff
- Arloesi dulliau a gwasanaethau

4. Gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol

Mae'r Arolygiaeth yn rhyngweithio ag ystod eang o gwsmeriaid. Mae'r rhain yn cynnwys awdurdodau lleol, apelyddion, asiantiaid, datblygwyr seilwaith, gweinidogion, arbenigwyr pwnc a phartïon â buddiant.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein holl waith achos yn cael ei drin yn broffesiynol, gan ystyried yr holl gyflwyniadau gan amryw bartïon, yng nghyd-destun polisïau cynllunio lleol a chenedlaethol perthnasol, a deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys y Ddeddf Hawliau Dynol.

Ein hamcanion strategol ar gyfer y flwyddyn o dan y flaenoriaeth hon oedd:

- gwella perfformiad i gyrraedd targedau ac ymsefydlu diwylliant sy'n canolbwyntio ar berfformiad; a
- cynllunio prosesau a systemau o'r dechrau i'r diwedd sydd wedi'u seilio ar anghenion defnyddwyr.

Wrth i ddiwedd y flwyddyn ariannol nesáu, cyn yr achosion COVID-19 yng Nghymru a Lloegr, roedd ein perfformiad gweithredol wedi gwella'n sylweddol.

Roedd cynnydd yn cynnwys:

- Gwaith achos apêl ac arbenigol – roedd yr amser dilysu i benderfynu wedi gwella o ganolrif¹ o 24 wythnos i 21 wythnos. Mae'r categorïau canlynol wedi gwella'n sylweddol:
 - Apeliadau cynllunio trwy gynrychiolaethau ysgrifenedig – roedd yr amser derbyn i benderfynu wedi gwella'n sylweddol o ganolrif o bron 30 wythnos i 19 wythnos.
 - Apeliadau cynllunio trwy ymchwiliad – gweithredwyd y rhan fwyaf o argymhellion Adolygiad Rosewell yn llwyddiannus, gan haneru'r amser penderfynu i ganolrif o 24 wythnos.

Gwnaethom gynnydd sylweddol wrth leihau nifer yr achosion sy'n cael eu hystyried ar draws pob ffrwd waith o oddeutu 13000 i oddeutu 9500. Mae hyn yn effeithio ar berfformiad cyffredinol yn erbyn targedau gan fod clirio achosion hŷn wedi effeithio ar ganran gyffredinol yr achosion sy'n bodloni'r amserlen darged. Gwnaethom

Gwella perfformiad i gyrraedd targedau ac ymsefydlu diwylliant sy'n canolbwyntio ar berfformiad

1. Canolrif: y gwerth canol pan drefnir y data o'r lleiaf i'r mwyaf.

barhau i flaenoriaethu gwaith seilwaith cenedlaethol, cynlluniau lleol ac ymchwiliadau tai, gan adeiladu sylfaen gadarn ar gyfer gwelliannau arwyddocaol a pharhaus mewn gwaith achos apeliadau cynllunio, gorfodi ac arbenigol yn ystod 2020/21.

Fe'n cynorthwywyd yn hyn o beth wrth i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ddarparu £13m o gyllid ar gyfer rhaglen adfer perfformiad dwy flynedd (2018/19 - 2019/20). Yr hyn a oedd wrth wraidd y rhaglen hon oedd recriwtio Arolygwyr cyflogedig newydd a gweithredu model penderfynu newydd gan ddefnyddio Swyddogion Cynllunio Apeliadau. Datblygwyd systemau gwybodaeth reoli newydd i ategu gwneud penderfyniadau'n effeithiol.

Yr hyn a oedd yn ganolog i'n cynnydd eleni oedd recriwtio, sefydlu, hyfforddi a chefnogi Arolygwyr newydd a hyfforddi Arolygwyr presennol i ymgymryd â meysydd gwaith gwahanol. Roedd y cynnydd yn ymdrech ar draws y sefydliad cyfan, gan gynnwys staff o bob rhan o'r Arolygiaeth. Rhoddwyd cymorth hefyd gan ein Harolygwyr ar Gontract. Fodd bynnag, lleihaodd yr angen am yr adnodd hwn tua diwedd y flwyddyn. Roedd hyn o ganlyniad i recriwtio Arolygwyr cyflogedig newydd ar Fand 2 a ddatblygodd eu sgiliau, yn ystod eu cyfnod hyfforddiant cychwynnol, i ymgymryd â gwaith achos a wneir gan Arolygwyr ar Gontract fel arfer.

Gwnaeth Adolygiad Rosewell o'r broses ymchwiliadau apeliadau cynllunio 22 argymhelliad yn amrywio o ymagwedd fwy rhagweithiol at reoli'r broses ymchwilio trwy benodi Arolygwyr yn gynharach, i reoli achosion yn fwy gweithredol a datrysiadau technoleg gwell, gan gynnwys porth ar-lein newydd. Roedd gweithredu'r argymhellion hyn yn allweddol i ni wneud penderfyniadau cyson gyflymach ynglŷn ag ymchwiliadau cynllunio ar yr un pryd â chynnal ansawdd y penderfyniadau hynny.

Buddsoddodd yr Arolygiaeth mewn dadansoddi ei hymagwedd bresennol at ymgysylltu â chwsmeriaid a deall a'r hyn sy'n ofynnol i wella gwasanaeth cwsmeriaid. Yn rhan o'r rhaglen Dylunio Sefydliadol, penderfynwyd creu un pwynt cyswllt ar gyfer cwsmeriaid gan gyfuno'r timau gwasanaeth cwsmeriaid ac ansawdd cwsmeriaid. Mae'r swyddogaeth gwasanaeth cwsmeriaid yn atebol i swydd newydd: Pennaeth Arloesi a Gwella, ac mae strategaeth gwsmeriaid wrthi'n cael ei datblygu.

Cynllunio prosesau a systemau o'r dechrau i'r diwedd sydd wedi'u seilio ar anghenion defnyddwyr

Mae gweithgor bach hefyd wedi bod yn dadansoddi ac amlygu mesurau cynhyrchedd sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid. Bydd hyn yn cefnogi gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 2020-21 i wella'r ffordd rydym yn mesur perfformiad sefydliadol, fel ei fod yn berthnasol i'r hyn sydd bwysicaf i gwsmeriaid.

Casglwyd adborth gan y cwsmeriaid sy'n defnyddio ein gwasanaeth fwyaf, sef asiantiaid cynllunio ac Awdurdodau Cynllunio Lleol yn bennaf. Parhaodd i ddangos eu bod yn gwerthfawrogi ansawdd a manwl gywirdeb ein gwaith wrth benderfynu ar achosion, ond eu bod yn teimlo bod cynnydd yn rhy araf o hyd, er bod ein prydlondeb wedi gwella'n sylweddol. Mae gwella canfyddiadau cwsmeriaid o'n cysondeb, o ran prosesau a gwneud penderfyniadau, yn parhau i fod yn her i ni.

Rydym yn falch o'r cynnydd a wnaed gennym, ond rydym wedi egluro i'n cwsmeriaid, rhanddeiliaid eraill ac o fewn y sefydliad bod gennym ni gynnydd pellach sylweddol i'w wneud.

Treialodd a chyflwynodd y sefydliad newidiadau a argymhellwyd gan Adolygiad Rosewell. Roedd hyn yn cynnwys:

- Ymagwedd fwy cyfarwyddiadol o lawer gan Arolygwyr at reoli achosion, a hynny'n gyson;
- pennu dyddiadau ar gyfer ymchwiliadau yn gynnar; a
- newid canllawiau i ddylanwadu ar ymddygiad.

Cyfrannodd y dulliau newydd hyn yn sylweddol at gyflymu'r prosesau. Ar ôl gweithredu proses newydd sy'n ystyried yr uchod, gwnaed penderfyniadau o fewn 24 wythnos (gwerth canolrifol). Mae hyn tua hanner yr amser y byddent wedi'u cymryd o dan y broses flaenorol.

Nod ein rhaglen Gweddnewid Cyflawni Gweithredol yw gweddnewid ein prosesau cyflawni o'r dechrau i'r diwedd trwy:

- ei gwneud yn haws i gwsmeriaid gynnal busnes â ni;
- cynorthwyo staff i weithio mor effeithlon ac effeithiol â phosibl;
- manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd digidol; a
- darparu gwerth rhagorol am arian i drethdalwyr.

Mae'r prosesau'n dechrau wrth 'ddrws blaen' yr Arolygiaeth (pan fydd cwsmer yn ystyried cyflwyno achos) ac yn gorffen pan fydd penderfyniad/adroddiad wedi'i wneud, ei gofnodi a'i gyfleu (neu pan fyddwn yn ymdrin â chwyn neu gysylltiad pellach ynglŷn ag achos).

Ym mis Awst, cyrhaeddodd y rhaglen Gweddnewid Cyflenwi Gweithredol gam hollbwysig yn sgil rhyddhau'r prototeip cyntaf o'r system rheoli achosion swyddfa a'r porth newydd ar gyfer cwsmeriaid, sef PICASO. Fe'i lansiodd i 27 Awdurdod Cynllunio Lleol ledled tri rhanbarth yn ne-ddwyrain Lloegr.

Mae'r prototeip yn parhau i gael ei ddefnyddio. Rydym wedi gwneud diweddariadau rheolaidd i'w wella yn dilyn adborth gan ddefnyddwyr, ac mae mwy na 250 o geisiadau wedi cael eu cyflwyno trwy'r prototeip.

Yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol, cododd pryderon ynglŷn â datrysiad technegol Gweddnewid Cyflawni Sefydliadol o ran gofynion y system. Mae'r datganiad llywodraethu yn manylu ar sut mae'r rhaglen yn cael ei rheoli er mwyn sicrhau bod y canlyniadau sy'n ofynnol yn cael eu cyflawni.

5. Gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

Gwell mynediad at ddatrysiadau digidol a gwybodaeth reoli, a defnydd ohonynt

Ein hamcanion strategol ar gyfer y flwyddyn o dan y flaenoriaeth hon oedd:

- gwell mynediad at ddatrysiadau digidol a gwybodaeth reoli, a gwell defnydd ohonynt;
- defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol; a
- dod yn gryfach yn ariannol.

Daeth y contract â Fujitsu, sef ein cyflenwr TG, i ben ym mis Mawrth 2019. Ynghyd â'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, gwnaethom weithio yn rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Technoleg i ddisodli'r gwasanaethau a ddarparwyd gan Fujitsu.

Mae ein gliniaduron a'n llechi newydd yn defnyddio cysylltedd di-wifr. Maen nhw'n caniatáu mwy o gludadwyedd, a'r gallu i weithio o unrhyw le gyda mynediad cyflymach a diogel i systemau'r Arolygiaeth. Darparwyd swyddogaeth desg gymorth gan LittleFish.

Mae Microsoft 365 wedi galluogi ystod ehangach o ddulliau cyfathrebu rhwng cydweithwyr, gan gyfrannu at reoli amser yn well. Mae wedi helpu ein staff i gael cydbwysedd mwy hyblyg rhwng bywyd a gwaith, wedi gwella lles, ac wedi cefnogi ein huchelgais i gael gweithlu mwy amrywiol. Bu o gymorth mawr hefyd i'n galluogi i ymateb i'r pandemig COVID-19, gan ganiatáu i'n holl staff swyddfa ddechrau gweithio gartref.

Mae ein hofferyn gwybodaeth fusnes, sef MiPINS, wedi bod yn allweddol wrth wella sut mae'r Arolygiaeth yn defnyddio data. Mae'n cyflwyno gwybodaeth fusnes mewn ffordd syml, hawdd ei deall, a gellir ei deilwra i fodloni anghenion defnyddwyr ar draws y sefydliad. Mae wedi helpu i wneud penderfyniadau effeithiol trwy roi'r adnoddau i reolwyr achub y blaen, ac mae'n darparu gallu allweddol ar gyfer y dyfodol i rybuddio'n gynnar am risgiau perfformiad.

Gall yr offeryn gasglu gwybodaeth o lawer o wahanol feysydd o'r busnes, sy'n golygu y gellir dadansoddi busnes yn syml ac yn gyflym. Er enghraifft, cynhaliwyd dadansoddiad o amserau apeliadau Deiliaid Tai (Cynrychiolaethau Ysgrifenedig A78). Defnyddiwyd yr offeryn i rannu'r amser dechrau i'r diwedd i'w rannau cyfansawdd a'u dadansoddi am wendidau. Dangosodd yr adroddiad ar berfformiad fod oedi yn ystod camau olaf y gwaith, sef y cam 'darllen'. Rhoddwyd datrysiad tactegol cyflym ar waith i unioni hyn, ac ymgorfforwyd datrysiad strategol (sef 'Checkmark') yn MiPINS i ddatrys y broblem yn y dyfodol.

Defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol

Er mwyn gweithredu argymhellion Adolygiad Rosewell, roedd angen i'r Arolygiaeth gynyddu ein hadnoddau a newid y ffordd y cânt eu defnyddio.

Modelodd yr Arolygiaeth y galw tebygol a phosibl am Arolygwyr ymchwiliadau i gyflawni perfformiad cynaliadwy yn unol ag Adolygiad Rosewell. Gwnaethom gynyddu ein capasiti o ran Arolygwyr Band 2 a 3 a chynyddu ein hyblygrwydd trwy 'amlhyfforddi' mwyafrif yr Arolygwyr Band 2 a 3. Bydd hyn yn caniatáu i ni wella ein perfformiad mewn ymchwiliadau, ond hefyd mewn Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol a Chynlluniau Lleol.

Gwnaethom ddadansoddi tueddiadau mewn data hanesyddol i ystyried amrywiaeth o senarios yn y dyfodol ar draws gwahanol fathau o achosion i wella rhaglennu a lleihau oedi.

Ar yr un pryd, cynlluniodd yr Arolygiaeth ar gyfer ad-drefnu ein hadnoddau o ran strwythur a rheolaeth trwy'r rhaglen Dylunio Sefydliadol. Bydd y Dyluniad Sefydliadol newydd yn dwyn ynghyd pawb sy'n ymwneud â darpariaeth weithredol, gan gynnwys Arolygwyr a staff Gweithredol, am y tro cyntaf.

Bydd y strwythur newydd yn helpu i wneud penderfyniadau mor agos i'r rheng flaen â phosibl. Mae'n cyflwyno atebolrwydd am berfformiad ar gyfer y rhai sy'n darparu ein gwasanaethau. Mae hefyd yn rhoi pwyslais gwell o lawer ar reoli a chefnogi ein pobl, yn enwedig Arolygwyr. Bydd gan Arweinwyr Proffesiynol rôl gynghori, gan sicrhau bod hyfforddiant a chymorth technegol ar waith ac yn effeithiol.

Dod yn gryfach yn ariannol

Yn rhan o'r rhaglen Dylunio Sefydliadol, mae'r tîm cyllid wedi cael ei ailstrwythuro a'i recriwtio i lefelau uwch arweinyddiaeth, ac mae rôl ychwanegol Rheolwr Ariannol wedi cael ei chynnwys. Byddwn yn recriwtio'n llawn i'r strwythur newydd yn ystod 2020/21 ochr yn ochr â gwneud gwelliannau pellach i Systemau Corfforaethol ac offer rheoli ariannol. Mae'r strwythur newydd hefyd yn cynnwys dau Bartner Busnes Cyllid a Chynllunydd Ariannol a fydd yn cynorthwyo'r deiliaid cyllideb a busnes wrth i ni symud i Bartneru Busnes Cyllid ochr yn ochr â Chyfrifyddu Rheoli ac Adrodd Ariannol. Pan fydd ar waith yn llawn, bydd y capasiti ychwanegol hwn yn galluogi'r Arolygiaeth i wella ei rheolaeth ariannol yn sylweddol a rhoi cynlluniau ariannol tymor hir ar waith.

Recriwtiwyd Rheolwr Llywodraethu Gweithredol a Risg parhaol ym mis Chwefror 2020 i ddatblygu ymagwedd integredig tuag at reoli risg. Mae'r rôl yn cynnwys goruchwyllo cydymffurfiaeth â Safonau Gweithredol Atal Twyll Swyddfa'r Cabinet, a fydd yn gwella ymwybyddiaeth yr Arolygiaeth o wrthlygredd a'i reolaethau ar gyfer hynny. Gweler y Datganiad Llywodraethu i gael rhagor o wybodaeth am Dwyll, llwgrwobrwyo a chwythu'r chwiban.

6. Mwy o ymgysylltu â staff

Sicrhau bod gennym y nifer briodol o bobl sydd â'r sgiliau priodol a'r gwerthoedd priodol

Ein hamcanion strategol ar gyfer y flwyddyn o dan y flaenoriaeth hon oedd:

- Sicrhau bod gennym y nifer briodol o bobl sydd â'r sgiliau priodol a'r gwerthoedd priodol.
- Ymgysylltu â staff wrth ddiffinio ein diwylliant a sut i wella'r ffordd rydym yn gweithio.

Yn 2018/19, gwnaethom ddechrau ar daith i newid sut rydym yn trefnu ein hunain er mwyn darparu'n well ar gyfer ein cwsmeriaid, gwneud cynnydd o ran ein nodau strategol, a chefnogi ein pobl yn eu gyrfaedd yn yr Arolygiaeth. Ein cam cyntaf oedd datblygu model gweithredu newydd ar sail targedau a'n galluogodd i ffurfio a blaenoriaethu'r gwaith, creu darlun o'r dyfodol ar gyfer staff ac amlygu bylchau allweddol o ran gallu.

Penderfynwyd mynd i'r afael â'r newid hwn mewn dau gam, felly datblygwyd strwythur uwch aelodau staff sy'n:

- darparu atebolrwydd clir ar gyfer ein perfformiad gweithredol;
- galluogi symud adnoddau i'r gwaith â'r flaenoriaeth uchaf;
- dileu seilos rhwng ein llinellau gwaith i alluogi cyfathrebu gwell; a
- chreu mwy o gyfleoedd strwythuredig i ddatblygu a chamu ymlaen mewn gyrfa.

Cwblhawyd cam cyntaf y rhaglen Dylunio Sefydliadol yn 2019/20 a datblygodd yr ail gam yn dda. Dyluniwyd y strwythur newydd ac roedd yn barod i'w weithredu fesul cam o 1 Ebrill 2020 ymlaen.

Rhoddodd y rhaglen Dylunio Sefydliadol y strwythur angenrheidiol ar waith i alluogi gweithio'n fwy effeithlon ac effeithiol ar draws yr Arolygiaeth a mwy o atebolrwydd am ddarparu. Mae hyn yn rhan o newid diwylliannol ehangach sydd â'r nod o gryfhau diwylliant perfformiad yr Arolygiaeth.

Lansiwyd y Strategaeth Bobl ym mis Hydref 2019.

Mae'r strategaeth hon yn sail i'r Cynllun Strategol ac yn canolbwyntio ar dair conglaen waith: datblygu ein sgiliau arwain a rheoli, datblygu arbenigedd proffesiynol ein pobl, a chynyddu ein pwyslais ar gynhwysiant, amrywiaeth a lles.

Rydym wedi hyfforddi rheolwyr llinell i gael sgysiau rheoli mwy adeiladol, ac i'w helpu i ddod yn fwy ysbrydoledig, hyderus a grymusol. Mae sgysiau ynglŷn ag ansawdd

Ymgysylltu â staff wrth ddiffinio ein diwylliant a sut i wella'r ffordd rydym yn gweithio

yn cael eu cynnal yn rheolaidd (unwaith y mis, yn nodweddiadol) ac mae rheolwyr yn deall eu cyfrifoldeb i sicrhau lles eu timau yn ogystal â rheoli perfformiad. Gwnaethom fuddsoddi mewn datblygiad proffesiynol parhaus a dechrau sefydlu fframweithiau proffesiynol ar draws yr Arolygiaeth. Nod y fframweithiau hynny yw sicrhau bod pawb yn cael ei ystyried yn aelod o broffesiwn ac yn cael ei barchu am ei arbenigedd.

Bu llawer o'r staff yn ymwneud ag asesu'r dulliau, y rolau a'r strwythurau presennol er mwyn cyfrannu at ddylunio'r model gweithredu newydd. Yn ogystal, mae staff rheng flaen wedi cyfrannu at ddylunio'r porth cwsmeriaid newydd a'r system swyddfa gefn gysylltiedig.

Mae'r Arolygiaeth wedi buddsoddi mewn datblygu rheolwyr llinell ac uwch arweinwyr. Mae gwella arweinyddiaeth, rheoli perfformiad a ffurfio perthnasoedd gwaith cryf yn ganolog i gynyddu ymgysylltiad staff.

Ym mis Mawrth 2020, cynhaliwyd y trydydd digwyddiad 'OnePINS' i ddod â'n holl staff swyddfa a gweithwyr o bell at ei gilydd am ddiwrnod. Rhoddodd siaradwr gwadd sy'n arbenigo mewn seicoleg gadarnhaol gyflwyniad ar 'Wyddoniaeth Hapusrwydd', gyda'r nod o gynyddu ymgysylltiad a chynhyrchedd. Cafodd y digwyddiad adborth cadarnhaol a bydd bellach yn ddigwyddiad blynyddol cyn y digwyddiad hyfforddi blynyddol i Arolygwyr.

Yn ogystal, tua diwedd y flwyddyn 2019/20, roedd Strategaeth Gwelliant Parhaus wrthi'n cael ei datblygu i gytuno arni'n gynnar yn 2020/21.

7. Dulliau a gwasanaethau arloesol

Gan adlewyrchu Cynllun Strategol 2019/24, roedd llawer o'r gwaith o ran y flaenoriaeth hon yn y flwyddyn gyntaf (2019/20) yn ymwneud â strwythuro'r Arolygiaeth a datblygu'r gallu i gyflawni yn erbyn yr amcanion o dan y flaenoriaeth hon yn y dyfodol. Ein hamcanion strategol ar gyfer y flwyddyn o dan y flaenoriaeth hon oedd:

- treialu dulliau newydd;
- datblygu ein polisi amgylcheddol ac adolygu ein hôl troed carbon; a
- deall ein heffaith ar ddatblygu cynaliadwy o ganlyniad i'n penderfyniadau a'n hargymhellion.

Treialu dulliau newydd

Yn hanesyddol, mae'r Arolygiaeth wedi gwella'r ffordd y mae'n darparu ei swyddogaethau a'i gwasanaethau, yn fewnol ac yn allanol, yn barhaus. Fodd bynnag, mae blaenoriaethu arloesedd yn ein Cynllun Strategol 2019/24 yn adlewyrchu ein huchelgais i herio'r ffordd rydym yn gweithredu yn rhagweithiol a chwilio am ddatrysiadau arloesol i wella ein gwasanaethau.

Mae cynnydd cyflym technoleg mewn bywyd pob dydd yn golygu bod ein cwsmeriaid yn dymuno ac yn disgwyl i ni ddarparu ein gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol. Trwy roi cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn, rydym eisiau arloesi a gwella'n barhaus i ddarparu'r gwasanaethau gorau y gall ein cwsmeriaid eu disgwyl yn rhesymol, gan sicrhau ein bod yn gwneud defnydd da o arian y sector cyhoeddus.

Trwy'r rhaglen Dylunio Sefydliadol, amlygodd yr Arolygiaeth yr angen am swydd uwch arweinyddiaeth, ac rydym wedi recriwtio Pennaeth Arloesi a Gwella. Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd yn sefydlu cynllun i ddatblygu systemau, prosesau a diwylliant sy'n annog ac yn meithrin syniadau arloesol, yn ogystal â chefnogi'r broses o roi'r rhain ar waith, fel y bo'n briodol. Disgwyliwn i bob arweinydd ac aelod o staff ystyried hyn yn flaenoriaeth, ochr yn ochr â sefydlu diwylliant o berfformiad, ac yn rhan o hynny.

O ganlyniad i'r angen i weithio'n wahanol yn dilyn yr achosion COVID-19, rydym wedi cyflymu ein gwaith ar ddulliau newydd ac yn symud yn gyflymach tuag at weithredu dulliau a gwasanaethau newydd (amcan a osodwyd ar gyfer blynyddoedd hwyrach ein Cynllun Strategol.

Datblygu ein polisi amgylcheddol ac adolygu ein hôl troed carbon

Rydym wedi cynnig datblygu a gweithredu System Reoli Amgylcheddol gwbl achrededig ar draws yr Arolygiaeth. Bydd hyn yn gam cyntaf defnyddiol tuag at hwyluso'r broses o gyflawni'r amcan hwn. Rydym yn rhoi achos busnes ar waith i gael cymorth arbenigol i

alluogi adolygiad strategol a dadansoddiad o fylchau o'n prosesau busnes. Bydd hyn yn ein galluogi i ddatblygu polisi amgylcheddol sefydliadol, cynllun gweithredu a chyfeiriad ar gyfer trosglwyddo i System Reoli Amgylcheddol gwbl achrededig. Pan fydd y system ar waith, byddwn yn gallu mesur perfformiad amgylcheddol sylfaenol presennol yr Arolygiaeth yn fwy cywir, a phennu ble a sut i weithredu mesurau gwella mewn ffordd reoledig a pharhaus. Bydd y System Reoli Amgylcheddol yn galluogi adolygiad cyfannol o effeithiau'r Arolygiaeth ar yr amgylchedd ac yn cynorthwyo i weithredu mesurau i leihau ein hól troed carbon, gan gynnwys dealltwriaeth well o effaith ein hadnoddau a'n hól troed carbon.

Deall ein heffaith ar ddatblygu cynaliadwy o ganlyniad i'n penderfyniadau a'n hargymhellion

Mae datblygu cynaliadwy wrth wraidd holl bolisiâu Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac mae'n dylanwadu'n uniongyrchol ar waith ein Harolygwyr a'r penderfyniadau a wnânt. Mae pob Arolygydd yn ymwybodol o'i ddyletswydd i sicrhau bod y system gynllunio'n cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy a'r amcanion trosfwaol. Mae Arolygwyr yn cynnal archwiliadau, ymchwiliadau a gwrandawliadau yn yr ardaloedd y bydd eu penderfyniad yn effeithio arnynt fel mater o drefn, ac yn cynnal ymweliadau safle fel y bo'r angen i sicrhau eu bod yn llwyr ddeall effaith eu penderfyniadau ar dderbynyddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol perthnasol. Rydym yn ystyried ffyrdd y gall yr Arolygiaeth adrodd yn fwy cywir ar effaith penderfyniadau ar ddatblygu cynaliadwy a chyflawni nodau datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (gweler Ffigur 7.1). Mae tri yn arbennig o berthnasol i rôl yr Arolygiaeth: 8 – twf economaidd, 9 – seilwaith ac 11 – dinasoedd a chymunedau cynaliadwy. Credwn y bydd datblygu a gweithredu System Reoli Amgylcheddol achrededig ar gyfer y sefydliad yn darparu'r fframwaith a'r garreg sarn ar gyfer gwneud cynnydd yn erbyn yr amcan strategol hwn yn y dyfodol.



Ffigur 7.1 Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig

8. Effaith gymunedol ac amgylcheddol

Effaith gymunedol ac amgylcheddol – ein sefydliad

Rydym yn cydnabod sut mae ein gwaith yn effeithio ar yr amgylchedd, yn enwedig ein model sefydliadol a'n darpariaeth weithredol. Yn sgil gweithredu'r System Reoli Amgylcheddol, disgwyliwn allu rhoi rheolaethau amgylcheddol cryfach ar waith yn hyn o beth a byddwn yn ystyried gwelliannau i leihau ein heffaith amgylcheddol ymhellach.

Ein lle swyddfa

Mae gweithlu'r Arolygiaeth wedi'i rannu rhwng Arolygwyr sy'n gweithio gartref a thimau cymorth sy'n gweithio mewn swyddfeydd ym Mryste a Chaerdydd. Bydd Arolygwyr yn dod i'n swyddfeydd pan fydd angen, ond eithriad yw hynny ac fe'i hwylusir trwy ein trefniadau lleoliad gwaith hyblyg. Anogwyd ein timau swyddfa i weithio'n hyblyg rhwng y swyddfeydd a gartref. Mae gwelliannau i'r dechnoleg gwybodaeth a ddefnyddiwn wedi caniatáu'r hyblygrwydd hwn ac wedi lleihau'r pwysau ar ein hadnodd swyddfa canolog.

Ochr yn ochr â'r trefniadau hyn, rydym wedi annog defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Rydym hefyd yn cefnogi'r cynllun beicio i'r gwaith ac yn darparu cyfleusterau i'r rhai sy'n defnyddio'r dull hwn i gymudo i'r gwaith.

Ailgylchu

Rydym yn darparu cyfleusterau ailgylchu yn ein swyddfeydd – ar gyfer plastig, caniau alwminiwm, gwydr, cardbord, papur a bwyd gwastraff.

Gwaredu offer

Yn 2019/20, nid oeddem wedi gallu gwaredu unrhyw offer oherwydd bod y cyflenwr a ddefnyddiwyd gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Arolygiaeth wedi rhoi'r gorau i fasnachu ar 3 Ebrill 2019. Tra bod contract newydd yn cael ei geisio, nid oedd Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ar waith, ac nid oeddem yn gallu defnyddio'r trefniant gwaredu hwn. Mae'r holl offer wedi cael ei storio'n ddiogel a bydd y broses waredu'n ailgychwyn pan fydd yr holl fesurau diogelu ar waith.

Ein staff

Anogir gwirfoddoli ar draws y gwasanaeth sifil. Gellir defnyddio lwfans o hyd at chwe diwrnod o absenoldeb arbennig y flwyddyn i dreulio amser yn helpu ein cymunedau. Yn 2019/20, gwnaeth 62 o bobl waith gwirfoddoli, gan neilltuo 118 o ddiwrnodau o'u hamser.

Cododd staff gyfanswm o £14,114.59 trwy drefnu a chymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian mewnol ac allanol. Aeth yr arian a godwyd i ysbytai, Gwasanaeth Ambiwlans yYsbyty Great Western, elusennau cancer (Tiwmor ar yr Ymennydd, Gofal Cancer y Fron, MacMillan), Sefydliad yr Ysgyfaint, Sefydliad Brenhinol Cenedlaethol y Badau Achub a Sefydliad Prydeinig y Galon

Adroddiad cynaliadwyedd

Mae Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth yn arwain gwaith i greu hwb Llywodraeth rhanbarthol newydd yn Temple Quay House lle mae ein swyddfa ym Mryste wedi'i lleoli. Gohiriwyd y prosiect o ganlyniad i flaenoriaethau eraill y Llywodraeth a'r pandemig COVID-19. Rydym yn gweithio gydag Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth i gytuno ar ein gofynion lle a chyfleusterau pan fydd y rhaglen yn ailgychwyn.

Ymrwymiad Gwyrddu'r Llywodraeth

A ninnau'n denant Temple Quay House, gwnaethom gyfrannu at dargedau Ymrwymiad Gwyrddu'r Llywodraeth o ran cynaliadwyedd, gan adrodd ar ffigurau yn yr un modd â holl Adrannau'r Llywodraeth a chyrrff hyd braich.

Yn sgil y datblygiadau mewn gweithio a chyfathrebu'n electronig, gwnaethom lwyddo i leihau ein defnydd o bapur o 844 o flychau yn 2018/19 i 694 yn 2019/20. Disgwyliwn barhau i leihau hyn ymhellach yn y dyfodol. Roedd yr holl bapur a ddefnyddiwyd gennym wedi'i ailgylchu 100%.

Mae'r ffigurau yn y tablau canlynol yn adlewyrchu canran y lle yn Temple Quay House y gwnaethom dalu amdano (oni bai y nodir fel arall) ac nid yw'n cynnwys y rhai sy'n gweithio gartref na Pharc Cathays, sydd wedi'i gynnwys yn adroddiad Llywodraeth Cymru. Yn 2016/17 a 2017/18, y ffigur oedd 34%, gan leihau i 22.25% o 1 Mawrth 2019. Mae'r gostyngiad hwn yn deillio o gynnydd mewn gweithio hyblyg, wrth i staff swyddfa gael eu hannog i weithio gartref lle y bo'n briodol. Rydym hefyd wedi lleihau maint desgiau a chreu mwy o fannau gweithio cydweithredol. Mae Ystod 3 yn cynnwys yr holl allyriadau anuniongyrchol o deithio busnes.

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr		2017/18 (meddiannaeth o 34%)	2018/19 (meddiannaeth o 34%)	2019/20 (meddiannaeth o 22%)
Dangosyddion Anariannol (tCO2e)	Allyriadau crynswth ar gyfer Ystodau 1 a 2	289.51	172.37	83.53
	Cyfanswm yr allyriadau net ar gyfer Ystodau 1 a 2	0	0	0
	Allyriadau crynswth sy'n gysylltiedig ag Ystod 3 Teithio busnes swyddogol	467	459	453
		(Ffigurau gwirioneddol ar gyfer yr Arolygiaeth)		
	Allyriadau Ystod 3 eraill	0	0	0
Defnydd Cysylltiedig o Ynni (KWh)	Trydan: Tariff gwyrdd	623,087	383,382	216,863
	Nwy	271,294	135,647	116,681
	Nwy Petrolewm Hylifedig	0	0	0
	Arall	0	0	0
Dangosyddion Ariannol (£k)	Gwariant ar Ynni	82.55	136.93	78.86 ²
	Gwariant Trwydded Ymrwymiad Lleihau Carbon (CRC)	0	0	0
	Incwm CRC o Daliadau Ailgylchu	0	0	0
	Gwariant ar deithio busnes swyddogol	846.3	887.6	1.026
		(Ffigurau gwirioneddol ar gyfer yr Arolygiaeth)		

Gwastraff			2017/18 (meddiannaeth o 34%)	2018/19 (meddiannaeth o 34%)	2019/20 (meddiannaeth o 22%)
Dangosyddion Anariannol (t)	Cyfanswm y gwastraff		29.76	42.74	48.92
	Gwastraff peryglus		0	0	0
	Gwastraff nad yw'n beryglus	Tirlenwi	2.80	1.41	0.66
		Ailddefnyddio / Ailgylchu	13.52	34.05	48.23
		Llosgi / Ynni o wastraff	13.44	7.28	0
Dangosyddion Ariannol (£k)	Cyfanswm cost gwaredu		10.65	5.65	0.1
	Cost gwaredu gwastraff peryglus		0	0	0
	Gwastraff nad yw'n beryglus	Tirlenwi	0.34	0.66	0.035
		Ailddefnyddio / Ailgylchu	1.60	1.18	0.063
		Llosgi / Ynni o wastraff	8.72	3.80	0

Defnydd o Adnodd y mae Pen Draw iddo – Dŵr			2017/18 (meddiannaeth o 34%)	2018/19 (meddiannaeth o 34%)	2019/20 (meddiannaeth o 22%)
Dangosyddion Anariannol (m3)	Defnyddio Dŵr	A gyflenwir	1,992	1,243.38	911.24
		A dynnir	0	0	0
Dangosyddion Ariannol (£k)	Costau Cyflenwi Dŵr		6.63	4.22*	3.46

* Amcangyfrif ar sail cost 2017/18 wedi'i chynyddu 2%.

Sylwebaeth ar berfformiad

Nid oedd y costau ar gyfer nwy ar gael yn 2019/20 pan ofynnwyd amdanynt. Mae ymchwiliad yn cael ei gynnal i hyn. I gynhyrchu'r ffigurau, rydym wedi cyfrifo pris uned yn seiliedig ar y costau gwirioneddol o 2018/19 a'i luosi â'r nwy a ddefnyddiwyd ar gyfer 2019/20.

Sylwebaeth ar effeithiau rheoladwy

Dim. Rheolwyd yr adeilad yn ganolog gan Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth.

Trosolwg o effeithiau dylanwadedig

Dim. Rheolwyd yr adeilad yn ganolog gan Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth.

Addasu i'r newid yn yr hinsawdd

Mae ein swyddfa wedi ei lleoli'n agos at gysylltiadau bws a rheilffordd da, sy'n lleihau'r defnydd o drafnidiaeth breifat. Mae ein technoleg gyfrifiadurol yn cefnogi:

- mwy o weithio gartref er mwyn i'n staff allu cydbwysu eu gwaith â'u bywydau personol yn well, a chadw mewn cysylltiad â chydweithwyr yn y swyddfa neu mewn mannau eraill yn hawdd;
- llai o deithio i gyfarfodydd (e.e. yn Llundain) trwy ddefnydd cynyddol o alwadau fideo; ac
- ein cynlluniau wrth gefn ar gyfer gweithio gartref pan fydd amhariadau wedi'u hachosi gan dywydd garw a phroblemau teithio.

Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol

Ar wahân i'n Harolygwyr, sy'n gweithio gartref, mae ein gweithrediad wedi ei leoli mewn swyddfeydd ym Mryste a Chaerdydd. Mae'r Arolygiaeth yn gweithredu o

Ymrwymadau
tryloywder yn
rhan o Ofynion
Adrodd Ymrwymiad
Gwyrddu'r
Llywodraeth

swyddfeydd neu o gartref i raddau helaeth, felly rydym yn llai tebygol o gael effaith uniongyrchol ar dderbynyddion bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol. Fodd bynnag, cydnabyddwn fod ein penderfyniadau trefniadaethol, gan gynnwys gweithredu a chaffael, yn gallu cael effaith anuniongyrchol ar dderbynyddion o'r fath. Yn sgil gweithredu'r System Reoli Amgylcheddol, disgwyliwn allu mynd ymhellach yn hyn o beth a byddwn yn ystyried gwelliannau i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd fwy fyth.

Caffael gwasanaethau bwyd ac arlwyo

Mae'r contract rheoli cyfleusterau ar gyfer ein pencadlys ym Mryste yn cynnwys elfen i fodloni ein gofynion arlwyo.

Adeiladu cynaliadwy

Dim. Nid yw'r Arolygiaeth yn comisiynu gwaith adeiladu newydd.

9. Dadansoddiad manwl o berfformiad – Lloegr

Mae'r adran hon yn manylu ar sut rydym wedi perfformio, graddau'r gofynion arnom a'r penderfyniadau a gyhoeddwyd gennym yn ystod 2019/20, o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn cyd-fynd â phob un o'r ffigurau isod: y math o waith achos y mae'n ei gynrychioli, statws y gwaith achos hwnnw, unrhyw is-gategoriâu ychwanegol, yr ystod, y gwerth (nifer, canolrif neu gyfran) a'r cyfnod y mae'n ei rychwantu.

Mae'r gwaith rydym ni'n ei wneud yn amrywiol. Mae prosiectau fel gorsafoedd pŵer ac estyniadau i draffyrdd (Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol) yn gymhleth ac ar raddfa fawr, ond ambell un yn unig rydym yn delio â nhw bob blwyddyn.

Ein maes gwaith mwyaf yw apeliadau cynllunio. Mae'r rhan fwyaf o apeliadau'n defnyddio ein dulliau symlaf ar gyfer gwneud penderfyniadau, ond gallant amrywio'n fawr o ran cymhlethdod. Rydym hefyd yn ymdrin â mathau eraill o waith achos lle'r ydym yn derbyn llai o geisiadau ac mae'r gwaith yn benodol iawn, er enghraifft gorchmynion hawliau tramwy sy'n ymwneud â newidiadau i gyfeiriad llwybr troed cyhoeddus neu awdurdodi gwaith ar dir comin.

Un o'r meysydd gwaith allweddol eraill yw'r gwaith a wnawn gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol i'w helpu i gyflawni cynlluniau lleol cadarn.

Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol

Ein diben

Rydym yn gyfrifol am weithredu'r broses gynllunio ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, sef prosiectau ar raddfa fawr sy'n perthyn i chwe sector; ynni, trafnidiaeth, dŵr, dŵr gwastraff, gwastraff a busnes a masnachol. Mae enghreifftiau'n cynnwys gorsafoedd pŵer; rheilffyrdd a phrif ffyrdd; cronfeydd dŵr; porthladdoedd; meysydd awyr; ffermydd gwynt ar y môr a gweithfeydd trin carthion – mewn geiriau eraill, y mathau o gyfleusterau mawr sy'n cynnal bywyd pob dydd y wlad.

Niferoedd allweddol ar gyfer 2019/20	Adroddiadau prosiect a gyflwynwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol	Prosiectau a gyflwynwyd i'r Arolygiaeth Gynllunio
	20	14

Mesurau perfformiad allweddol / Targedau gweinidogol cytunedig

Penderfynu ar dderbyn 100% o'r holl geisiadau o fewn 28 niwrnod	Bodlonwyd
Cwblhau 100% o'r holl archwiliadau o fewn chwe mis	Bodlonwyd
Cyflwyno'r holl argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol o fewn tri mis	Bodlonwyd

Ein heffaith

Mae tîm yr Arolygiaeth Gynllunio yn cyfrannu ei sgiliau a'i phroffesiynoldeb fel yr Awdurdod Archwilio i archwilio ceisiadau cymhleth o fewn yr amserlenni a ddiffinnir yn statudol.

Mae ein rôl fel Awdurdod Archwilio yn golygu edrych ar y Datganiad Polisi Cenedlaethol (os yw wedi'i ddynodi), a safbwyntiau'r awdurdodau lleol a phartïon eraill ynglŷn ag effaith debygol y cynnig ac unrhyw beth arall sy'n bwysig ac yn berthnasol. Rydym yn argymhell i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol p'un a ddylai'r prosiect symud yn ei flaen.


Tueddiadau allweddol

Cyhoeddodd yr Arolygiaeth Gynllunio y nifer uchaf o adroddiadau prosiect mewn blwyddyn ers i'r broses gael ei chreu.

Cyflwynwyd pedwar prosiect ar ddeg i'r Arolygiaeth Gynllunio yn 2019/20, sef llai nag yn y flwyddyn flaenorol (Ffigur 9.1). Mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau a gyflwynwyd yn y sectorau ynni a thrafnidiaeth (Ffigur 9.2).


Ffigur 9.1: Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol a gyflwynwyd, ac adroddiadau a gyflwynwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol, yn ôl blwyddyn ariannol, Nifer

2015/16 i 2019/20



Ffigur 9.2: Adroddiadau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol a gyflwynwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol, yn ôl sector, yn ôl blwyddyn ariannol, Nifer

2015/16 i 2019/20



Ffynhonnell: Yr Arolygiaeth Gynllunio

Asesiadau o effeithiau amgylcheddol

Ein diben

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn cynnal Asesiadau o Effeithiau Amgylcheddol (EIA) sy'n ceisio gwarchod yr amgylchedd. Mae'r asesiadau hynny'n sicrhau bod Awdurdod Cynllunio Lleol yn gwneud penderfyniadau cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth lawn am effeithiau arwyddocaol tebygol prosiectau sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar yr amgylchedd.

Niferoedd allweddol ar gyfer 2019/20	Ceisiadau cwmpasu EIA ³ a gafwyd	Ceisiadau cwmpasu EIA a gyhoeddwyd	Ceisiadau sgrinio EIA a gafwyd ^{4,5}
	9	12	0

Mesurau perfformiad allweddol / Targedau gweinidogol cytunedig	
Cyhoeddi 100% o'r holl safbwyntiau cwmpasu EIA o fewn 42 diwrnod o'u derbyn	Bodlonwyd
Cyhoeddi 100% o'r holl safbwyntiau sgrinio EIA o fewn 21 diwrnod o'u derbyn	dd/b

Ein heffaith

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn ymgymryd â'i chyfrifoldeb dirprwyedig am y prosesau EIA ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) yn ofalus, gan gynorthwyo pob cais ac apêl fel y bo'r angen. Mae'r gwaith a wnawn yn ceisio sicrhau cadernid priodol ac annog cymesuredd tuag at y wybodaeth a gynhyrchir ar gyfer y prosesau EIA a HRA.

3. Mae cais cwmpasu Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol (EIA) yn golygu bod yr ymgeisydd yn gofyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol am ei farn ynghylch pa wybodaeth y mae angen ei chynnwys. Mae hyn yn pennu graddau'r materion sydd i'w hystyried yn yr EIA ac yr adroddir arnynt yn y Datganiad Amgylcheddol.

4. Mae cais sgrinio EIA yn pennu p'un a yw prosiect arfaethedig yn dod o fewn cylch gorchwyl y Rheoliadau a ph'un a yw'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd, ac felly bod angen iddo gael asesiad.

5. Ni wnaethom gyhoeddi unrhyw geisiadau sgrinio yn 2019/20.

Archwilio cynlluniau lleol yn gyhoeddus

Ein diben

Mae cynlluniau lleol yn amlinellu'r strategaeth ddatblygu tymor hir ar gyfer ardal, a dyna lle y gwneir y penderfyniadau mawr ar gynllunio ar gyfer dyfodol cymunedau a thir. Pan fydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi gorffen paratoi ac ymgynghori ar gynllun lleol, mae'n rhaid iddo gael ei gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol a fydd yn penodi Arolygydd i gynnal archwiliad annibynnol. Ymdrinnir â'r broses hon gan yr Arolygiaeth Gynllunio.

Niferoedd allweddol ar gyfer 2019/20	Adroddiadau a gyhoeddwyd	Adroddiadau yr aseswyd eu bod yn gadarn	Cynlluniau a gyflwynwyd i'r Arolygiaeth Gynllunio
	59	58	39

Mesurau perfformiad allweddol / Targedau gweinidogol cytunedig	
Cwblhau archwiliadau Cynlluniau Datblygu (Cynlluniau Lleol) o fewn yr amserlen y cytunwyd arni gyda'r Awdurdodau Cynllunio Lleol	Bodlonwyd

Ein heffaith

Roedd y 59 adroddiad oll yn cynnwys newidiadau argymelledig a oedd yn angenrheidiol i ganiatáu i'r cynllun gael ei fabwysiadu, a adwaenir hefyd fel Prif Addasiadau, sy'n dangos sut mae ein Harolygwyr yn gweithio'n bragmatig ac yn adeiladol gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol i'w helpu i gyflawni cynllun cadarn, lle y bo'n bosibl. Gall yr addasiadau hyn amrywio o ddiwygio geiriad polisi i ddileu dyraniadau tai digyfiawnhad neu gyflwyno rhai newydd a newid y gofyniad tai.


Tueddiadau allweddol

Roedd nifer yr adroddiadau cynllun lleol a gyhoeddwyd gennym yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol. Y newid arwyddocaol fu'r gostyngiad yn y galw, gyda 40% yn llai o gynlluniau'n cael eu cyflwyno yn 2019/20 o gymharu â 2018/19 (Ffigur 9.3). Yn ystod 2019/20, tynnwyd dau gynllun lleol yn ôl cyn i'r Arolygwyr gyflwyno adroddiad. Yn yr achos cyntaf, roedd yr Arolygydd wedi oedi'r archwiliad i ganiatáu i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gynnal Adolygiad Llain Las a gwneud gwaith ar ei gyflenwad

tir ar gyfer tai. Wedi hynny, tynnodd y cyngor y cynllun yn ôl yn dilyn newid i reolaeth wleidyddol. Yn yr achos arall, daeth yr Arolygydd i'r casgliad na chydymffurfiwyd â'r ddyletswydd i gydweithio ag awdurdodau cyfagos a thynnodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol y cynllun yn ôl wedi hynny. Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, y mathau o gynlluniau a gyflwynwyd amlaf gan Awdurdodau Cynllunio Lleol oedd cynlluniau strategol, cynlluniau dyrannu safle a chynlluniau mwynau/gwastraff (Ffigur 9.4).


Ffigur 9.3: Adroddiadau archwilio cynlluniau lleol a gyflwynwyd ac adroddiadau a gyhoeddwyd, yn ôl blwyddyn ariannol, Nifer

2015/16 i 2019/20



Ffigur 9.4: Adroddiadau archwilio cynlluniau lleol a gyflwynwyd, yn ôl y math o gynllun, yn ôl blwyddyn ariannol, Nifer

2015/16 i 2019/20



Ffynhonnell: Yr Arolygiaeth Gynllunio

Rhestrau Ardoll Seilwaith Cymunedol

Ein diben

Mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn ardoll y gall Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr dewis ei chodi ar ddatblygiadau newydd yn eu hardal. Mae'r awdurdod sy'n codi tâl yn llunio dogfen o'r enw rhestr codi tâl sy'n amlinellu'r gyfradd ar gyfer ei ardoll. Mae'n rhaid iddi gael ei harchwilio'n gyhoeddus gan unigolyn annibynnol cyn y gall yr awdurdod sy'n codi tâl ei chymeradwyo'n ffurfiol.

Niferoedd allweddol ar gyfer 2019/20	Adroddiadau a gyhoeddwyd	Rhestrau codi tâl a gyflwynwyd
	4	3

Mesurau perfformiad allweddol / Targedau gweinidogol cytunedig

Cwblhau archwiliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol o fewn yr amserlen y cytunwyd arni gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.	Bodlonwyd
---	-----------

Ein heffaith

Rydym yn parhau i gefnogi'r broses hon, gan asesu bod rhestrau codi tâl Awdurdodau Lleol yn rhesymol a rhoi sicrwydd i Awdurdodau Lleol ynglŷn â'r gallu i weithredu rhestrau codi tâl. Mae nifer y mewnbynnau a'r allbynnau yn adlewyrchu prosesu sy'n aeddfed yn y byd cynllunio ehangach a bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gallu dewis darparwyr amgen i asesu eu rhestr codi tâl Ardoll Seilwaith Cymunedol.

Tueddiadau allweddol

Mae nifer yr adroddiadau rhestrau codi tâl a gyhoeddwyd ac a gyflwynwyd yn 2019/20 yn debyg i'r flwyddyn flaenorol; pedwar adroddiad wedi'u cyhoeddi o gymharu â phump yn 2018/19, a thair rhestr wedi'u cyflwyno o gymharu â saith yn 2018/19.

Apeliadau cynllunio a chysylltiedig

Ein diben

Os bydd cais am ganiatâd cynllunio yn cael ei wrthod gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, neu os caiff ei roi gydag amodau, gellir cyflwyno apêl i'r Ysgrifennydd Gwladol yn erbyn y penderfyniad, neu'r amodau, o dan Adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Daw'r apêl hon i'r Arolygiaeth Gynllunio, sy'n gweithredu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol.

Niferoedd allweddol	Apeliadau a gafwyd	Newid ers y flwyddyn flaenorol	Apeliadau y penderfynwyd arnynt	Newid ers y flwyddyn flaenorol
	11,690	5% yn is 	13,325	30% yn uwch 
Mesurau perfformiad allweddol	Y nod o ran cynrychiolaethau ysgrifenedig yw canolrif o 18 wythnos, o ddyddiad apêl ddilys i ddyddiad y penderfyniad. Mae hyn yn gyfystyr â phenderfynu ar 50% o'r achosion mewn 18 wythnos.			Y perfformiad canolrifol ym mis Mawrth 2020 oedd 19 wythnos.
	Y nod o ran gwrandawiadau yw canolrif1 o 31 wythnos, o ddyddiad apêl ddilys i ddyddiad y penderfyniad. Mae hyn yn gyfystyr â phenderfynu ar 50% o wrandawiadau mewn 31 wythnos.			Y perfformiad canolrifol ym mis Mawrth 2020 oedd 36 wythnos.
Targedau gweinidogol	Sylwer: Nid yw ein Targedau Gweinidogol yn adlewyrchu'r mesur craidd a weithredir gan yr Arolygiaeth Gynllunio mwyach a disgwylir cytuno ar fesurau newydd gyda'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn yr hydref 2020			
	Penderfynu ar 80% o gynrychiolaethau ysgrifenedig ymhen 14 wythnos o'r dyddiad dechrau			Heb ei fodloni
	Penderfynu ar 80% o wrandawiadau ymhen 14 wythnos o'r dyddiad dechrau			Heb ei fodloni
	Penderfynu ar 80% o ymchwiliadau (heb eu teilwra) ymhen 22 wythnos o'r dyddiad dechrau			Bodlonwyd
	Penderfynu ar 100% o ymchwiliadau (wedi'u teilwra) yn ôl yr amserlen gytunedig			Bodlonwyd
	Penderfynu ar 90% o ymchwiliadau o dan Adolygiad Rosewell ymhen 24 wythnos			82.5% o fewn y targed
	Penderfynu ar 100% o ymchwiliadau o dan Adolygiad Rosewell ymhen 26 wythnos			98.75% o fewn y targed

Ein heffaith

Mae ein Harolygwyr yn annibynnol ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r ymgeisydd. Maen nhw'n edrych ar yr achos eto ac yn darparu ffordd agored, deg a diduedd o naill ai cytuno â phenderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol neu ei wrthdroi. Mae nifer yr achosion y penderfynir arnynt bob blwyddyn yn dangos pwysigrwydd hyn, yn rhan o'r system gynllunio gyffredinol.

Yn ystod 2019/20, gwnaethom benderfynu ar apeliadau cynllunio yn ymwneud â dros 60,000 o gartrefi, gan ganiatáu dros 38% ohonynt.


Tueddiadau allweddol | derbyniadau a phenderfyniadau

Yn ystod 2019/20, gwelwyd lefel y galw'n dychwelyd i'r hyn a welwyd cyn 2017/18 (Ffigur 9.5). Roedd y cynnydd yn y galw yn ystod 2017/18 ac yn gynnar yn 2018/19 yn gysylltiedig ag apeliadau ar gyfer ciosgau ffôn yn bennaf yn dilyn newidiadau deddfwriaethol eraill. Dim ond yn sgil dileu rheolau datblygiadau a ganiateir y dechreuasom weld gostyngiad sylweddol yn nifer yr apeliadau a dderbyniwyd, gan ddechrau ym mis Mai 2019.

Cynyddodd nifer yr achosion y penderfynwyd arnynt yn 2019/20. Gellir cysylltu hyn â recriwtio Arolygwyr, yn rhan o'n Rhaglen Adfer Perfformiad. Gwnaethom benderfynu ar 3,000 yn fwy o apeliadau na'r flwyddyn flaenorol, sef 30% yn uwch, a dyna'r nifer uchaf yn ystod y deng mlynedd diwethaf o leiaf (mae'r data a gyhoeddwyd yn dechrau o 2010/11) (Ffigur 9.5).

Ffigur 9.5: Apeliadau cynllunio a dderbyniwyd ac y penderfynwyd arnynt yn ôl blwyddyn ariannol, Nifer

2015/16 i 2019/20



Ffynhonnell: Yr Arolygiaeth Gynllunio

Tueddiadau allweddol | Perfformiad


Apeliadau y penderfynwyd arnynt trwy gynrychiolaethau ysgrifenedig

Penderfynir ar y rhan fwyaf o apeliadau trwy gynrychiolaethau ysgrifenedig. Yn ystod 2019/20, gwnaethom osod dwy brif her i'n hunain; gwella ein perfformiad i gwsmeriaid a lleihau nifer yr apeliadau yn y system.

Ffigur 9.6: Penderfyniadau ar apeliadau cynllunio trwy gynrychiolaethau ysgrifenedig yn ôl mis, Canolrif

2019/20

Gwnaethom lwyddo i leihau'r mesur canolrifol o 26 wythnos ym mis Ebrill 2019 i 19 wythnos erbyn mis Hydref 2019. Yna, cynhaliwyd y lefel berfformiad hon am weddill y flwyddyn ariannol (Ffigur 9.6).




Ffynhonnell: Yr Arolygiaeth Gynllunio

Ffigur 9.7: Apeliadau cynllunio trwy gynrychiolaethau ysgrifenedig, nifer yr apeliadau agored ar ddiwedd pob mis, yn ôl mis, Nifer

2019/20

Gwnaethom leihau nifer yr apeliadau hyn yn y system o fwy na 6,000 ym mis Ebrill 2019 i ychydig yn fwy na 4,000 ym mis Mawrth 2020 (Ffigur 9.7).




Ffynhonnell: Yr Arolygiaeth Gynllunio

Ffigur 9.8: Penderfyniadau ar apeliadau cynllunio trwy gynrychiolaethau ysgrifenedig yn ôl mis a chyfnod (o farnu eu bod yn ddilys i'r penderfyniad), Cyfrannau

Ebrill 2018 i Fawrth 2020

Gwaith parhaus rydym wedi bod yn ei wneud i glirio'r ôl-groniad o achosion hŷn sydd wedi effeithio ar ein targed Gweinidogol eleni (gweler y rhannau coch/pinc yn Ffigur 9.8)

Mae penderfyniadau yn cael eu gwneud yn gyflymach ar ganran uwch o apeliadau yn ystod y flwyddyn ariannol (gweler y rhannau gwyrdd yn Ffigur 9.8)



Ffynhonnell: Yr Arolygiaeth Gynllunio

Apeliadau y penderfynwyd arnynt trwy wrandawiadau


Yn ystod 2019/20, penderfynodd yr Arolygiaeth Gynllunio ar fwy na 600 o wrandawiadau apêl gynllunio.

Ffigur 9.9: Penderfyniadau gwrandawriad apêl gynllunio a78 yn ôl mis, Canolrif

2019/20

Yn ystod ail hanner 2019/20, gwnaethom ganolbwyntio mwy o arolygwyr ar wrandawiadau, ond o ganlyniad i'r oedi a etifeddwyd o ran perfformiad, mae'r cynnydd wedi bod yn llai amlwg o ran perfformiad i'n cwsmeriaid.

O ran gwrandawiadau apêl gynllunio y penderfynwyd arnynt ym mis Mawrth 2020, hyd canolrifol yr apêl oedd 36 wythnos. Mae hyn wedi lleihau o 47 wythnos ym mis Ebrill 2019 (Ffigur 9.9).



Ffynhonnell: Yr Arolygiaeth Gynllunio


Apeliadau y penderfynwyd arnynt trwy ymchwiliadau

Yn ystod 2019/20, dechreuodd yr Arolygiaeth Gynllunio weithredu argymhellion Adolygiad Rosewell. Y brif effaith ar berfformiad fu lleihau'r amser a gymerir i benderfynu ar apeliadau ymchwiliad. Rhoddodd y newid i'r broses amserlenni mwy tryloyw a chaeth ar waith ar gyfer yr holl gyfranogwyr. Fel y mae Ffigur 9.11 isod yn ei ddangos, mae'r broses newydd yn gyflymach o lawer na'r broses flaenorol, ond yn ystod 2019/20 roeddem yn parhau i benderfynu ar nifer sylweddol o ymchwiliadau o dan y broses flaenorol.

Ffigur 9.10: Penderfyniadau ar ymchwiliadau apêl gynllunio, yn ôl dyddiad y penderfyniad – mis, Nifer

2019/20


Mae Ffigur 9.10 yn dangos sut mae nifer yr apeliadau ymchwiliad sy'n symud ymlaen o dan broses Rosewell wedi cynyddu yn ystod 2019/20, tra buom hefyd yn penderfynu ar apeliadau o dan y broses flaenorol.



Ffynhonnell: Yr Arolygiaeth Gynllunio

Ffigur 9.11: Penderfyniadau ar ymchwiliadau apêl gynllunio, wythnosau penderfynu (dyddiad dilys i ddyddiad penderfynu) 2019/20

Mae proses Rosewell yn gyflymach o lawer gyda chanolrif o 24 wythnos yn ystod y flwyddyn o'r dyddiad dilys i ddyddiad y penderfyniad (Ffigur 9.11).



Ffynhonnell: Yr Arolygiaeth Gynllunio

Ceisiadau cynllunio mawr

Yn ystod 2019/20, ni chawsom ac ni phenderfynom ar unrhyw geisiadau cynllunio mawr. Ceir darpariaeth o dan Adran 62A Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Twf a Seilwaith 2013) i gais am ganiatâd cynllunio a chymeradwyo materion a gedwir yn ôl gael ei gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol yn uniongyrchol. Mae hyn mewn achosion lle mae'n ymwneud â datblygiad mawr a datblygiad nad yw'n fawr, ac mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol perthnasol wedi cael ei ddynodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Byddai unrhyw geisiadau'n cael eu trin gan yr Arolygiaeth ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol.

Apeliadau gan ddeiliaid tai

Ein diben

Mae apeliadau cynllunio gan ddeiliaid tai yn ymdrin â phrosiectau bach fel estyniadau ac addasu'r atig. Os bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gwrthod cais am ganiatâd cynllunio, neu'n ei roi gydag amodau, gellir cyflwyno apêl i'r Ysgrifennydd Gwladol yn erbyn y penderfyniad, neu'r amodau, o dan Adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Daw'r apêl hon i'r Arolygiaeth Gynllunio sy'n gweithredu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol.

Niferoedd allweddol	Apeliadau a dderbyniwyd	Newid ers y flwyddyn flaenorol	Apeliadau y penderfynwyd arnynt	Newid ers y flwyddyn flaenorol
	4,896	2% yn uwch	4,417	1% yn is
Mesurau perfformiad allweddol	Y nod ar gyfer canolrif cynrychiolaethau ysgrifenedig yw 12 wythnos, o'r dyddiad barnu bod yr apêl yn ddilys i ddyddiad y penderfyniad. Mae hyn yn gyfystyr â phenderfynu ar 50% o'r achosion ymhen 12 wythnos.		Y perfformiad canolrifol ar gyfer 2019/20 gyfan oedd 14 wythnos, ac ym mis Mawrth 2020 roedd yn 16 wythnos.	
Targed gweinidogol	Sylwer: Nid yw ein Targed Gweinidogol yn adlewyrchu'r mesur craidd a weithredir gan yr Arolygiaeth Gynllunio mwyach a disgwylir cytuno ar fesurau newydd gyda'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn yr hydref 2020.			
	Penderfynu ar 80% o apeliadau gan ddeiliaid tai ymhen 8 wythnos o'r dyddiad dechrau.			Heb ei fodloni


Ein heffaith

Mae ein Harolygwyr yn annibynnol ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r ymgeisydd. Maen nhw'n edrych ar yr achos eto ac yn darparu ffordd agored, deg a diduedd o naill ai cytuno â phenderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol neu ei wrthdroi. Mae nifer yr achosion y penderfynir arnynt bob blwyddyn yn dangos pwysigrwydd hyn, yn rhan o'r system gynllunio gyffredinol.

Ffigur 9.12: Apeliadau gan ddeiliaid tai a dderbyniwyd ac y penderfynwyd arnynt yn ôl blwyddyn ariannol, Nifer

2015/16-2019/20

Roedd nifer yr apeliadau gan Ddeiliaid Tai a dderbyniwyd ac y penderfynwyd arnynt yn ystod 2019/20 yn debyg i'r flwyddyn flaenorol (Ffigur 9.12).




Ffynhonnell: Yr Arolygiaeth Gynllunio

Ffigur 9.13: Penderfyniadau ar apeliadau gan ddeiliaid tai yn ôl mis, Canolrif

2019/20

Y perfformiad canolrifol ar gyfer 2019/20 gyfan oedd 14 wythnos. Amrywiodd y perfformiad misol yn erbyn y canolrif ychydig, a gwelwyd dirywiad bach mewn perfformiad yn ystod chwarter olaf 2019/20 (Ffigur 9.13).



Ffynhonnell: Yr Arolygiaeth Gynllunio

Apeliadau eraill
sy'n gysylltiedig â
chynllunio

Ein diben

- Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn ymdrin ag apeliadau eraill sy'n gysylltiedig â chynllunio hefyd, gan gynnwys:
- Apeliadau masnachol: Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau ar gyfer datblygiadau masnachol bach, er enghraifft newidiadau llawr gwaelod fel blaen siopau a chaeadau diogelwch. Gellir gwneud apeliadau yn erbyn y penderfyniadau hyn trwy'r Arolygiaeth Gynllunio.
 - Apeliadau hysbysebion: Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gwneud penderfyniadau ynglŷn ag arddangos hysbyseb neu arwydd ar dai neu adeiladau. Gellir gwneud apeliadau yn erbyn y penderfyniadau hyn trwy'r Arolygiaeth Gynllunio.
 - Apeliadau caniatâd adeilad rhestredig: Os yw eiddo'n adeilad rhestredig ac mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi gwrthod rhoi caniatâd adeilad rhestredig, gellir apelio yn erbyn y penderfyniad hwn. Gellir gwneud apêl hefyd os oes amodau ynghlwm wrth ganiatâd sy'n afresymol ym marn yr ymgeisydd.

Niferoedd allweddol	Apeliadau a dderbyniwyd	Newid ers y flwyddyn flaenorol	Apeliadau y penderfynwyd arnynt	Newid ers y flwyddyn flaenorol
	1,024	36% yn is	1,418	42% yn uwch
Mesurau perfformiad allweddol/Targedau gweinidogol	Nid oes unrhyw nodau perfformiad penodol ar gyfer gwaith achos o'r math hwn. Nid oes Targedau Gweinidogol ar gyfer gwaith achos o'r math hwn.			

Ein heffaith

Mae ein Harolygwyr yn annibynnol ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r ymgeisydd. Maen nhw'n edrych ar yr achos eto ac yn darparu ffordd agored, deg a diduedd o naill ai cytuno â phenderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol neu ei wrthdroi.

Tueddiadau allweddol | Perfformiad

Camystumiwyd nifer yr apeliadau a dderbyniwyd ac y penderfynwyd arnynt yn sylweddol gan y galw a oedd yn gysylltiedig â chiosgau ffôn (gweler hefyd apeliadau cynllunio). Cawsom nifer sylweddol o apeliadau hysbysebu a oedd yn gysylltiedig â chiosgau ffôn yn ystod 2018/19, ac yna gwnaed penderfyniad amdanynt yn ystod 2019/20. Gwnaethom hefyd benderfynu ar bron 40% yn fwy o apeliadau caniatâd adeilad rhestredig yn ystod 2019/20, lle'r oedd y galw yn debyg i flynyddoedd blaenorol.

Y perfformiad canolrifol ar gyfer ein cwsmeriaid apeliadau masnachol oedd 19 wythnos ar gyfer 2019/20. Cymerodd apeliadau hysbysebu fwy o amser, gyda chanolrif o 44 wythnos ar gyfer 2019/20, er bod hyn wedi'i gamystumio oherwydd bod llawer o apeliadau'n gysylltiedig â chiosgau ffôn. Cafodd cwsmeriaid apeliadau caniatâd adeilad rhestredig benderfyniad apêl mewn canolrif o 31 wythnos yn ystod 2019/20.

Apeliadau gorfodi

Mae gorfodi'n cwmpasu apeliadau hysbysiad gorfodi, apeliadau hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig ac apeliadau tystysgrif datblygiad cyfreithlon.

Ein diben

Fel arfer, bydd hysbysiad gorfodi yn cael ei roi i berchennog eiddo pan fydd Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn y bu achos o dorri rheolaeth gynllunio a'i bod yn briodol cymryd camau i unioni'r tor-rheolaeth.

Fel rheol, bydd yr hysbysiad yn mynnu eich bod yn rhoi'r gorau i wneud rhywbeth, fel cael gwared ar adeilad neu strwythur, neu ei newid i'w wneud yn dderbyniol. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn cynnig y cyfle i apelio yn erbyn yr hysbysiad a roddwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Niferoedd allweddol	Apeliadau a dderbyniwyd	Newid ers y flwyddyn flaenorol	Apeliadau y penderfynwyd arnynt	Newid ers y flwyddyn flaenorol
	3,389	2% yn uwch	2,413	11% yn uwch
Mesurau perfformiad allweddol	Y nod ar gyfer cynrychiolaethau ysgrifenedig yw canolrif o 36 wythnos, o ddyddiad barnu bod yr apêl yn ddilys i ddyddiad y penderfyniad. Mae hyn yn gyfystyr â phenderfynu ar 50% o'r achosion ymhen 36 wythnos.		Y perfformiad canolrifol ym mis Mawrth 2020 oedd 28 wythnos o gymharu â 40 wythnos ym mis Ebrill 2019. Y cyfartaledd ar hyd y flwyddyn ariannol gyfan oedd 38 wythnos.	
	Y nod ar gyfer gwrandawiadau yw canolrif o 37 wythnos, o ddyddiad barnu bod yr apêl yn ddilys i ddyddiad y penderfyniad. Mae hyn yn gyfystyr â phenderfynu ar 50% o'r achosion ymhen 37 wythnos.		Y perfformiad canolrifol yn 2019/20 oedd 62 wythnos.	
	Y nod ar gyfer ymchwiliadau yw canolrif o 47 wythnos, o ddyddiad barnu bod yr apêl yn ddilys i ddyddiad y penderfyniad. Mae hyn yn gyfystyr â phenderfynu ar 50% o'r achosion ymhen 47 wythnos.		Y perfformiad canolrifol yn 2019/20 oedd 76 wythnos	
Targed gweinidogol	Sylwer: Nid yw ein Targed Gweinidogol yn adlewyrchu'r mesur craidd a weithredir gan yr Arolygiaeth Gynllunio mwyach a disgwylir cytuno ar fesurau newydd gyda'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn yr hydref 2020.			
	Penderfynu ar 80% o gynrychiolaethau ysgrifenedig ymhen 32 wythnos o'r dyddiad dechrau			Bodlonwyd
	Penderfynu ar 80% o wrandawiadau ymhen 33 wythnos o'r dyddiad dechrau			Heb ei fodloni
	Penderfynu ar 80% o ymchwiliadau ymhen 43 wythnos o'r dyddiad dechrau			Heb ei fodloni

Ein heffaith

Mae ein Harolygwyr yn annibynnol ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r rhai y gorfodir yn eu herbyn. Maen nhw'n edrych ar yr achos eto ac yn darparu ffordd agored, deg a diduedd o naill ai cytuno â phenderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol neu ei wrthdroi.


Tueddiadau allweddol | Galw a Pherfformiad

Mae nifer yr apeliadau gorfodi a dderbyniwyd yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, yn ystod 2019/20, gwnaethom neilltuo mwy o adnoddau i gynnal apeliadau gorfodi. Nid yw'r data a ddangosir isod yn rhychwantu cyfnod digon hir i gadarnhau bod perfformiad wedi gwella'n gyson. Mae'n dangos tystiolaeth gynnar o effaith dyrannu mwy o adnoddau i waith achos o'r math hwn.

Ffigur 9.14: Apeliadau gorfodi a dderbyniwyd ac y penderfynwyd arnynt yn ôl blwyddyn ariannol, Nifer

2015/16 i 2019/20

Roedd nifer yr apeliadau gorfodi a dderbyniwyd yn ystod 2019/20 yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol. Mae nifer y penderfyniadau'n uwch o gymharu 2019/20 â'r flwyddyn flaenorol (Ffigur 9.14).




Ffynhonnell: Yr Arolygiaeth Gynllunio

Ffigur 9.15: Penderfyniadau apeliadau gorfodi yn ôl mis, Nifer

2019/20

Tua diwedd 2019/20, neilltuodd yr Arolygiaeth Gynllunio fwy o adnoddau i apeliadau gorfodi, a dangoswyd hyn trwy gynnydd yn nifer yr apeliadau y penderfynwyd arnynt rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020 (Ffigur 9.15).




Ffynhonnell: Yr Arolygiaeth Gynllunio

Ffigur 9.16: Penderfyniadau apeliadau gorfodi trwy gynrychiolaethau ysgrifenedig yn ôl mis, Canolrif

2019/20

Mae perfformiad yn ystod 2019/20 wedi dechrau gwella i'n cwsmeriaid, gyda chanolrif o 28 wythnos ym mis Mawrth 2020, o gymharu â 40 wythnos ym mis Ebrill 2019 (Ffigur 9.16).

Y gwerth canolrifol ar hyd y flwyddyn ariannol gyfan oedd 38 wythnos.




Ffynhonnell: Yr Arolygiaeth Gynllunio

Ffigur 9.17: Penderfyniadau apeliadau gorfodi trwy wrandawriad ac ymchwiliad yn ôl mis, Canolrif

2019/20

Nid yw perfformiad wedi gwella o ran gwrandawriadau ac ymchwiliadau yn ystod 2019/20 (Ffigur 9.17).



Ffynhonnell: Yr Arolygiaeth Gynllunio

Gwaith achos arbenigol Ein diben

Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol a chynghorau yn gwneud penderfyniadau eraill hefyd, a gellir cyflwyno apêl i'r Ysgrifennydd Gwladol yn erbyn y penderfyniad neu'r amodau. Daw'r apeliadau hyn i'r Arolygiaeth Gynllunio sy'n gweithredu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol.

Niferoedd allweddol	Wedi'u derbyn	Newid ers y flwyddyn flaenorol	Wedi'u penderfynu / adroddiadau wedi'u cyflwyno	Newid ers y flwyddyn flaenorol
	1,003	11% yn llai	854	0.1% yn llai
Mesurau perfformiad allweddol/ Targedau gweinidogol	Sylwer: Nid yw ein Targed Gweinidogol yn adlewyrchu'r mesur craidd a weithredir gan yr Arolygiaeth Gynllunio mwyach a disgwylir cytuno ar fesurau newydd gyda'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ac adrannau eraill y Llywodraeth yn yr hydref 2020.			
Hawliau Tramwy, Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus				
	Penderfynu ar 80% o gynrychiolaethau ysgrifenedig ymhen 37 wythnos o'r dyddiad dilys (2018/19 - 27 wythnos o'r dyddiad dechrau)			Heb ei fodloni
	Penderfynu ar 80% o wrandawiadau ymhen 39 wythnos o'r dyddiad dilys (2018/19 - 29 wythnos o'r dyddiad dechrau)			Heb ei fodloni
	Penderfynu ar 80% o ymchwiliadau ymhen 45 wythnos o'r dyddiad dilys (2018/19 - 35 wythnos o'r dyddiad dechrau)			Heb ei fodloni
Hawliau Tramwy, Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad				
	Penderfynu ar 80% o gynrychiolaethau ysgrifenedig ymhen 37 wythnos o'r dyddiad dilys (2018/19 - 27 wythnos o'r dyddiad dechrau)			Heb ei fodloni
	Penderfynu ar 80% o wrandawiadau ymhen 39 wythnos o'r dyddiad dilys (2018/19 - 29 wythnos o'r dyddiad dechrau)			Heb ei fodloni
	Penderfynu ar 80% o ymchwiliadau ymhen 45 wythnos o'r dyddiad dilys (2018/19- 35 wythnos o'r dyddiad dechrau)			Heb ei fodloni
Atodlen14				
	Penderfynu ar 80% o gyfarwyddiadau ymhen 21 wythnos o'r dyddiad dilys (2018/19 -17 wythnos o'r dyddiad dechrau)			Bodlonwyd
	Penderfynu ar 80% o apeliadau ymhen 30 wythnos o'r dyddiad dilys (2018/19 - 26 wythnos o'r dyddiad dechrau)			Heb ei fodloni
Apeliadau Amgylcheddol				
	Penderfynu ar bob math o apêl ymhen 28 wythnos o'r dyddiad dechrau			Heb ei fodloni

Key numbers for 2019/20	Received	Change from previous year	Decided / reports submitted	Change from previous year
Gorchmynion Diogelu Coed				
	Penderfynu ar 80% o gynrychiolaethau ysgrifenedig ymhen 14 wythnos o'r dyddiad dechrau			Bodlonwyd
	Penderfynu ar 80% o wrandawiadau / ymchwiliadau ymhen 26 wythnos o'r dyddiad dechrau			Bodlonwyd
Gwrychoedd Uchel				
	Penderfynu ar 80% o gynrychiolaethau ysgrifenedig ymhen 24 wythnos o'r dyddiad dechrau			Bodlonwyd
Gwrychoed				
	Penderfynu ar 80% o bob math o apêl ymhen 28 wythnos o'r dyddiad dechrau			Bodlonwyd
Tir Comin				
	Penderfynu ar 80% o'r rhai diwrthwynebiad ymhen 18 wythnos o'r dyddiad dechrau (2018/19 - 12 wythnos o'r dyddiad dechrau)			Bodlonwyd
	Penderfynu ar 80% o'r rhai y gwrthwynebwyd iddynt ymhen 26 wythnos o'r dyddiad dechrau			Bodlonwyd
	Penderfynu ar 80% o'r rhai y gwrthwynebwyd iddynt (Arolygydd) ymhen 40 wythnos o'r dyddiad dechrau (2018/19 - 52 wythnos o'r dyddiad dechrau)			Bodlonwyd
Ceisiadau am gostau				
	Penderfynu ar 50% o bob math o apêl ymhen 10 wythnos o'r dyddiad dechrau			Bodlonwyd

Ein heffaith


Mae ein Harolygwyr yn annibynnol ar y penderfynwr gwreiddiol ac yn edrych ar yr achos eto. Maen nhw'n darparu ffordd agored, deg a diduedd o naill ai cytuno â phenderfyniad y penderfynwr gwreiddiol neu ei wrthdroi.

Tueddiadau allweddol | Galw a Pherfformiad

Mae Ffigur 9.18 isod yn dangos nifer yr achosion a dderbyniwyd yn 2019/20 yn ôl math o waith achos a gategoreiddir yn 'arbenigol' gennym. Y categorïau mwyaf yw gorchmynion diogelu coed, hawliau tramwy, tir comin ac apeliadau gwrychoedd uchel. Roedd cam nesaf y Rhaglen Adfer Perfformiad am ganolbwyntio ar wella ein perfformiad yn y maes hwn yn ystod 2020/21. Fodd bynnag, gallai effaith y pandemig COVID-19 ein hatal rhag gwneud gwelliannau sylweddol i berfformiad.

Ffigur 9.18: Gwaith achos arbenigol a dderbyniwyd, Nifer

2019/20



Ffynhonnell: Yr Arolygiaeth Gynllunio

10. Dadansoddiad Manwl o Berfformiad – Cymru

Mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn ymgymryd â'r holl waith achos cynllunio, amgylcheddol a chysylltiedig yng Nghymru heblaw am y prosiectau seilwaith cenedlaethol mwyaf, nad yw'r cyfrifoldeb am eu prosesu a phenderfynu arnynt wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn ymdrin â rhai mathau o waith achos sy'n benodol i Gymru ac nad yw'r Arolygiaeth ehangach yn ymdrin â nhw, fel apeliadau barnu'n annilys, apeliadau draenio cynaliadwy, adolygiadau yn erbyn rhestru, cyd-astudiaethau argaeledd tir ar gyfer tai ac apeliadau cynnal tir (A125).

Mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn cyflawni rôl allweddol wrth gefnogi nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru, sef creu Cymru sydd:

- yn llewyrchus ac yn ddiogel,
- yn iach ac yn egnïol,
- yn uchelgeisiol ac yn dysgu,
- yn unedig ac yn gysylltiedig.

Ym mis Mai 2019, cyflwynodd Julie James, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, ddatganiad ysgrifenedig i'r Senedd yn amlinellu bwriad Llywodraeth Cymru i sefydlu gwasanaeth cynllunio penodol, ar wahân ar gyfer Cymru. Bydd ffurfio sefydliad newydd yn heriol ac yn ddarn arwyddocaol o waith a fydd yn dargyfeirio pobl ac adnoddau. Er hynny, mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru wedi ymrwymo i gynnal yr un lefel o berfformiad rhagorol yn ystod y broses o drosglwyddo i annibyniaeth. Mae cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gynllunio Lloegr yn gweithio i sicrhau bod y sefydliad newydd ar waith erbyn mis Ebrill 2021⁷.

Rydym wedi sefydlu tîm gwaith achos wedi'i alinio, sy'n sicrhau adnodd symudol y gellir ei anfon i'r man lle y mae ei angen ar yr adeg pan fo'i angen. Mae hyn wedi gwella parhad gwasanaeth i apelyddion, Awdurdodau Cynllunio Lleol, cymunedau a rhanddeiliaid eraill. Mae gwaith i ehangu a datblygu gwybodaeth, arbenigedd a phrofiad yn y tîm yn parhau i gael ei sbarduno.

Yn yr haf 2019, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ei phenderfyniad ar Is-ddeddfau Gwialen a Lein (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru ac Is-ddeddfau Pysgota â Rhwydi (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017. Gwnaed y penderfyniad hwn ar ôl cyflwyno adroddiad ac argymhelliad ein Harolygwyr. Cafodd yr Arolygydd a gynhaliodd yr

7. Ar yr adeg cyhoeddi, dyma'r dyddiad arfaethedig o hyd ac nid yw'r pandemig COVID-19 wedi effeithio arno.

ymchwiliad i glywed gwrthwynebiadau i gadarnhau'r is-ddeddfau lythyr o ddiolch gan y Gweinidog. Canmolodd y Gweinidog y ffordd agored, ddiuedd a theg y cynhaliwyd yr ymchwiliad, gan dynnu sylw'n benodol at ei broffesiynoldeb a'i arbenigedd.

Cyflwynwyd dau adroddiad ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt. Roedd yr un cyntaf yn ymwneud â gosod gorsaf cynhyrchu ynni wrth gefn â chapasiti o oddeutu 40MW ar dir i'r gogledd o Felindre Road, Pencoed. Roedd yr ail yn ymwneud â pharc solar ar Fferm Wauntyswg, Abertyswg, Rhymni. Cyflwynwyd wyth adroddiad hefyd i'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ynglyn â cheisiadau Fforddfraint o dan y Ddeddf Trydan. Mae cais am arâe lanw ar y môr â chapasiti mwyaf o 240MW wedi cael ei gyflwyno, sef y cyntaf o'i fath i'w ystyried, ar ôl i'r pŵer i benderfynu ar y ceisiadau hyn gael ei ddatganoli i Weinidogion Cymru. Yn yr un modd, mae cais am Orchymyn Diwygio Harbwr wedi cael ei dderbyn hefyd.

Cynhaliwyd digwyddiadau i gyflwyno Cyngorau Cymuned i waith yr Arolygiaeth Gynllunio ac archwilio sut gallant ymgysylltu â'r system gynllunio'n effeithiol. Gwnaethom esbonio'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau, mewn apeliadau, archwiliadau cynlluniau lleol a cheisiadau am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, a'r materion sy'n berthnasol ac yn amherthnasol. Yna, trwy weithio gyda Cymorth Cynllunio Cymru, gwnaethom hwyluso sesiynau gweithdy i drafod sut gall Cyngorau Cymuned ddefnyddio eu hadnoddau i sicrhau'r gorau i'w cymunedau.

Rhoddodd Pennaeth Arolygiaeth Gynllunio Cymru gyflwyniad i aelodau pwyllgor awdurdodau lleol ar eu rôl yn y system gynllunio a gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth. Gwnaethom hefyd arwain sesiynau yng nghynadledau'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru yn yr haf a'r hydref. Roedd un sesiwn yn ymwneud â 'Diwrnod ym mywyd Arolygydd', gan roi dealltwriaeth o rôl dydd i ddydd Arolygydd. Roedd un arall yn ymwneud ag arferion da wrth ymdrin ag apeliadau hysbysiad gorfodi, gan ganolbwyntio'n benodol ar lunio hysbysiad gorfodi.

Trwy wahoddiad y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol a'r Adran Seilwaith yng Ngogledd Iwerddon, gwnaethom siarad mewn digwyddiadau yn Belfast a fwriadwyd i'w

helpu i baratoi ar gyfer eu harchwiliadau cynllun datblygu lleol cyntaf.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda Chyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd Llesiant a Chomisiynydd y Gymraeg ar wella'r system gynllunio yng Nghymru.

Gan gynnal lefel uchel o berfformiad yn erbyn targedau gweinidogol, gwnaethom benderfynu ar ymhell dros 90% o achosion o fewn yr amserlenni gofynnol, yn erbyn targed o 85%. Un o'r prif ffactorau sy'n gyfrifol am hyn yw tîm effeithlon a hyblyg. Mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn dîm pwrpasol sydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd, yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ond yn cael ei ariannu ganddi. Mae'r tîm yn cynnwys 20 Arolygydd sy'n gweithio gartref a 26 aelod o staff gweinyddol proffesiynol wedi'u lleoli mewn swyddfa sy'n darparu cymorth i'r Arolygwyr. Ar hyn o bryd, mae pedwar siaradwr Cymraeg yn y tîm ac mae unrhyw ymarfer recriwtio yn cymryd camau pendant i gynyddu'r nifer hon.

Rydym wedi cynnal sawl gweithgaredd i sicrhau bod rolau unigol yn y tîm yn cael eu cyfathrebu a'u deall. Mae Arolygwyr yn eistedd gyda swyddogion achos i ymgyfarwyddo â dyletswyddau'r swyddogion achos ac i gael eu safbwynt. Mae staff swyddfa wedi mynd gydag Arolygwyr ar ymweliadau safle ac wedi mynychu digwyddiadau i gael dealltwriaeth well o rôl Arolygwyr. Mae Arolygwyr wedi esbonio eu proses benderfynu i swyddogion achos. Mae staff swyddfa ac Arolygwyr yn rhannu cinio mewn cyfarfodydd is-grŵp chwarterol, sy'n gyfle iddynt ddod i adnabod ei gilydd. Roedd diwrnod i ffwrdd i'r tîm mewn Ystafell Ddianc wedi'i groesawu gan bawb a gymerodd ran, ac roedd ei lwyddiant i'w weld yn y gwelliant amlwg mewn cyfathrebu rhwng y rhai sydd fel arfer gartref a'r rhai sydd fel arfer yn y swyddfa.

Mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn ystyried hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg o ddifrif. Mae gennym siaradwyr Cymraeg yn y tîm, yn ogystal â'r rhai sy'n dysgu siarad Cymraeg yn annibynnol, sy'n sicrhau lefel sylfaenol o sgiliau yn y tîm drwyddo draw. Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo'r iaith a gwella'r gwasanaeth a ddarparwn i'n cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith. I'r perwyl hwn, darparwyd sesiwn flasau ar y Gymraeg i'r tîm, a gynhaliwyd gan Brifysgol De Cymru, yn rhan o'r diwrnod i ffwrdd i'r tîm, a chafwyd ymateb da iddi.

11. DDadansoddiad Manwl o Ansawdd – Cymru a Lloegr

Mae cynnal ansawdd ein hallbwn yn hanfodol. Ymchwilir i bob cwyn ynglŷn ag achosion unigol, ac rydym yn adolygu unrhyw achos lle mae ein penderfyniad yn cael ei herio yn yr Uchel Lys.

Mae'r Grŵp Llywio Proffesiynol yn adolygu canlyniadau cwynion a heriau cyfreithiol llwyddiannus yn rheolaidd. Mae hyn yn caniatáu i ni ddysgu gwersi a lledaenu gwybodaeth i Arolygwyr trwy gyfuniad o ddeunydd hyfforddi a diweddariadau i ganllawiau.

Cynhwyswyd yr Arolygiaeth Gynllunio yn ystadegau'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd ar gyfer 2017/18. Dyma'r set ddata ddiweddaraf sydd ar gael. Cyhoeddwyd y ddogfen ym mis Rhagfyr 2018 ac mae ar gael ar eu gwefan⁸.

	Lloegr	Cymru
Heriau yn yr Uchel Lys	160	4
Heriau yn yr Uchel Lys	144	4
Heriau Llwyddiannus	44 ⁹	1 ¹⁰

Gwnaethom ymdrin â 251 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Gwnaethom ateb 87% o'r rhain o fewn 20 niwrnod gwaith, a hysbyswyd y sawl a ofynnodd am y wybodaeth pan oedd arnom angen mwy o amser i ymateb.

Gallai partïon a aeth i draul ddiangen yn uniongyrchol o ganlyniad i gamgymeriad a wnaed gan yr Arolygiaeth hawlio iawndal trwy ein cynllun ex gratia. Yn 2019/20, gwnaethom daliadau arian parod mewn perthynas â 14 hawliad, a ddaeth i gyfanswm o lai na £335,000.

Ar ddiwedd 2019, gwnaethom gynnal ein pumed arolwg blynyddol o enw da, gan dderbyn bron 300 o ymatebion.

Dywedodd dros 80% o'n cwsmeriaid wrthym ein bod yn cynnal ein gwerthoedd, sef bod yn ddiuedd, yn deg ac yn agored. Roedd mwyafrif mawr hefyd yn cytuno ein bod yn gwrando, a'n bod yn broffesiynol ac yn ddibynadwy. Er bod gwelliant bach ar arolwg y llynedd, mae ein cwsmeriaid yn llai hyderus yn ein cysondeb a mynegodd mwy na hanner yr ymatebwyr bryder ynglŷn â chyflymder ein penderfyniadau.

Sarah Richards
Prif Weithredwr yr Arolygiaeth Gynllunio
28 Awst 2020

8. <https://www.ombudsman.org.uk/publications/reports-about-government>

9. Llai nag 1% o gyfanswm y gwaith achos, am y ddegfed flwyddyn.

10. Yn dilyn her yn y llys apêl.

Adroddiad atebolrwydd

Cyflwyniad:

Mae'r adroddiad atebolrwydd yn cofnodi manylion am y cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol ac yn amlinellu'r cyd-destun ar gyfer y modd y cafodd yr Arolygiaeth ei rheoli a'i threfnu. Mae hefyd yn cyfrif am ddefnyddio adnoddau – staff ac arian fel ei gilydd.

Adroddiad llywodraethu corfforaethol

12. Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Ein Tîm Gweithredol

Goruchwylir yr Arolygiaeth gan Dîm Gweithredol sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a'i Gyfarwyddwyr. Gwnaethant gyfarfod bob pythefnos i ystyried, cynllunio ac adolygu cyfeiriad strategol y sefydliad, perfformiad ariannol ac anariannol a rheoli risgiau a materion, gan wneud penderfyniadau fel y bo'n briodol.

Fe'i cefnogir gan Fwrdd cynghori, a oruchwylir gan gadeirydd anweithredol annibynnol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol; y Prif Weithredwr, cyfarwyddwyr gweithredol a chynrychiolwyr o'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Mae gwahoddiad agored i gynrychiolydd o Lywodraeth Cymru fynychu cyfarfodydd y Bwrdd.



Sarah Richards

Prif Weithredwr

Mynychodd 7 o 8 cyfarfod y Bwrdd



Paul McGuinness

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro
O fis Mawrth 2020

Mynychodd 1 o 1 cyfarfod y Bwrdd



Navees Rahman

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
(Absenoldeb rhiant o fis Mawrth 2020)



Graham Stallwood

Cyfarwyddwr Gweithrediadau O fis Mehefin 2019

Mynychodd 7 o 8 cyfarfod y Bwrdd



Chris Thorby

Cyfarwyddwr Strategaeth

Mynychodd 4 o 6 cyfarfod y Bwrdd

Cyfarwyddwyr Gweithredol Blaenorol

Phil Hammond
Cyfarwyddwr Swm Gwaith Achos
tan fis Gorffennaf 2019

Ni fynychodd gyfarfodydd y Bwrdd

Tim Guy
Cyfarwyddwr Gweddnewid tan fis
Mawrth 2020
Mynychodd 4 o 5 cyfarfod y
Bwrdd

Ein Cyfarwyddwyr Anweithredol



Trudi Elliott
Cadeirydd Bwrdd yr Arolygiaeth Gynllunio

Mynychodd 8 o 8 Cyfarfod y Bwrdd



Sally Dixon
Cyfarwyddwr Anweithredol O fis Gorffennaf 2019

Mynychodd 5 o 5 Cyfarfod y Bwrdd



Dr Rebecca Driver
Cyfarwyddwr Anweithredol O fis Rhagfyr 2019

Mynychodd 2 o 2 Gyfarfod y Bwrdd



Stephen Tetlow
Cyfarwyddwr Anweithredol O fis Gorffennaf 2019

Mynychodd 3 o 5 Cyfarfod y Bwrdd

Cyfarwyddwyr Anweithredol Blaenorol

David Holt
Mynychodd 3 o 6
cyfarfod

Susan Johnson
Mynychodd 1 o 1
cyfarfod

Jayne Erskine
Mynychodd 1 o 1
cyfarfod

Cynrychiolwyr Allanol

Simon Gallagher
Cyfarwyddwr Cynllunio'r
Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a
Llywodraeth Leol

Mynychodd 6 o 8 cyfarfod y
Bwrdd

Neil Hemington
Prif Gynllunydd, Llywodraeth
Cymru

Mynychodd 3 o 8 cyfarfod y
Bwrdd

13. Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 7(2) Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo'r Arolygiaeth Gynllunio i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratwir y cyfrifon ar sail gronnus ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Arolygiaeth, ei hincwm a'i gwariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r llifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i mi, fel y Swyddog Cyfrifyddu, gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac yn benodol:

- ufuddhau i'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw; a
- chadarnhau bod yr Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a chymryd cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon a'r barnau sydd eu hangen i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Penododd y Swyddog Cyfrifyddu Adranol yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol y Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu'r Arolygiaeth Gynllunio. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleiddra cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu asedau'r Arolygiaeth, wedi eu nodi yn Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylsw'n fod wedi'u cymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod archwilwyr yr Arolygiaeth yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.



Sarah Richards
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
28 Awst 2020

14. Y datganiad llywodraethu

Cyflwyniad

Mae'r datganiad llywodraethu hwn yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2019 hyd 31 Mawrth 2020. Mae'n cynnwys unrhyw faterion ar ôl diwedd y flwyddyn sy'n berthnasol.

Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol hefyd yn cyhoeddi datganiad llywodraethu sy'n cwmpasu'r Adran ganolog ac yn cyfeirio at ei chyrff hyd braich (yr ydym ni'n un ohonynt), gan gydnabod eu bod yn cynnal eu strwythurau a'u prosesau llywodraethu eu hunain, yn briodol i'w busnes a'u graddfa. Felly, nid yw'r wybodaeth a gynhwysir yn y Datganiad hwn wedi'i dyblygu.

Cwmpas cyfrifoldeb

Fi yw Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r Arolygiaeth. Fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau bod ein system llywodraethu yn y sefydliad yn cefnogi cyflawni ein polisiau, nodau ac amcanion, wrth sicrhau atebolrwydd, gwerth am arian, priodoldeb a rheoleidd-dra cyllid, a diogelu asedau ac arian cyhoeddus, fel yr amlinellir yn Rheoli Arian Cyhoeddus¹¹.

Fe'm penodwyd yn Swyddog Cyfrifyddu gan Ysgrifennydd Parhaol a Swyddog Cyfrifyddu'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ym mis Mawrth 2016, a cheir crynodeb o'm cyfrifoldebau yn fy llythyr penodi. Roedd y llythyr hwnnw yn pennu fy nghyfrifoldeb i'r Gweinidog dros y modd y mae'r sefydliad yn defnyddio adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau, a'm hatebolrwydd i gael fy ngwysio gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i roi tystiolaeth ar y modd yr wyf wedi ymdrin â'm cyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu. Rwyf yn gyfrifol yn bersonol am reolaeth effeithiol y sefydliad yn unol â Dogfen Fframwaith yr Asiantaeth¹² ac yn unol â rheolau arferol y Gwasanaeth Sifil ar briodoldeb a sicrhau gwerth am arian. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn ystyried dirprwyo rheolaeth dros gyfrif pennau a rheoli'r gyllideb i Lywodraeth Cymru.

Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y Datganiad hwn, nid wyf wedi ceisio unrhyw gyfarwyddyd ysgrifenedig i barhau â galwad gan Weinidog i ysgwyddo cyfrifoldeb am nod, blaenoriaeth neu gam gweithredu yr oeddwn o'r farn ei fod/bod yn groes i egwyddorion Rheoli Arian Cyhoeddus.

11. <https://www.gov.uk/government/publications/managing-public-money>

12. <https://www.gov.uk/government/publications/the-planning-inspectorate-framework-document>

Effaith COVID-19 ar lywodraethu

Rwy'n fodlon bod gennyf y lefel angenrheidiol o sicrwydd ar gyfer cyfnod y Datganiad hwn, ar sail trafodaethau yn ystod y flwyddyn, a gwybodaeth a gafwyd gan:

- Gadeirydd Anweithredol Bwrdd yr Arolygiaeth Gynllunio;
- y Cyfarwyddwyr Anweithredol eraill ar y Bwrdd, yn enwedig Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg;
- archwilwyr mewnol ac allanol; a'r
- Cyfarwyddwyr Gweithredol

Mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio ar bob agwedd ar fywydau pobl a gweithrediadau busnesau a sefydliadau. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi parhau i weithio trwy'r goblygiadau i'n gwaith achos a'n gweithlu wrth ymateb i'r pandemig sy'n datblygu.

Cychwynnwyd prosiect cyn y cyfyngiadau symud i ymateb i'r pandemig, gan osod pedair blaenoriaeth ar gyfer ein hymateb:

- Lles – Parhau i sicrhau bod staff yn ddiogel ac yn iach.
- Gwaith achos – Parhau i fwrw ymlaen â gwaith achos a phenderfynu arno (ar yr amod bod hyn yn parhau i fod yn ymarferol ac yn ddiogel).
- Ymgysylltu – Parhau i roi gwybodaeth i staff, cwsmeriaid a rhanddeiliaid allweddol eraill, ac ymgysylltu â nhw.
- Cynorthwyo'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol – Darparu cymorth i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Roedd ymateb tîm y prosiect mewn tri cham:

- ymateb i'r argyfwng;
- ailgychwyn gweithrediadau ac adfer; ac
- adolygu'r hyn a ddysgwyd a chynnwys hynny mewn cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Arweiniodd y sefyllfa ddigynsail hon at nifer o newidiadau i'r strwythur llywodraethu i sicrhau bod y sefydliad yn gallu addasu'n gyflym i'r sefyllfa a oedd yn newid a chynghor y Llywodraeth. Roedd y sefydliad yn gallu addasu'n gyflym gan fod Arolygwyr eisoes yn gweithio gartref ac oherwydd bod technoleg ar gael i staff swyddfa sydd fel arfer yn gweithio ym Mryste a Chaerdydd i ganiatáu iddynt drosglwyddo i weithio gartref dros nos. Atgoffwyd staff o ddiogelwch data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Fel sefydliad, cytunwyd diwygio'r strwythur llywodraethu yn y tymor byr. Golygodd hyn fod y Tîm Gweithredol yn cyfarfod bob dydd i sicrhau goruchwyliaeth strategol, ac aethpwyd i'r afael â datblygiadau yn gyflym. Sefydlwyd tîm prosiect dan arweiniad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a oedd yn cynnwys staff o bob Cyfarwyddiaeth. Cyfarfu'r tîm hwn bob dydd i adolygu effaith y pandemig ar ein risgiau a'n gweithdrefnau yr oedd angen gwneud newidiadau dros dro/parhaol iddynt (e.e. gweithio gartref, absenoldeb arbennig gyda thâl, ymweliadau safle ac ati).

Crëwyd dangosfwrdd penodol ar gyfer COVID-19 a oedd yn olrhain perfformiad, argaeledd ac absenoldebau. Fe'i defnyddiwyd i wneud penderfyniadau gan dîm y prosiect a'r Tîm Gweithredol. Gwerthuswyd adolygiadau o gontractwyr a mynediad at daliadau hefyd i sicrhau cydnerthedd y gwasanaeth. Neilltuwyd dyraniad cyllideb argyfwng i alluogi'r sefydliad i ymateb yn gyflym i anghenion – fel cyfarpar diogelu personol ar gyfer Arolygwyr sy'n dychwelyd i gynnal ymweliadau safle, datrysiadau technoleg gwybodaeth, ac anfon offer iechyd a diogelwch at staff sy'n gweithio gartref.

Mae'r pandemig wedi arwain at gyflymu'r amserlen i gynnal digwyddiadau digidol. Mae'r gwaith hwn bellach yn symud ymlaen yn gyflym ac wedi cael ei fabwysiadu i'w gyflawni yn rhan o'r gyllideb Portffolio Newid. Mae nifer o Arolygwyr wedi cynorthwyo'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ac ymateb ehangach y Llywodraeth wrth iddi symud tuag at gyfnod ymateb busnes fel arfer/ adfer. Mae'r adolygiad o wersi a ddysgwyd ac effaith ar gynlluniau yn y dyfodol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Fframwaith llywodraethu

Mae ein Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y strwythurau, systemau, prosesau, diwylliant a gwerthoedd a ddefnyddir gyda'i gilydd i gyfarwyddo a rheoli'r sefydliad a'i weithgareddau. Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan barhaus ac annatod o'r fframwaith, a defnyddir gwybodaeth reoli reolaidd i gefnogi'r broses benderfynu. Mae system a phrosesau rheoli risg ffurfiol ar waith i reoli risg ar lefel yr ystyrir ei bod yn dderbyniol.

Mae'r fframwaith Llywodraethu yn cynnwys:

- Bwrdd yr Arolygiaeth Gynllunio;
- y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg;
- y Paneli Sicrwydd Strategol (newydd o fis Chwefror 2020);

- y Tîm Gweithredol, grwpiau ag awdurdod wedi'i ddirprwyo o'r Tîm Gweithredol a'r Grŵp Uwch Arweinyddiaeth;
- byrddau portffolio, rhaglenni a phrosiectau;
- cynllunio busnes ac adrodd ar berfformiad;
- rheolaethau cyfreithiol, gan gynnwys dirprwyaethau gan adrannau sy'n gwneud penderfyniadau ar waith achos Seilwaith Cenedlaethol i sicrhau ein bod wedi gweithredu oddi mewn i'r cwmpas a ddarperir gan ddeddfwriaeth; a
- rheolaeth ariannol a gweithdrefnau gweinyddol, gan gynnwys goruchwyllo rheolwyr, dirprwyaethau ac atebolrwydd ariannol a chontractiol a gofnodir yn ffurfiol, gwahanu dyletswyddau, rheolaethau caffael a gwario, rheolaethau asedau sefydlog, rheolaethau recriwtio a rheolaethau yn ymwneud â chontractau ar gyfer gwasanaethau.

Gan fyfyrir ar ganfyddiadau adolygiad effeithiolrwydd o'r Bwrdd a Phwyllgorau (a adroddwyd i'r Bwrdd ym mis Ionawr 2019), a manteisio ar y cyfle yn sgil contractau Anweithredol newydd a'r Tîm Gweithredol newydd ei sefydlu, gwnaethom ystyried rhai newidiadau i'r fframwaith llywodraethu.


Cytunodd y Tîm Gweithredol a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol y dylai'r Pwyllgor Pobl a'r Pwyllgor Cwsmeriaid, Ansawdd a Safonau Proffesiynol (yr oeddent yn rhan o'r fframwaith llywodraethu gynt ac ar waith tan fis Ionawr 2020 a mis Mai 2019, yn ôl eu trefn) gael eu disodli gan Baneli Sicrwydd Strategol. Diben y paneli yw canolbwyntio ar gyflawni ein blaenoriaethau strategol (gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol, effeithlon ac effeithiol, mwy o ymgysylltu â staff, ac ymagweddau a gwasanaethau arloesol). Mae pob Cyfarwyddiaeth wedi cael ei pharu â Chyfarwyddwr Anweithredol i arwain wrth roi sicrwydd o ran blaenoriaeth. Gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar y paneli.

Mae sefydlu'r paneli yn galluogi'r Cyfarwyddwyr i arwain, gyda gwybodaeth a her gan y cyfarwyddwyr anweithredol, wrth roi sicrwydd o ran cyflawni strategol, gan gynyddu atebolrwydd. Roedd hefyd wedi creu'r cyfle i amlygu a thrin risgiau rhag cyflawni trwy greu cyfleoedd i'r cyfarwyddwyr gweithredol ganolbwyntio mwy ar ddadansoddi, gan gynyddu craffu ar effaith strategol.


Mae'r newidiadau'n cydymffurfio â'r cytundeb fframwaith rhyngom ni, y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth

Leol a Llywodraeth Cymru, a daethant i rym yn gynnar yn 2020. Cynhaliwyd cyfarfod olaf y Pwyllgor Pobl ym mis Ionawr 2020, a chynhaliwyd cyfarfod cyntaf y panel sicrwydd strategol ym mis Chwefror 2020.

Arhosodd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn eu lle, a gwnaed newid i Gylch Gorchwyl y Bwrdd fel bod Cyfarwyddwyr Gweithredol yn aelodau llawn o'r cyfarfodydd yn hytrach na mynychu ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda. Cyflwynwyd y dogfennau Cylch Gorchwyl i'r Bwrdd i'w cymeradwyo'n ffurfiol ym mis Gorffennaf 2020. Gofynnwyd am ddiwygiadau a chytunwyd ar y cylch gorchwyl yn rhithwir, y tu allan i gyfarfod ffurfiol y Bwrdd ym mis Awst 2020.



Ffigur 14.1 – Y strwythur llywodraethu hanesyddol a oedd ar waith ar 1 Ebrill 2019



Ffigur 14.2 – Y strwythur llywodraethu presennol ar 31 Mawrth 2020

Y Bwrdd

Fe'm cefnogir gan Fwrdd ymgynghorol a benodwyd yn unol â'n Ddogfen Fframwaith Asiantaeth a'r rheolau ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus. Mae manylion presenoldeb y Bwrdd ar gael yn Adran 12 yr Adroddiad Blynyddol hwn yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Roedd y Bwrdd yn cynnwys:

- Cadeirydd Anweithredol yr Arolygiaeth;
- tri Chyfarwyddwr Anweithredol;
- fi fel y Prif Weithredwr, gyda chefnogaeth gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol; a
- chynrychiolydd o'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Roedd gwahoddiad agored i gynrychiolydd o Lywodraeth Cymru fynychu cyfarfodydd y Bwrdd.

Rhoddwyd tri chontract newydd i Gyfarwyddwyr Anweithredol yn ystod y flwyddyn ariannol i ddisodli Cyfarwyddwyr Anweithredol a adawodd eu swyddi:

Enw	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen
Jayne Erskine	Dd/B	31 Mai 2019
Susan Johnson	Dd/B	31 Mai 2019
David Holt	Dd/B	30 Rhagfyr 2019
Sally Dixon	22 Gorffennaf 2019	Dd/B
Stephen Tetlow	22 Gorffennaf 2019	Dd/B
Rebecca Driver	31 Rhagfyr 2019	Dd/B

Rôl yr aelodau anweithredol yw defnyddio eu gwybodaeth a'u cefndir mewn materion fel cynllunio busnes, polisi, strategaeth, perfformiad, profiad cwsmeriaid, adnoddau, risg a llywodraethu, a chyfrannu at graffu cyfunol y Bwrdd ar gynlluniau a gweithrediadau'r weithrediaeth. Datblygodd ein haelodau anweithredol eu dealltwriaeth o'r sefydliad trwy gyfarfodydd gydag unigolion a thimau, yn ogystal â mynychu digwyddiadau i randdeiliaid a sesiynau hyfforddi i Arolygwyr.

Cyfarfu'r Bwrdd bob yn ddeufis, a chynhaliwyd cyfarfodydd ychwanegol byr fel y bo'n briodol: er enghraifft, ym mis Mehefin 2019 i gadarnhau'r Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon ac ym mis Chwefror 2020 i gadarnhau Cynllun Busnes 2020-21.

Yn ystod y cyfnod, gwnaeth y Bwrdd:

- adolygu a chadarnhau'r Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon;
- adolygu a chadarnhau'r Cynllun Strategol ar gyfer 2019-24 a'r Cynllun Busnes ar gyfer 2020-21;
- adolygu dangosfyrddau rheolaidd o wybodaeth reoli (ariannol ac anariannol) i amlygu materion a risgiau, ac i sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n briodol;
- adolygu a gwneud sylwadau ar ddatblygu strategaeth gwsmeriaid a mesurau perfformiad sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid;
- goruchwyllo'r rhaglenni newid allweddol, cynnig cyngor a her ynglŷn â'r amserlenni cyflawni, derbyn ac adolygu diweddariadau ar gynnydd o ran gweddwid datblygu sefydliadol, dylunio sefydliadol a'r rhaglen adfer perfformiad;

- ystyried risgiau strategol, gan adolygu'r asesiad (y parodrwydd i dderbyn risg a briodolwyd i gategoreiddiadau a risgiau unigol) a'r mesurau lliniaru arfaethedig;
- ystyried parodrwydd y sefydliad i ymdopi ag effaith Brexit ar weithrediadau;
- adolygu cynigion ar gyfer newidiadau i drefniadau llywodraethu; a
- goruchwyllo ymateb yr Arolygiaeth i'r pandemig COVID-19.

Enghreifftiau o sut oedd aelodau'r Bwrdd wedi cynnig gwybodaeth a her:

- Roedd y data dangosfwrdd a adolygwyd gan y Bwrdd yn adlewyrchu'r data a ddefnyddiwyd gan y Tîm Gweithredol i reoli'r busnes. Mae'r sefydliad wedi bod yn datblygu technoleg gwybodaeth reoli newydd (MiPINS), sy'n cynnig dull mwy soffistigedig trwy ddarparu gallu dadansoddi busnes. Mae'r cam datblygu cychwynnol wedi canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth o berfformiad gweithredol, a gofynnwyd i'r Bwrdd roi ei farn am y data a gyflwynwyd a beth arall a allai fod yn ddefnyddiol i'w gynnwys yn y system.
- Cynhaliwyd archwiliad sicrwydd manwl o'n rhaglen Gweddnewid Cyflawni Sefydliadol gan un o Gyfarwyddwyr Anweithredol yr Arolygiaeth ym mis Tachwedd 2019.

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn un o is-bwyllgorau'r Bwrdd, gan ei gefnogi mewn materion yn ymwneud â risg, rheolaeth a llywodraethu. Cyfarfu'r Pwyllgor bob tri mis a chadwodd ddibynadwyedd a chywirdeb y sicrwydd a roddwyd gan y Tîm Gweithredol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu dan arolwg.

Cyfyngir aelodaeth ffurfiol y Pwyllgor i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol, wedi'u cefnogi gan Bennaeth Gwasanaeth fel arweinydd proffesiynol y Pwyllgor, ac roedd cyfranogwyr eraill yn bresennol trwy wahoddiad. David Holt oedd cadeirydd y Pwyllgor drwy gydol 2019.

Ymgwymerodd Rebecca Driver â'r cyfrifoldeb am y Pwyllgor o 31 Rhagfyr 2019 ymlaen, gan fynychu ym mis Medi ac ym mis Rhagfyr 2019 fel arsylwr a'i gadeirio ym mis Mawrth 2020.

Yn ystod y cyfnod, gwnaeth y Pwyllgor:

- adolygu'r Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon terfynol ar gyfer 2018/19, cyn argymhell ei lofnodi gan y Bwrdd;
- rhoi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu (Prif Weithredwr)

Y Pwyllgor Cwsmeriaid, Ansawdd a Safonau Proffesiynol a'r Pwyllgor Pobl

ar faterion yn ymwneud â phriodoldeb, ar sail adolygiadau o'r risgiau strategol ac adroddiadau archwilio;

- rhoi trosolwg a chynghor ar gyfrifoldebau'r Bwrdd ar gyfer rheoli risg, gan gynnwys adolygu'r gofrestr risg strategol (gyda phwyslais penodol ar risg prosiect Heathrow) ac aeddfedrwydd rheoli risg yn y sefydliad;
- adolygu dangosfwrdd sicrwydd, sy'n canolbwyntio ar gydymffurfio â'r fframwaith llywodraethu sydd ar waith rhwng y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth;
- adolygu adroddiadau archwilio mewnol;
- derbyn diweddariadau ar adolygiadau o weithdrefnau twyll, llwgrwobrwyd a chwythu'r chwiban;
- adolygu a chynnig gwybodaeth a her ynglŷn â chanfyddiadau yn ymwneud â chydymffurfiaeth data;
- monitro cynnydd yn erbyn y cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2018/19 a chymeradwyo'r rhaglen ddrafft ar gyfer 2019/20; a
- derbyn, adolygu a chlirio adroddiad 'eitemau sefydlog' ym mhob cyfarfod.

Roedd y Pwyllgor Cwsmeriaid, Ansawdd a Safonau Proffesiynol yn un o is-bwyllgorau'r Bwrdd, gan ei gefnogi mewn materion yn ymwneud â gwasanaeth cwsmeriaid, ansawdd a chynnal safonau proffesiynol.

Roedd y Pwyllgor Pobl yn is-bwyllgor o'r Bwrdd hefyd, gan ei gefnogi mewn materion yn ymwneud ag agweddau pobl allweddol ar effeithiolrwydd cyfundrefnol.

Roedd y Pwyllgorau, a gadeiriwyd gan aelodau anweithredol, yn rhoi cyfleoedd iddynt herio a gwneud sylwadau ac argymhellion, gan weithredu ar ffurf cyfarfod.

Cyfyngwyd aelodaeth ffurfiol y Pwyllgor i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol, wedi'u cefnogi gan Bennaeth Gwasanaeth fel arweinydd proffesiynol y Pwyllgor, ac roedd cyfranogwyr eraill yn bresennol trwy wahoddiad.

Yn hanesyddol, roedd y Pwyllgorau wedi ymgynnull bob tri mis.

Yn ystod y cyfnod, gwnaeth y Pwyllgorau:

- adolygu perfformiad gweithredol cyffredinol, gan ganolbwyntio ar yr elfennau hynny sydd o'r pwys mwyaf i gwsmeriaid (gan gynnwys amseroldeb a chysondeb), gan ddarparu mewnwelediad a her i Gyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaethau;

- derbyn diweddariadau gan y Grŵp Llywio Proffesiynol;
- darparu cyngor a her ynglŷn â'r strategaethau sefydliadol (er enghraifft y Strategaeth Bobl);
- adolygu cynnydd y rhaglen Dylunio Sefydliadol, gan gynnwys cynllun ar gyfer Cam 2 y rhaglen;
- adolygu'r cynlluniau ar gyfer y digwyddiad OnePins;
- adolygu canlyniadau'r Arolwg Pobl; ac
- adolygu cylch gorchwyl tâl yr Arolygiaeth, gan gynnwys y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Paneli Sicrwydd Strategol

Mae'r newid i Baneli Sicrwydd Strategol wedi cynnig sicrwydd sy'n canolbwyntio ar gyflawni yn erbyn blaenoriaethau strategol. Bwriedir i'r Paneli, sydd wedi'u cwmpasu ar gyfer gweithdai thematig, gynnig dadansoddiad dyfnach i'r Tîm Gweithredol a Chyfarwyddwyr Anweithredol at ddibenion sicrwydd.

Mae'r tabl isod yn nodi'r paneli a gynhaliwyd yn ystod 2019/20 a hyd at adeg llofnodi'r cyfrifon.

Blaenoriaeth	Dyddiad cynnal	Mewnwelediad
Pob un (lansio'r dull panel)	20 Chwefror 2020	• Her cynllun busnes 2020/21 – cynnyrch a phroses.
Rhagoriaeth Cwsmeriaid	20 Chwefror 2020	• Cam 2 y rhaglen Dylunio Sefydliadol ar gyfer un tîm cwsmeriaid, strategaeth gwsmeriaid • bwriad i feincnodi'r ddarpariaeth gwasanaeth cwsmeriaid ag aelodaeth â'r Sefydliad Gwasanaeth Cwsmeriaid; a • chynnydd ar ddatblygu mesurau cynhyrchedd sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid.
Arloesedd	23 Ebrill 2020	• Dull y sefydliad o arloesi a gwella'n barhaus; • cynllunio ar gyfer treialon; ac • ystyried y berthynas â diwylliant sefydliadol er mwyn arloesi a newid.
Rhagoriaeth Cwsmeriaid	21 Mai 2020	• Ymateb i'r pandemig COVID-19 gan barhau i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol.
Rhagoriaeth Cwsmeriaid ac Arloesedd	23 Gorffennaf 2020	• Gwneud gwaith dilynol ar sesiynau blaenorol i ddiweddarau ar gynnydd.

Adolygu effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau

Cynhaliwyd adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau tua diwedd 2018, gan arwain at y newidiadau a ddisgrifiwyd uchod. Mae adolygiad dilynol wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi 2020.

Y Tîm Gweithredol

Rôl y Tîm Gweithredol yw pennu cyfeiriad a sicrhau bod amcanion strategol y sefydliad yn cael eu cyflawni o fewn y cyd-destun a bennwyd gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru, fel cyd-noddwyr. Mae'r Tîm Gweithredol yn goruchwyllo rheolaeth weithredol y sefydliad o ddydd i ddydd ac yn gwneud penderfyniadau cysylltiedig. Mae'n darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol cyfunol ar gyfer y sefydliad ar yr un pryd â chefnogi rôl y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae'n gweithredu yn unol â Dogfen Fframwaith yr Asiantaeth, gan gynnal Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus a amlinellir yng Nghod y Gwasanaeth Sifil a darparu delfryd ymddwyn¹³ ar gyfer Datganiad Arweinyddiaeth y Gwasanaeth Sifil¹⁴.

Cyfarfu'r tîm bob pythefnos i ystyried, cynllunio ac adolygu cyfeiriad strategol y sefydliad, perfformiad ariannol ac anariannol a rheoli risgiau a materion, gan wneud penderfyniadau fel y bo'n briodol.

Y portffolio newid a'r rhaglen gweddnewid

Sefydlodd yr Arolygiaeth Portffolio Newid ar gyfer ei gweithgareddau newid arwyddocaol yn 2019/20. Ehangodd hyn y pwyslais ar lywodraethu cyflawni newid i bob newid yn y sefydliad yn hytrach na'r Rhaglen Gweddnewid yn unig. Mae'r Portffolio Newid yn cynnwys y gweithgareddau hynny sy'n allweddol i gyflawni ein hamcanion strategol ac sy'n gofyn am lywodraethu ychwanegol, fel arfer o ganlyniad i'w cost, eu heffaith a'u risg sylweddol.

Diffiniwyd a chyfarwyddwyd y Portffolio Newid ar gyfer y flwyddyn 2019/20 gan Fwrdd Portffolio Newid a oedd yn cynnwys Tîm Gweithredol yr Arolygiaeth a Chyfarwyddwr Cynllunio'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol fel Uwch Noddwr. Darparodd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol gyllid ar gyfer agweddau ar y rhaglen ar ôl cymeradwyo achosion busnes perthnasol. Yn ystod y flwyddyn, ymgwymerwyd â'r prosiectau allweddol canlynol:

- Dylunio Sefydliadol: Gan ddilyn ymlaen o Gam Un yn 2018/19, ehangodd Cam Dau y diffiniad o'r strwythur newydd ar gyfer y sefydliad, a'r dull o'i gyflawni, i fod ar waith ar draws pob maes a phob rôl ar ddechrau mis Ebrill 2020;
- Gweddnewid Cyflawni Gweithredol: Gwaith parhaus, o'r camau Dylunio i gam Beta gyda detholiad o

13. <https://www.gov.uk/government/publications/civil-service-code/the-civil-service-code>

14. <https://www.gov.uk/government/publications/civil-service-leadership-statement/civil-service-leadership-statement>

Awdurdodau Cynllunio Lleol, gan ddarparu profiad symlach, prosesau newydd a thechnoleg fodern;

- Rhaglen Adfer Perfformiad: Yn barhaus o 2018/19, buddsoddiad arwyddocaol i ddarparu adnoddau llawn ar gyfer cyflawni gwaith achos yn weithredol trwy recriwtio a hyfforddi Arolygwyr a thimau Gwaith Achos, a chyflwyno gwell gwybodaeth reoli a monitro;
- yn rhan o'r Rhaglen Gweddnewid, cwblhawyd a chaewyd y ffrwd waith Digidol a'r ffrwd waith Pobl; a
- chychwynnwyd prosiectau i wahanu Arolygiaeth Gynllunio Cymru, gwelliannau a chydymffurfiaeth o ran llywodraethu data ac amnewid y system gorfforaethol.

Effeithiodd y gwaith Dylunio Sefydliadol ar bawb yn y sefydliad, a gwnaed ymdrech sylweddol i sicrhau bod effaith newid ar unigolion yn cael ei chydbwyso'n ofalus. Arweiniodd hyn at arafu a gohirio rhywfaint o waith arall a oedd wedi'i gynllunio, i sicrhau y gellid cyflawni'r canlyniadau a ddymunwyd.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2020, roedd y Portffolio Newid cymeradwy yn cynnwys y rhaglenni a'r prosiectau canlynol:

- Rhaglen Adfer Perfformiad;
- Gwahanu Arolygiaeth Gynllunio Cymru;
- Llywodraethu Data;
- Systemau Corfforaethol; a
- Rhaglen Gweddnewid:
- Dylunio Sefydliadol (a fyddai'n Ddatblygu Sefydliadol o 1 Ebrill 2020 ymlaen);
- Gweddnewid Cyflawni Gweithredol; a
- Chwsmeriaid.

Cafodd y Rhaglen Gweddnewid sgôr felen gan archwiliad mewnol yn 2018/19, ac ni chodwyd unrhyw faterion. Gohiriwyd archwiliad mewnol dilynol yn 2019/20 am flwyddyn, tra bod strwythur newydd y sefydliad yn cael ei roi ar waith, a diffiniwyd unrhyw newidiadau a gwelliannau canlyniadol i'r prosesau a oedd eisoes wedi'u harchwilio. Fodd bynnag, cynhaliwyd amrywiaeth o waith sicrwydd drwy gydol y flwyddyn ariannol. Roedd y rheiny'n cynnwys adolygiadau mewnol gan y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Gweddnewid, y Swyddfa Rheoli Rhaglenni a phartïon allanol, gan gynnwys cyfeillion beirniadol, ar lefel rhaglen a phrosiect. Cynhaliwyd archwiliad manwl o'r rhaglen Gweddnewid Cyflawni Sefydliadol gan Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Tachwedd 2019.

Yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol, dechreuodd pryderon godi ynglŷn â datrysiad technegol Gweddnewid

Cyflawni Sefydliadol. Roedd y rhain yn gysylltiedig â chyflawni gofynion system ychwanegol a amlygwyd a'r gallu i ailddefnyddio cydrannau a fanylwyd yn y ddogfen gaffael wreiddiol. Gweithredwyd saib gytundebol ffurfiol.

Cynhaliodd y Gwasanaethau Digidol adolygiad mewnol a chanfuont nifer o bryderon a fyddai'n effeithio ac yn cyfyngu ar gydnerthedd y system yn y dyfodol, amserlenni cyflawni, costau cyflenwyr a'r gallu i barhau i gynnal y datrysiad. Am y rhesymau hyn, terfynwyd y datrysiad technegol a chofnodwyd colled adeiladol.

Mae adolygiad o lywodraethu'r prosiect wedi cael ei gynnal a rhoddwyd sawl argymhelliad ar waith ynglŷn â goruchwyliaeth ddigidol, fasnachol ac ariannol i liniaru'r risg y gallai'r prosiect hwn fethu â chyflawni'r canlyniadau sy'n ofynnol. Mae rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir o fewn y Bwrdd Gweddnewid Cyflawni Sefydliadol ac adolygir y risgiau'n fisol.

Disgwylwyd i'r Rhaglen Gweddnewid gael ei chwblhau ar ddiwedd mis Mawrth 2020. Mae'r elfennau Gweddnewid Cyflawni Gweithredol a Chwsmeriaid yn parhau. Mae cwnpas y ddwy elfen hyn wedi newid ers iddynt gael eu diffinio'n wreiddiol, ac mae'r ddwy bellach yn cael eu rheoli'n unigol yn y Portffolio Newid. Bydd y Rhaglen Gweddnewid yn cael ei chau yn ffurfiol yn 2020/21.

Trefniadau noddi: Lloegr

Uwch Noddwr y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, sef y Cyfarwyddwr Cynllunio, oedd yr uwch gyswllt arweiniol o fewn yr Adran, yn arwain ymgysylltiad â'r Arolygiaeth ar faterion polisi, strategaeth a pherfformiad. Arweiniodd y Swyddfa Portffolio Canolog ar oruchwyllo llywodraethu corfforaethol, rheolaeth ariannol a gweithgareddau sicrwydd. Fe wnaeth y tîm reoli'r broses ar gyfer cyfarfodydd y Swyddog Cyfrifyddu rhwng Prif Weithredwr yr Arolygiaeth Gynllunio ac Ysgrifennydd Parhaol y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn i adolygu a herio perfformiad a chydymffurfiad yr Arolygiaeth â'r Ddogfen Fframwaith Asiantaeth, a rhoi cyfle i godi risgiau a materion â'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. O ystyried ffocws y Llywodraeth ar gynllunio, a thai yn arbennig, roedd deialog ddwyffordd rhwng swyddogion polisi'r Weinyddiaeth a thîm yr Arolygiaeth yn parhau'n allweddol.

Trefniadau noddi: Cymru

Mae trefniadau ar wahân yn berthnasol yng Nghymru, a rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r tîm noddi trwy gyfarfodydd ffurfiol â Phennaeth Arolygiaeth Cynllunio Cymru, a chyswllt mwy mynych, llai ffurfiol, yn ôl yr angen.

Rhaglen archwilio mewnol

Archwiliodd Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth nifer o agweddau penodol ar reolaethau a phrosesau ar draws ein busnes. Rhoddir manylion yn y tabl isod.

Rhaglen Archwilio Mewnol	Dyddiad yr adroddiad	Lefel sicrwydd	Camau gweithredu		
			H	M	L
Datganiad Llywodraethu a Fframwaith Rheoli Risg	Mai 2019	Sylweddol	-	-	-
Caffael	Medi 2019	Cymedrol	-	3	-
Rheolaethau Ariannol Allweddol	Chwefror 2020	Cymedrol	-	2	-
Rheolaethau Adnoddau Dynol Allweddol	Mai 2020	Cyfyngedig	-	4	-
Rhaglen Gweddnewid	Gohiriwyd tan 2020/21		-	-	-
Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data	Mai 2020	Cyfyngedig	2	7	1
Iechyd a Diogelwch	Mai 2020	Cyfyngedig	-	4	-

Arweiniodd pob archwiliad â chamau gweithredu dynodedig at Gynllun Gweithredu cytûn a luniwyd i fynd i'r afael â gwendidau a chynyddu lefel y sicrwydd. Dyrannwyd Cyfarwyddwr a Phennaeth Gwasanaeth noddi i bob archwiliad, a gydlynodd weithgarwch gyda'r Archwilydd, a rheoli'r Cynllun Gweithredu cytûn. Amlygwyd dau gam gweithredu â blaenoriaeth uchel yn 2019/20 yn ymwneud â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Ymdrinnir â'r rhain yn rhan o'r rhaglen GDPR a reolir gan y Pennaeth Gwasanaeth Data a Pherfformiad. Casglwyd cynnydd ar Gynlluniau Gweithredu gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth ac fe'i hadolygir yn rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Cyfrannodd canlyniadau'r archwiliadau unigol, a'r gwaith a gyflawnwyd ar y Cynlluniau Gweithredu cysylltiedig, at ystyriaeth Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol y trefniadau ar gyfer rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu, gan ei galluogi i roi barn annibynnol ar ddiwedd y flwyddyn. Rhoddwyd y farn hon i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Mehefin 2020, a rhoddwyd y farn gyffredinol 'Cymedrol'. Rhoddodd Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth sicrwydd i ni nad oedd y farn yn achos pryder.

Rydym yn gweithio ar ddatblygu ymagwedd seiliedig ar risg at benderfynu ar y cynllun archwilio ar gyfer 2020-21, ac felly byddem yn disgwyl mwy o adroddiadau, mwy o gamau gweithredu rheoli a lefelau sicrwydd is. Diben hyn yw canolbwyntio ar wella polisïau/prosesau a chydymffurfiaeth yn y tymor hir a gwella rheolaethau busnes cyffredinol.

Y broses rheoli risg

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y Fframwaith Rheoli Risg, sy'n darparu'r modd i amlygu a lliniaru effaith materion a digwyddiadau ansicr a allai effeithio ar gyflawni nodau, amcanion a pherfformiad y sefydliad. Mae ein Fframwaith Rheoli Risg wedi cael ei ddiweddarau ac fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Mehefin 2020. Mae'r Fframwaith a'r Gofrestr Risgiau Strategol ar ein safle mewnwyd. Nodwyd perchennog ar gyfer pob risg ar y Gofrestr, ac ar gofrestrau eraill a ddefnyddir ar draws y sefydliad, gan gynnwys y Rhaglen Gweddnewid a phrosiectau cysylltiedig. Mae'r Tîm Llywodraethu Gweithredol yn adolygu ac yn herio'r cofrestrau'n rheolaidd, ac mae adolygiad o risgiau strategol yn cael ei ystyried bob mis yng nghyfarfodydd y Tîm Gweithredol. Mae ein Risgiau Strategol ar gyfer 2019/20 i'w gweld yn Adran 3 yr Adroddiad Blynyddol hwn ar Risgiau Strategol.

Twyll, llwgrwobrwyd a chwythu'r chwiban

Mae ein polisïau mewn perthynas â thwyll, llwgrwobrwyd a chwythu'r chwiban ar gael i'r holl staff drwy ein mewnwyd. Parhaom i ddefnyddio'r gwasanaeth 'See, Hear, Speak Up' annibynnol i ategu ein proses chwythu'r chwiban. Mae gennym ein gweithdrefn ein hunain sydd wedi ei halinio â pholisi'r Gwasanaeth Sifil cyfan. Gadawodd ein Swyddog Enwebedig, a oedd wedi cael hyfforddiant ffurfiol, y sefydliad ym mis Gorffennaf 2019. Mae'r aelod o staff a ddaeth yn ei le wedi cael ei benodi'n Swyddog Enwebedig ac mae wedi cael hyfforddiant sefydlu ffurfiol a oedd yn cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth. Mae wedi ymgyswrtu â'i gyfrifoldebau a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth 'See, Hear, Speak up' ac mae wedi cofrestru'r angen i hyfforddi ymhellach. Gall alw ar rwydwaith o Swyddogion Enwebedig eraill o fewn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ac ar draws y gwasanaeth sifil, pe bai angen.

Ni fu unrhyw achosion o chwythu'r chwiban yn ystod y cyfnod adrodd. Yn yr hydref, cymerwyd camau i gynyddu ymwybyddiaeth o'n polisïau yn fewnol trwy ryddhau erthyglau ar y fewnwyd yn ystod mis Hydref a mis

Tachwedd 2019 ar chwythu'r chwiban a thwyll.

I gydymffurfio â Safonau Swyddogaethol Swyddfa'r Cabinet ar Dwyll, cynhaliwyd Asesiad Aeddfedrwydd Twyll ym mis Hydref. Defnyddiwyd y canlyniadau i lywio strategaeth a chynllun gweithredu Gwrth-dwyll a adolygwyd yn ffurfiol gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Cynhaliwyd asesiadau risg twyll rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ionawr 2020 ar draws meysydd allweddol o'r sefydliad gan y Rheolwr Risg, sydd hefyd yn Hyrwyddwr Gwrth-dwyll. Anfonwyd cyflwyniad Safonau Swyddogaethol Twyll ar gyfer yr Arolygiaeth Gynllunio at Swyddfa'r Cabinet ym mis Ebrill 2020.

Ni adroddwyd am unrhyw achosion o dwyll yn ystod y cyfnod adrodd.

Adroddwyd am un achos o ymgais i lwgrwobrwyo yn ystod y cyfnod adrodd, ac aethpwyd i'r afael ag ef yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad.

Iechyd a diogelwch

Mae Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yn bodoli i gefnogi'r Tîm Gweithredol. Gwnaethant gyfarfod deirgwaith ym mis Mai, mis Medi a mis Rhagfyr 2019. Mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys:

- cefnogi cyfrifoldebau statudol cynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch yr Arolygiaeth;
- sicrhau diwylliant diogelwch cadarnhaol a rhagweithiol lle caiff risgiau yn y gweithle eu hamlygu a'u lleihau; ac
- annog ymagwedd gyson at wella iechyd, diogelwch a lles staff.

Yn ystod y flwyddyn, cofnodwyd cyfanswm o 17 o ddamweiniau a dwy ddamwain y bu ond y dim iddynt ddigwydd, a rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch amdanynt. Ymchwiliwyd yn llawn i bob damwain, er nad adroddwyd yn ffurfiol ar yr un ohonynt i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Darparwyd ar gyfer asesiadau gweithfan trwy offeryn hunanasesu ar-lein. Darparwyd hyfforddiant iechyd a diogelwch i bob aelod newydd o staff. Rydym wedi cynnal sawl sesiwn yn ystod y flwyddyn ar iechyd meddwl, ymwybyddiaeth gyrwyr a materion gweithio'n unigol.

Yn gynharach yn y flwyddyn, argymhellodd Cyfarwyddwr fod angen i gyfrifoldebau ac atebolrwydd iechyd a diogelwch gael eu hadnewyddu a'u hegluro. I gydnabod yr angen i gynnal diwylliant, a ategir gan systemau, lle mae iechyd a diogelwch a lles yn cael eu blaenoriaethu yn y sefydliad a lle mae risgiau niwed ffisegol a meddyliol yn cael eu rheoli'n briodol, mae'r sefydliad wedi ceisio penodi Swyddog Iechyd a Diogelwch a Lles penodol.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, diogelu data a diogelwch gwybodaeth

Mae ymdrin â data'n gywir, p'un a yw'n ddata personol neu'n ddata arall, yn hanfodol er mwyn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd a sicrhau ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau statudol.

Yn ystod y cyfnod adrodd, nid oedd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi rhoi gwybod i ni eu bod wedi derbyn unrhyw gwynion i ymchwilio iddynt o dan y Ddeddf Diogelu Data, Rhyddid Gwybodaeth na'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

Yn ystod y cyfnod hwn, penderfynodd y Tribiwnlys Haen Gyntaf ar un achos Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a chytunodd ag ymateb Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Roedd yr apêl yn erbyn penderfyniad gan yr ICO a gadarnhaodd ymateb yr Arolygiaeth ei bod wedi rhoi'r holl wybodaeth a ddelir i'r ceisiwr. Rydym yn dal i aros am benderfyniad gan yr ICO ar yr unig achos y mae'n ei ystyried o hyd, sef cwyn o dan y Ddeddf Diogelu Data ynglŷn â chyhoeddi enw a chyfeiriad parti yr effeithiwyd arno gan gynnig Seilwaith Cenedlaethol.

Yn ystod cyfnod adrodd y datganiad hwn, adroddwyd am 23 achos o fynediad diawdurdod at ddata i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Ers gweithredu'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) ar 25 Mai 2018, mae'r Arolygiaeth yn adolygu ac yn trosglwyddo argymhellion y Prosiect GDPR i weithgareddau busnes arferol. Rydym yn gweithio trwy'r argymhellion hynny a'u rhoi ar waith ar y cyd â Chanllawiau'r Comisiynydd ac offer eraill sydd ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae hyfforddiant penodol ar ddiogelu data ar gyfer staff swyddfa'r Arolygiaeth Gynllunio wedi cael ei greu ac fe'i cyflwynwyd yn rhannol cyn COVID-19. Mae hyfforddiant ar gyfer Arolygwyr yn cael ei greu a'i addasu i gwrs hyfforddi ar-lein a fydd yn cael ei gwblhau yn ystod 2020/21. Bydd hyfforddiant diogelu data wedi'i deilwra ar gyfer meysydd busnes a rolau penodol yn cael ei greu a'i ddarparu y flwyddyn nesaf.

Gweler y tabl isod am fathau o fynediad diawdurdod at ddata a adroddwyd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Crynodeb o'r mynediad diawdurdod / y gŵyn	Canfyddiad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Cyhoeddi copïau o wrthwynebiadau ar y cam ymgeisio a oedd yn cynnwys data categori arbennig.	Dim angen cymryd camau pellach.
Cyhoeddi enwau a chyfeiriadau na ddylid bod wedi'u cyhoeddi.	Dim angen cymryd camau pellach.
Cyhoeddi gwybodaeth heb ei golygu a oedd yn cynnwys data categori arbennig, gan gynnwys cyfeiriadau at drydydd partïon eraill.	Dim angen cymryd camau pellach.
Cyhoeddi a chyfnwid cynrychiolaethau a oedd yn cynnwys data categori arbennig ochr yn ochr â gwybodaeth adnabod.	Dim angen cymryd camau pellach.

Mae gwasanaethau digidol yn dilyn egwyddorion ISO27001, sef y safon ryngwladol ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth. Cyfarfu'r Fforwm Rheoli Diogelwch Gwybodaeth bum gwaith i fonitro, datblygu a gwella'r System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth. Byddai digwyddiadau seiberddiogelwch difrifol (fel haint faleiswedd ddifrifol) wedi cael eu hadrodd i'r Bwrdd, ond ni fu unrhyw achosion o'r fath yn ystod y cyfnod. Mae gennym ardystiad Hanfodion Seiber o dan gynllun y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Mae'r Bwrdd Adolygu Saernïaeth Ddigidol yn llywodraethu'r broses o lynu wrth egwyddorion, polisïau a safonau'r Gwasanaethau Digidol ar gyfer pob system a chymhwysiad newydd, gan sicrhau eu bod yn cael eu dilyn wrth wneud penderfyniadau am ddatrysiadau a buddsoddi mewn technoleg. Maent yn cyd-fynd â pholisïau, safonau a chanllawiau Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth sy'n berthnasol ar draws y Llywodraeth gyfan.

Modelu dadansoddol

Roedd ein defnydd o fodelau dadansoddol yn gyfyngedig i'r rhai a'n helpodd i ragweld y galw am ein gwasanaethau, y gofynion cysylltiedig o ran adnoddau a'r effaith gysylltiedig ar berfformiad. Cawsant eu hadolygu, eu mireinio a'u diweddarau'n rheolaidd. Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yw'r Uwch Berchennog Cyfrifol ar gyfer ein modelau ar hyn o bryd.

Os byddwn yn datblygu modelau sydd â'r potensial neu'r posibilrwydd i lywio polisi'r llywodraeth yn uniongyrchol, byddwn yn sicrhau eu bod yn destun sicrwydd ansawdd mewnol ac allanol cadarn.

Rheolaethau recriwtio

Roedd cerdyn sgorio cytbwys Comisiwn y Gwasanaeth Sifil o ran cydymffurfiaeth wedi graddio'r Arolygiaeth yn 'gymedrol' ar gyfer y flwyddyn 2019/20. Aseswyd ei bod 'mewn perygl' ar gyfer 2020-21 o ganlyniad i un achos a nodwyd o dorri rheolaethau. Amlygwyd a chywirwyd yr achos o dor-rheolaeth gan yr Arolygiaeth, a ddeilliodd o gamgymeriad a wnaed gan ddarparwr trydydd parti a oedd yn gweithredu ar ein rhan.

Ein targed sector cyhoeddus ar gyfer prentisiaethau yn 2019/20 oedd 16. Ni allai'r Arolygiaeth gyrraedd y targed hwn, a gellir priodoli hyn i'r gofynion ar arweinwyr a'r swyddogaeth adnoddau dynol i gyflawni'r rhaglen newid Dylunio Sefydliadol. Nid yw'r sefydliad wedi llwyddo i droi swyddi staff presennol yn brentisiaethau gan na ddisgwyliwyd i'r strwythur newydd gael ei weithredu'n llawn tan 1 Ebrill 2020. Bu'n rhaid i'r trefniadau recriwtio a gynlluniwyd ar gyfer swyddi prentisiaeth gael eu gohirio mewn sawl maes hefyd.


Gweithgarwch masnachol a rheoli cyflenwyr

	2019/20	2018/19
Targed y Sector Cyhoeddus	16	14
Cyfanswm y prentisiaid	5	13

Mae swyddogaeth fasnachol yr Arolygiaeth wedi parhau i ddarparu canolfan ganolog i ddarparu gwasanaeth proffesiynol i'r sefydliad a'i gadwyn gyflenwi. Roedd hyn yn hanfodol i wireddu prosiectau newid a gweithgarwch busnes arferol, a chanolbwyntiodd ar ddarparu yn erbyn amcanion strategol yr Arolygiaeth. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys:

- caffael Arolygwyr Gorchmynion Diogelu Coed a Threftadaeth arbenigol ar gontract i ymgymryd ag apeliadau cynllunio ar sail achosion unigol, gan gefnogi perfformiad trwy ddefnyddio adnodd cyflenwr hyblyg;
- rheoli contractau cyflenwi gwasanaeth allweddol, gan gynnwys teithio, storio oddi ar y safle, ystadau a hysbysebu statudol;
- sicrhau bod digon o adnoddau ar gyfer prosiectau newid a gweithgarwch busnes arferol trwy gontractau cynhwysfawr sy'n gadarn yn fasnachol gyda darparwyr arbenigedd allanol; a
- dechrau gwaith i symud tuag at fodel masnachol Rheoli Categori.

Mae Ffigur 14.3 isod yn crynhoi ein gweithgarwch caffael yn 2019/20 (yn seiliedig ar anfonebau a dalwyd).



Rheolodd yr Arolygiaeth ei chyflenwyr trwy ystod o dechnegau yn dibynnu ar werth, critigolrwydd a'r math o gontract. Lle bynnag y bo'n bosib ac fel y bo'n briodol, defnyddiom ddull cydweithredol i ddarparu'r gwerth gorau am arian, cynyddu arloesedd a throsglwyddo sgiliau i staff yn y sefydliad. Anogwyd ymgysylltu â chyflenwyr yn gynnar mewn modd rheoledig ac roedd y strategaeth gaffael yn cwmpasu oes gyfan y contract hyd at sgorio'r gwerthwr.

Cafodd llawer o wasanaethau'r Arolygiaeth eu cyflenwi trwy Adrannau eraill y Llywodraeth, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i ddarparu gwasanaethau digidol a theleffoni;
- Adran Gyfreithiol y Llywodraeth i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol; ac
- Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth i ddarparu gwasanaethau Ystadau.

Mae cytundebau yn parhau ar waith ar ffurf Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Memoranda Cyd-ddealltwriaeth i sicrhau bod y darpariaethau hyn yn cael eu rheoli'n rhagweithiol. Cytunwyd ar Femorandwm Telerau Meddiannu newydd gydag Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth pan drosglwyddodd y brydles ar gyfer ein swyddfa ym Mryste iddi o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae gweithgarwch wedi parhau i sicrhau ein bod yn llwyr ddeall effaith Brexit ar ein cadwyn gyflenwi ac yn lliniaru'r risgiau lle bynnag y bo'n bosibl.

Rydym yn ein dal ein hunain a'n cadwyn gyflenwi i'r safonau uchaf, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, sicrhau cynaliadwyedd, mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern, gweithio'n glyfar a chefnogi twf economaidd.

Gwrthdaro buddiannau

Mae ein polisi Gwrthdaro Buddiannau hirsefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl staff a'n Cyfarwyddwyr Anweithredol ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau posibl wrth iddo godi. Yn ogystal, caiff Arolygwyr eu hatal rhag ymgymryd â gwaith achos mewn ardaloedd Awdurdodau Cynllunio Lleol y mae ganddynt gysylltiadau diweddar neu barhaus â nhw. Caiff buddiannau eu datgan ar yr adeg penodi neu ar ôl hynny a'u diweddarau yn ôl yr angen. Mae gan sefydliadau fel y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig a Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain eu codau moeseg a'u safonau proffesiynol eu hunain, a disgwylir i unrhyw staff sy'n perthyn i sefydliadau proffesiynol lynu wrthynt hefyd.

Disgwylir i bawb roi gwybod am unrhyw wrthdaro posibl yn rhagweithiol, a bydd ein Harolygwyr yn esgusodi eu hunain o achosion ar y sail honno. Tybir bod ein polisi Gwrthdaro Buddiannau yn gymesur â'r risg dybiedig i'n didueddrwydd.

Roedd yn ofynnol i bob Cyfarwyddwr a Chyfarwyddwr Anweithredol lenwi datganiad o unrhyw drafodion parti cysylltiedig fel rhan o broses y Cyfrifon Blynnyddol.

Mae eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd Byrddau, Pwyllgorau, Grwpiau Gweithredol ac Arolygwyr Cynllunio yn rhoi cyfle i'r rhai sy'n bresennol ddatgan unrhyw fuddiannau o'r fath.

Cyhoeddwyd ein Cofrestr o Fuddiannau Aelodau'r Bwrdd ar wefan GOV.UK ac fe'i diweddarwyd ers hynny i adlewyrchu newidiadau i aelodaeth y Bwrdd, ac ar lefel Cyfarwyddwyr Gweithredol. Mae'r Gofrestr i'w gweld yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/register-of-planning-inspectorate-board-member-interests>.

Gwerth am arian

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, roeddwn yn gyfrifol am sicrhau yr aseswyd ein gweithgareddau'n rheolaidd i ddarparu hyder ynghylch eu haddasrwydd, effeithiolrwydd, callineb, ansawdd, gwerth da ac osgoi gwallau a gwastraff arall. Darparwyd adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar agweddau ar ein system rheolaeth fewnol.

Fe'm cefnogwyd gan Gyfarwyddwyr a roddodd sicrwydd i mi fod eu meysydd busnes yn cyflawni'r cymysgedd gorau o ansawdd ac effeithiolrwydd am y gost leiaf, gan gynnwys defnyddio contractau gwasanaethau ar y cyd yn cwmpasu storio ffeiliau oddi ar y safle, neilltuo lle mewn gwestai a theithio.

Cydymffurfio â llywodraethu corfforaethol ar gyfer adrannau'r llywodraeth ganolog: cod arfer da

Gwnaethom gydymffurfio a'r egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a amlinellir yn llywodraethu corfforaethol ar gyfer adrannau'r llywodraeth ganolog: cod arfer da¹⁵ ym mhob agwedd berthnasol, yn gymesur â maint a chymhlethdod y sefydliad. Er mwyn sicrhau tryloywder, ac er mwyn gwarchod ein henw da ar gyfer didueddrwydd, gorfu i Gyfarwyddwyr a Chyfarwyddwyr Anweithredol ddatgan unrhyw fusnes neu fuddiannau eraill neu unrhyw gysylltiadau personol y gellid bod wedi eu camddechongli neu achosi chwithigrwydd i'r Arolygiaeth, y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol neu Lywodraeth Cymru (gweler Gwrthdaro buddiannau uchod).



Sarah Richards
Prif Weithredwr yr Arolygiaeth Gynllunio
28 Awst 2020

15. <https://www.gov.uk/government/publications/corporate-governance-code-for-central-government-departments-2017>

Adroddiad cyflogau a staff

Mae'r adran hon yn cynnwys manylion am yr arian a dalwyd i uwch aelodau'r weithrediaeth a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth yn ymwneud â nifer y staff, undebau llafur a gwybodaeth arall, gan gynnwys datgeliadau gofynnol yn ymwneud â gwariant ar ymgynghoriaeth a phecynnau ymadael.

15. Adroddiad cyflogau

Polisi cyflogau

Mae'r adroddiad cyflogau yn crynhoi ein polisi cyflogau a datgeliadau ar gyflog cyfarwyddwyr, fel sy'n ofynnol gan Adran 421 Deddf Cwmnïau 2006, wedi'u haddasu ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Polisi cyflogau'r Cyfarwyddwyr

Y trefniadau cyflogau ac arfarnu perfformiad sy'n gymwys ar lefel cyfarwyddwyr ac uwch yw'r rhai sy'n gymwys i'r Uwch Wasanaeth Sifil yn gyffredinol. Nodir prif nodweddion y trefniadau hyn yn ganolog gan Swyddfa'r Cabinet. Yn unol â chanllawiau cyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil yn rhan o waith ac argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion, caiff cyflogau blynyddol eu pennu fesul unigolyn gan y Prif Weithredwr, dan oruchwyliaeth y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Cyflogau a hawliau pensiwn (gan gynnwys datgeliadau Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV)) ar gyfer cyfarwyddwyr ac aelodau'r bwrdd

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad ffurfiol.

Roedd cyfanswm ffigurau unigol cyflogau'r cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 fel a ganlyn (dangosir y ffigurau cymharol ar gyfer 2018/19 mewn cromfachau):

	Cyflog a ffioedd a dalwyd ¹⁶	Bonws	Buddion trethadwy	Buddion yn ysylltiedig â phensiwn	Cyfanswm ar gyfer 2019/20 (2018/19)
	£000 mewn bandiau £5,000	£000 mewn bandiau £5,000	£ i'r £100 agosaf	£ i'r £1,000 agosaf	£000 mewn bandiau £5,000
Swyddog Cyfrifyddu					
Sarah Richards Prif Weithredwr	140-145 (140-145)	- (-)	- (-)	55,000 (55,000)	195-200 (195-200)
Cyfarwyddwyr Gweithredol					
Tim Guy Cyfarwyddwr Gweddnewid (tan fis Mawrth 2020)	100-105 105-110 cyfwerth ag amser llawn (105-110)	- (-)	- (-)	41,000 (42,000)	145-150 (145-150)
Paul McGuinness Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (o fis Mawrth 2020)	0-5 75-80 cyfwerth ag amser llawn -	- -	- -	1,000 -	0-5 -
Navees Rahman Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (tan fis Mawrth 2020)	85-90 (75-80)	- (-)	- (-)	51,000 (31,000)	135-140 (105-110)
Graham Stallwood Cyfarwyddwr Gweithrediadau (o fis Mai 2019)	90-95 100-105 cyfwerth ag amser llawn -	- -	- -	36,000 -	125-130 -
Christine Thorby Cyfarwyddwr Strategaeth (o fis Ebrill 2019)	110-115 -	- -	- -	309,000 -	415-420 -

16. Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi ystyried talu treuliau i Gyfarwyddwyr Anweithredol ac wedi dod i'r casgliad nad ystyrir bod yr holl dreuliau teithio/llety yr eir iddynt wrth gynnal busnes arferol yn drethadwy (yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018/19, cynhwyswyd y rhain yn y golofn 'cyflog a ffioedd a dalwyd').

	Cyflog a ffioedd a dalwyd ¹⁶	Bonws	Buddion trethadwy	Buddion yn ysylltiedig â phensiwn	Cyfanswm ar gyfer 2019/20 (2018/19)
	£000 mewn bandiau £5,000	£000 mewn bandiau £5,000	£ i'r £100 agosaf	£ i'r £1,000 agosaf	£000 mewn bandiau £5,000
Cyfarwyddwyr Gweithredol					
Phil Hammond Cyfarwyddwr Swm Gwaith Achos (tan fis Gorffennaf 2019) ¹⁷	120-125 75-80 cyfwerth ag amser llawn (75-80)	- (-)	- (-)	- (39,000)	120-125 (115-120)
Steve Hudson Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (o fis Ionawr 2018 tan fis Tachwedd 2018)	- (40-45) (65-70 cyfwerth ag amser llawn)	- (-)	- (-)	- (26,000)	- (70-75)
Ben Linscott Cyfarwyddwr Arolygwyr (tan fis Awst 2018)	- 20-25 85-90 cyfwerth ag amser llawn	- (-)	- (-)	- (1,000)	- (20-25)
Mark Southgate Cyfarwyddwr Gwaith Achos Mawr (tan fis Tachwedd 2018)	- 50-55 85-90 cyfwerth ag amser llawn	- (-)	- (-)	- (20,000)	- (70-75)
Tony Thickett Cyfarwyddwr Cymru (tan fis Mawrth 2019)	- (95-100)	- (-)	- (-)	- (17,000)	- (115-120)

17. Gadawodd Phil Hammond yr Arolygiaeth Gynllunio trwy Gynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd ym mis Gorffennaf 2019. Cafodd iawndal o rhwng £90,000 a £95,000 nad oedd yn bensiynadwy yn rhan o'r cynllun gadael swydd yn gynnar. Ei gyflog cyfwerth â blwyddyn llawn, heb gynnwys gadael swydd yn gynnar, oedd rhwng £75,000 ac £80,000.

Cyfarwyddwyr Anweithredol					
Trudi Elliott Cadeirydd, Anweithredol (o fis Ebrill 2018)	20-25 (20-25)	- (-)	- (-)	- (-)	20-25 (20-25)
Sally Dixon Cyfarwyddwr, Anweithredol (o fis Gorffennaf 2019)	5-10 10-15 cyfwerth ag amser llawn -	- -	- -	- -	5-10 -
Dr Rebecca Driver Cyfarwyddwr, Anweithredol (o fis Rhagfyr 2019)	0-5 10-15 cyfwerth ag amser llawn -	- -	- -	- -	0-5 -
Stephen Tetlow Cyfarwyddwr, Anweithredol (o fis Gorffennaf 2019)	5-10 10-15 cyfwerth ag amser llawn (-)	- (-)	- (-)	- (-)	5-10 (-)
Jayne Erskine Cyfarwyddwr, Anweithredol (tan fis Mai 2019)	0-5 10-15 cyfwerth ag amser llawn (10-15)	- (-)	- (-)	- (-)	0-5 (10-15)
David Holt Cyfarwyddwr, Anweithredol (tan fis Rhagfyr 2019)	5-10 10-15 cyfwerth ag amser llawn(15-20)	- (-)	- (-)	- (-)	5-10 (15-20)
Susan Johnson Cyfarwyddwr, Anweithredol (tan fis Gorffennaf 2019)	0-5 10-15 cyfwerth ag amser llawn(15-20)	- (-)	- (-)	- (-)	0-5 (15-20)

Mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddwr roi o leiaf dri mis o rybudd.

Datganiad pensiynau'r Cyfarwyddwyr

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad ffurfiol.

	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig wrth gyrraedd oed pensiwn	Cyfanswm pensiwn cronedig wrth gyrraedd oed pensiwn ar 31/3/20 a'r cyfandaliad cysylltiedig	Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) mewn £000 i'r £1,000 agosaf		
	£000 mewn bandiau o £2,500	£000 mewn bandiau o £2,500	Ar 31/3/19	Ar 31/03/20	Cynnydd gwirioneddol
Sarah Richards Prif Weithredwr	2.5-5	10-15	169	234	45
Tim Guy Cyfarwyddwr Gweddnewid (tan fis Mawrth 2020)	0-2.5	25-30	334	380	24
Paul McGuinness Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (o fis Mawrth 2020)	0-2.5 plus a lump sum of 0	35-40 plus a lump sum of 85-90	687	708	(2)
Navees Rahman Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (tan fis Mawrth 2020)			120	120	1
Graham Stallwood Cyfarwyddwr Gweithrediadau (o fis Mai 2019)	2.5-5	20-25	214	253	24
Christine Thorby Cyfarwyddwr Strategaeth (o fis Ebrill 2019)	0-2.5	0-5	0	22	15
Christine Thorby Director of Strategy (from April 2019)	15-17.5	50-55	698	1,048	312

Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafu ar ôl asesiad actiwaraid o fuddiannau cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei hen gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i'w aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd ar lefel uwch y mae datgeliad yn gymwys iddo. Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall a drosglwyddwyd gan yr aelod i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir CETVau yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus pan fydd buddion pensiwn yn cael eu codi.

Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) a ariennir gan y Trysorlys. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronedig o ganlyniad i chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Iawndal wrth ymddeol yn gynnwys neu golli swydd

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad ffurfiol.

Gwnaed taliad i Gyfarwyddwr a oedd yn ymadael fel y datgelwyd yn yr adran Pecynnau Ymadael.

Taliadau i gyfarwyddwyr blaenorol

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad ffurfiol.

Nid oes gan gyfarwyddwyr unrhyw hawl i gael tâl ar ôl eu dyddiad ymadael.

Datgeliad cyflog teg

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad ffurfiol.

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng

cyflog y Cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf yn eu sefydliad a chyflog canolrifol gweithlu'r sefydliad. Mae'r cyfrifiad wedi'i seilio ar staff cyfwerth ag amser llawn ar ddyddiad olaf y cyfnod adrodd bob blwyddyn.

	2019/20	2018/19
Band Cyfanswm Cyflog y Cyfarwyddwr ar y Cyflog Uchaf (£'000)	140-145	140-145
Cyfanswm Canolrifol – Arolygydd	58,837	56,484
Cymhareb Cyflogau – Arolygydd	2.4	2.5
Cyfanswm Canolrifol – Cymorth	27,221	25,157
Cymhareb Cyflogau – Cymorth	5.2	5.7

Cyflog wedi'i fandio y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf yn y flwyddyn ariannol 2019/20 oedd £140,000 - £145,000 (2018/19: £140,000 - £145,000). Roedd hyn 5.2 gwaith (cymorth); 2.4 gwaith (Arolygwyr) (2018/19: 5.7 (cymorth); 2.5 (Arolygwyr)) yn fwy na chyflog canolrifol y gweithlu, sef £27,221 (cymorth); £58,837 (Arolygydd) (2018/19: £25,157 (cymorth); £56,484 (Arolygydd)).

Gwnaethom gynnal adolygiad cyflogau cyfartal yn seiliedig ar enillion cyfartalog cyflogeion yn 2018/19 i benderfynu a yw'r cyflogau a delir yn briodol ar gyfer y gwaith a wneir, ac nad ydynt yn achosi unrhyw heriau o ran cyflog teg. Bydd y gwaith hwn yn llywio ein strategaeth gyflogau barhaus.

Cyhoeddwyd gwybodaeth am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer yr Arolygiaeth Gynllunio ar GOV.UK yn <https://www.gov.uk/government/publications/mhclg-gender-pay-gap-report-and-data-2019>.

Yn 2019/20, ni dderbyniodd unrhyw gyflogai gyflog yn uwch na'r cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf (2018/19: dim). Roedd cyflogau'n amrywio o £110,762 i £10,500 (2018/19: £107,248 i £13,477) ac eithrio'r cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf. Mae'r cyfanswm cyflog yn cynnwys cyflog, tâl anghyfunol yn gysylltiedig â pherfformiad a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

16. Adroddiad staff

Nifer y staff

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad ffurfiol.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20, roeddem yn cyflogi (cyfwerth ag amser llawn, ar gyfartaledd) 725 o staff (gweler y tabl isod). Roedd y cyfanswm hwn yn cynnwys 358 o fenywod a 454 o ddynion (cyfwerth ag amser llawn, ar gyfartaledd: 314 o fenywod; 411 o ddynion), a oedd yn cynnwys dwy fenyw a thri o ddynion ar lefel Uwch Weision Sifil. Roedd nifer y staff yn cynnwys cymysgedd o gyflogeion amser llawn a rhan-amser, Arolygwyr cyflogedig sy'n gweithio gartref a staff swyddfa yn swyddfeydd Caerdydd a Bryste. Hefyd, gwnaethom ddefnyddio gwasanaethau 94 o Arolygwyr heb fod ar gyflog misol (2018/19: 85) ar sail gytundebol am ffi er mwyn caniatáu adnoddau hyblyg a gwerth am arian.

Roedd nifer gyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a oedd yn cael eu cyflogi gennym yn barhaol (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

	Parhaol (cyfartaledd)	
	2019/20	2018/19
Band Cyflog 2 yr Uwch Wasanaeth Sifil	1	1
Band Cyflog 1 yr Uwch Wasanaeth Sifil	4	6
Gradd 6-7 (Uwch aelodau staff)	32	25
Arolygydd Cyflogedig	331	270
Cymorth	97	93
Gweithwyr Achos	260	241
Cyfanswm	725	636
Llai Secondiadau	-	(1)
Ychwanegu Staff Asiantaeth	11	15
Cyfanswm a Gyflogwyd	736	650

Gwnaethom ddefnyddio gwasanaethau pum aelod o staff a secondiwyd i mewn, ar gyfartaledd, yn ystod y flwyddyn. Defnyddiwyd y gwasanaethau hyn ar lefel reoli, am gyfnod hwy na chwe mis, i'n cynorthwyo tra'n bod yn ymgymryd â gwaith dylunio sefydliadol. Ar 31 Mawrth 2020, roedd 75 aelod o staff (80 ar 31 Mawrth 2019) ar gcontractau cyfnod penodol. Ni secondiwyd staff y tu allan i'r Arolygiaeth Gynllunio yn ystod 2019/20.

Polisiau staff

Recriwtio

Gwneir ein holl recriwtio ar sail cystadleuaeth deg ac agored, a chaiff detholiadau eu seilio ar deilyngdod. Mae prosesau recriwtio'n deg a chânt eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn ystyried unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth cyflogaeth.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Fel rhan o'n hymrwymiad i degwch a hyrwyddo cydraddoldeb, cydweithiwn yn agos â chydweithwyr yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i ymgorffori amrywiaeth yn ein swyddogaethau busnes a'r modd rydym yn darparu gwasanaethau, ac i sicrhau cydymffurfiaid â deddfwriaeth cydraddoldeb, gan hyrwyddo arfer gorau mewn amgylchedd o onestrwydd, tegwch a chyfle cyfartal.

Yn dilyn rhaglen o ymwybyddiaeth a dysgu, gwnaeth yr Arolygiaeth ragor o welliannau yn ymwneud â phob thema cynhwysiant a thriniaeth deg yn Arolwg Pobl 2019, gan arwain at gynnydd 2% mewn lefelau bodlonrwydd cyffredinol, sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y Gwasanaeth Sifil. Gan adeiladu ar ganlyniadau a oedd eisoes yn gryf; roedd dros 86% o ymatebwyr o'r farn eu bod yn cael eu trin yn deg, roedd 91% o'r farn eu bod yn cael eu trin gyda pharch yn y gwaith, ac roedd 77% yn credu bod gwahaniaethau unigol yn cael eu parchu hefyd.

Mae cyfran y staff sy'n ystyried eu hunain yn anabl yn parhau'n fach, sef 9%, ac mae'r ffigur hwn wedi lleihau ychydig o gymharu â 2018/19. Wrth recriwtio staff, rydym yn parhau i sicrhau cyfweiliad i ymgeiswyr anabl sy'n bodloni gofynion craidd y swydd ddisgrifiad a manyleb yr unigolyn, o dan y cynllun Hyderus o ran Anabledd.

Undebau llafur

Mae'r sefydliad yn cydnabod dau undeb yn ffurfiol: Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS), sy'n cynrychioli staff swyddfa, a Prospect, sy'n cynrychioli Arolygwyr. Cynhaliwyd ymgynghoriadau ffurfiol â'r undebau trwy gyfarfodydd Whitley, yn bennaf, a gynhaliwyd ym mis Mehefin, mis Medi a mis Rhagfyr 2019, a mis Mawrth 2020. Rydym hefyd yn cydweithio â'r undebau a'n cyflogeion, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, ar gynigion rheoli sydd â pherthynas uniongyrchol â'r ffordd mae staff yn gweithio, gan sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin o'r effaith ar unigolion. Mae gwybodaeth am bolisiau cyflogaeth perthnasol a newidiadau ar gael i'r holl staff drwy'r safle mewnurwyd.

Mae'n ofynnol i ni gyhoeddi gwybodaeth yn y tablau canlynol yn unol â Rheoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017.

Cynrychiolaeth Undeb Llafur	
Cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod	Cyflogeion cyfwerth ag amser llawn
20	17.92

% o'r amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster	
Caran yr amser	Nifer y cyflogeion
0%	9
1-50%	11
51-99%	0
100%	0

% o'r bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster	
Cyfanswm cost amser cyfleuster	£58,643.69
Cyfanswm bil cyflogau ¹⁸	£43,218,356.40
Cost amser cyfleuster fel canran o'r bil cyflogau	0.14%

Gweithgareddau Undeb Llafur â thâl	
Amser a dreuliwyd ar weithgareddau Undeb Llafur â thâl fel canran o'r cyfanswm oriau amser cyfleuster â thâl	100%

Rheoli presenoldeb

Nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd drwy absenoldeb salwch, ar gyfartaledd, yn 2019/20 oedd 5.5 diwrnod. Mae hyn islaw Cyfartaledd y Gwasanaeth Sifil, sef 6.8 diwrnod ar gyfer yr un cyfnod. Mae rhai o'r absenoldebau o ganlyniad i faterion cymhleth yn ymwneud ag anableddau. Rydym yn cydweithio'n agos gyda rheolwyr llinell er mwyn sicrhau y rhoddir cymorth priodol i unigolion, trwy ddefnyddio addasiadau rhesymol, cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith a'r Rhaglen Cymorth i Gyflogeion.

18. Mae ffigur y cyfanswm bil cyflogau yn gynrychioliadol o daliadau cyflog, lle mae costau staff yn cynnwys addasiadau cyfrifyddu sy'n angenrheidiol ar gyfer y datganiadau ariannol.

Costau staff

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad ffurfiol.

Mae'r tabl isod yn cynnwys cyfanswm y costau staff ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20, fel y dangosir yn y Datganiadau Ariannol.

	2019/20	2018/19
	£'000	£'000
Cyflogau	31,223	25,878
Costau nawdd cymdeithasol	3,439	2,851
Costau pensiwn eraill	8,457	5,497
Is-gyfanswm	43,119	34,226
Staff asiantaeth	528	589
Cyfanswm y costau staff net	43,647	34,815

Buddion pensiwn

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cynlluniau buddion diffiniedig amlgyflogwr heb eu hariannu yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a adwaenir fel 'Alpha', na allwn nodi ein cyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol ynddynt. Cynhaliwyd y prisiad actiwaraid llawn diwethaf ar 31 Mawrth 2016.

Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (<http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/about-us/resource-accounts/>).

Ar gyfer 2019/20, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £8,338,082 yn daladwy i PCSPS (2018/19: £5,482,057) fel un o bedair cyfradd yn yr ystod 26.6% i 30.3% (2018/19: 20% i 24.5%) o gyflog pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd, fel arfer, ar ôl prisio'r cynllun llawn. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i fodloni costau'r buddion sy'n cronni yn ystod 2019/20 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliaid â chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £30,197 (2018/19: £15,220) i un neu fwy o banel o dri darparwr pensiwn rhanddeiliaid a benodwyd. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oed ac yn amrywio o 8% i 14.75% o gyflog pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn gwneud cyfraniad cyfatebol o

hyd at 3% o gyflog pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £93 (0.5% o gyflog pensiynadwy ar gyfer y cyflogeion hynny) yn daladwy i PCSPS i dalu cost darparu buddion cyfandaliad yn y dyfodol pe byddai'r cyflogeion hyn yn marw yn y swydd neu'n ymddeol oherwydd afiechyd.

Y cyfraniadau a oedd yn daladwy i'r darparwyr pensiynau partneriaeth ar 31 Mawrth 2020 oedd £2,550 (2018/19: £1,249). Y cyfraniadau rhagdaledig ar y dyddiad hwnnw oedd £dim (2018/19: £dim).

Ni ymddeolodd yr un unigolyn (2018/19: dim unigolion) yn gynnwys oherwydd afiechyd; cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol a gronwyd yn ystod y flwyddyn oedd £dim (2018/19: £dim).

Gwariant ar ymgynghoriaeth

Yn 2019/20, aeth yr Arolygiaeth Gynllunio i gostau o lai na £106,000 (2018/19: £60,000) ar gontractau yn y categori ymgynghoriaeth. Fodd bynnag, nid oedd angen cymeradwyaeth Swyddfa'r Cabinet ar gyfer unrhyw un o'r rhain, gan eu bod y tu allan i gwmpas rheolaethau gwario Swyddfa'r Cabinet.

Ymrwymadau oddi ar y gyflogres

Gwnaethom ymrwymo i nifer o gontractau oddi ar y gyflogres (gweler y tablau dilynol am ddadansoddiad pellach). Roedd dros 60% o'r ymrwymadau hyn ar gyfer gwasanaethau Arolygwyr heb fod ar gyflog misol (ar sail gytundebol am ffi), i ddarparu'r hyblygrwydd angenrheidiol yng ngweithlu'r Arolygwyr. Roedd gweddill yr ymrwymadau oddi ar y gyflogres i gefnogi angen penodol yn y sefydliad tra'n bod yn gweddnwio y dyluniad sefydliadol.

Yr holl ymrwymadau oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2020, am fwy na £245 y dydd ac sy'n para mwy na chwe mis	Ym mis Mawrth 2020
Nifer yr ymrwymadau presennol.	133
Ohonynt...	
Y nifer sydd wedi bodoli am lai na blwyddyn adeg yr adroddiad.	45
Y nifer sydd wedi bodoli am rhwng blwyddyn a dwy flynedd adeg yr adroddiad.	87
Y nifer sydd wedi bodoli am rhwng dwy a thair blynedd adeg yr adroddiad.	1
Y nifer sydd wedi bodoli am rhwng tair a phedair blynedd adeg yr adroddiad.	-
Y nifer sydd wedi bodoli am bedair blynedd neu fwy adeg yr adroddiad.	-

Ar ryw adeg, bu pob un o'r ymrwymadau presennol oddi ar y gyflogres, a amlinellir uchod, yn destun asesiad risg ynghylch p'un a oes angen sicrwydd bod yr unigolyn yn talu'r swm cywir o dreth o dan ddeddfwriaeth 35 Cyllid y Wlad (IR35), a cheisiwyd y sicrwydd hwnnw, yn ôl yr angen.

Y holl ymrwymadau newydd oddi ar y gyflogres, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, am fwy na £245 y dydd ac sy'n para mwy na chwe mis	Ym mis Mawrth 2020
Nifer yr ymrwymadau newydd, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.	149
Ohonynt...	
Nifer yr aseswyd bod IR35 yn berthnasol iddynt.	-
Nifer yr aseswyd nad yw IR35 yn berthnasol iddynt.	149
Nifer a ymrwymodd yn uniongyrchol (drwy Gwmnïau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSC) wedi'i contractio i'r asiantaeth) ac sydd ar gyflogres yr asiantaeth.	-
Nifer yr ymrwymadau a ailaseswyd at ddibenion cysondeb/sicrwydd yn ystod y flwyddyn.	116
Nifer yr ymrwymadau a welodd newid i statws IR35 yn dilyn yr adolygiad cysondeb.	-

Unrhyw ymrwymadau oddi ar y gyflogres ar gyfer aelodau'r Bwrdd, a/neu, uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020	Ym mis Mawrth 2020
Nifer yr ymrwymadau oddi ar y gyflogres ar gyfer aelodau'r bwrdd, ac/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol.	-
Cyfanswm nifer yr unigolion ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres yr ystyriwyd eu bod yn 'aelodau'r bwrdd ac/neu'n uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol' yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r ffigur hwn gynnwys ymrwymadau ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres.	14

Pecynnau ymadael

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad ffurfiol.

Cyfrifir am gostau ymadael yn llawn naill ai yn y flwyddyn ymadael neu, lle gwneir ymrwymiad rhwymol i ymadael yn y flwyddyn ddilynol, caiff costau eu cronni. Caiff costau ymddeol oherwydd afiechyd eu bodloni gan y cynllun pensiwn.

Nid oedd unrhyw ymadawiadau gorfodol o ganlyniad i ddileu swydd yn 2019/20. Roedd costau ymadael eraill ar gyfer 2019/20 o ganlyniad i'r prosiect Dylunio Sefydliadol.

Un o'r ymadawiadau a adroddwyd yn 2019/20 oedd ar gyfer Philip Hammond, y cyn Gyfarwyddwr

Gweithrediadau. Cyflogwyd Philip Hammond gan yr Arolygiaeth Gynllunio o fis Mai 1985 ac roedd yn Uwch Was Sifil o fis Mehefin 2013 ymlaen. Gadawodd yr Arolygiaeth Gynllunio ym mis Gorffennaf 2019 trwy Gynllun Rhyddhau yn Gynnar o Wirfodd, a chafodd iawndal o rhwng £90,000 a £95,000 yn rhan o'r cynllun.

	2019/20	2018/19
	Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt	Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt
	£'000	£'000
<10,000	1	-
£10,000-25,000	-	-
£25,001-£50,000	1	-
£50,001-£100,000	1	-
		-
Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael	3	-
Cyfanswm cost Adnoddau (£)	128,401	-

Atebolrwydd Seneddol ac Adroddiad Archwilio

Mae'r adran hon yn darparu'r datgeliadau manwl y mae'n ofynnol i ni eu gwneud, ac fe'i hategir gan y manylion yn y Datganiadau Ariannol, sy'n dechrau yn Adran 22 yr Adroddiad Blynnyddol hwn Datganiad o wariant net cynhwysfawr.

17. Dyroniadau'r Gyllideb ac All-dro

Ariennir yr Arolygiaeth Gynllunio drwy'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru. Cytunir ar ddyroniadau mynegol cychwynnol fel rhan o ymarferion Adolygiad o Wariant Trysorlys EM, ac yna cânt eu mireinio'n flynyddol yn ôl yr angen drwy gylch cynllunio busnes y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Yn ystod 2019/20, trosglwyddodd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol gyllid o gyllidebau gweinyddol i gyllidebau rhaglenni. Er 1 Ebrill 2020, fe'n hariennir yn llawn o gyllidebau rhaglenni'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a chaiff y dosbarthiad hwn o'n cyllid ei adolygu'n flynyddol.

Mae'r cyfrifon manwl ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 wedi'u cynnwys yn rhan 'Datganiadau Ariannol' y cyhoeddiad hwn. Darperir crynodeb byr o'n perfformiad yn erbyn y gyllideb yn y tabl isod.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom reoli ein perfformiad ariannol yn erbyn y gyllideb ar draws tri phrif bennawd: costau staff a chostau cysylltiedig; costau rhedeg nad ydynt yn ymwneud â chyflogau; ac incwm. Y gyllideb refeniw net gytunedig ar ddechrau'r flwyddyn oedd £47.2m (2018/19 £36.1m) a'r gyllideb gyfalaf oedd £2.2m. Ychwanegwyd £10m at y gyllideb gymeradwy gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn 2019/20 i gefnogi adferiad parhaus mewn perfformiad. Ar ôl dychwelyd £1.5m o Amcangyfrifon Atodol ym mis Hydref 2019, gwnaethom orffen y flwyddyn gyda thanwariant pellach o £2.4m yn erbyn y gyllideb ddiwygiedig, sef:

2019/20	Cyllideb wreiddiol £'000	Cyllideb ddiwygiedig (Hydref 2019) £'000	All-dro £'000	Tanwariant £'000
Costau staff a chostau cysylltiedig	42,046	43,893	43,647	246
Costau rhedeg nad ydynt yn ymwneud â chyflogau	21,840	18,485	16,698	1,787
Derbynebaw	(17,761)	(17,620)	(17,566)	(54)
Costau net	46,125	44,758	42,779	1,979
Costau a glustnodwyd	1,000	1,300	958	342
Cyfanswm costau rhaglenni	47,125	46,058	43,737	2,321
Costau nad ydynt yn arian parod (Gwariant a Reolir yn Flynyddol)	161	161	125	36
Cyfanswm gwariant gweithredu	47,286	46,219	43,862	2,357
Gwariant cyfalaf	2,200	4,150	3,445	705

Roedd y tanwariant o £1.8m o ran costau rhedeg nad ydynt yn arian parod yn ymwneud â'r ffaith na ddefnyddiwyd cyllidebau Arolygwyr Heb fod yn Gyflogedig yn llawn yn y chwarter olaf. Adnodd hyblyg yw'r gyllideb hon nad oedd yn angenrheidiol oherwydd bod staff cyflogedig wedi'u neilltuo i flaenoriaethau gwaith.

Roedd y tanwariant o ran gwariant cyfalaf yn ymwneud â dileu £455,000 mewn perthynas â gwaith datblygu digidol a gyfalafwyd yn flaenorol a £250,000 mewn perthynas ag argraffyddion nad oedd modd eu darparu cyn 31 Mawrth 2020 o ganlyniad i COVID-19.

Mae'r tabl isod yn dangos y dyraniadau dros dro a'r tybiaethau ymarferol presennol ar gyfer y gyllideb. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi cael cyllideb ddangosol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, a fydd yn cael ei chadarnhau mewn cyllideb ddirprwyedig ffurfiol. Gallai'r ffigurau newid.

	2020/21
	£'000
Costau net	46,839
Costau a glustnodwyd	2,550
Cyfanswm costau rhaglenni	49,389
Gwariant a reolir yn flynyddol	161
Cyfanswm gwariant gweithredu	49,550
Gwariant cyfalaf	5,041

18. Taliadau credydwyd

Cyhoeddodd y Llywodraeth ym mis Tachwedd 2008 y dylai holl sefydliadau'r llywodraeth anelu at dalu anfonebau, yn enwedig gan fentrau bach a chanolig, cyn pen deng niwrnod. Fe wnaeth cyhoeddiad Cyllideb 2010 ddiwygio'r targed hwn i dalu 80% o'r holl anfonebau nad oes anghydfod yn eu cylch cyn pen pum niwrnod ar gyfer holl adrannau'r llywodraeth ganolog. Ein polisi yw talu pob bil nad oes anghydfod yn ei gylch o fewn pum niwrnod o dderbyn anfoneb ddilys neu yn unol â'r telerau cytundebol cytûn, os nodir fel arall.

Yn 2019/20, gwnaethom dalu 82% o'r 4,543 o anfonebau a dderbyniwyd cyn pen pum niwrnod. Mae hyn o gymharu â pherfformiad y flwyddyn flaenorol, sef 81% o 3,241 o anfonebau. Ym mis Tachwedd 1998, daeth y Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) i rym, gan roi hawl statudol i fusnesau bach hawlio llog gan fusnesau mawr (a phob corff yn y sector cyhoeddus) ar daliadau sy'n fwy na 30 diwrnod yn hwyr. Daeth deddfwriaeth ddiwygiedig (Rheoliadau Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr 2002) i rym ar 7 Awst 2002 gan roi hawl i bob busnes, ni waeth beth yw ei faint, hawlio llog statudol am dalu dyledion masnachol yn hwyr. Ni dderbyniwyd unrhyw hawliadau yn ystod 2019/20 (nid oedd unrhyw hawliadau yn 2018/19).

19. Ffioedd a thaliadau

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad ffurfiol.

Rydym wedi cydymffurfio â'r gofynion dyrannu costau a thaliadau a amlinellir yng nghyfarwyddyd Trysorlys EM a Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus ar gyfer ffioedd a thaliadau. Caiff gwaith achos y mae cyfanswm ei ffioedd yn fwy nag £1m ei ddadansoddi isod. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi adolygu pa mor gywir y mae costau'n cael eu dyrannu ar draws Seilwaith Cenedlaethol, ac felly rydym wedi ailddatgan ffigurau 2018/19 er mwyn cymharu'n fwy cywir.

	2019/20			RESTATED 2018/19		
	Cost	Incwm	Net	Cost	Incwm	Net
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Seilwaith Cenedlaethol ¹⁹	9,103	(8,456)	647	6,157	(6,334)	(177)
Cynlluniau Lleol	6,807	(4,576)	2,231	5,188	(4,976)	212
Gwaith Achos Arbenigol Mawr arall ²⁰	4,540	(1,277)	3,263	4,305	(1,621)	2,684
Cyfansymiau	20,450	(14,309)	6,141	15,650	(12,931)	2,719

19. Mae costau'n cynnwys elfen o waith cyn gwneud cais, sy'n digwydd cyn cydnabod incwm, felly gall costau a'r incwm cysylltiedig rychwantu blynyddoedd ariannol gwahanol.

20. Caiff costau Gwaith Achos Arbenigol Mawr arall eu hadennill yn rhannol yn unig o'r gwaith rydym yn ymgymryd ag ef ar ran adrannau eraill y llywodraeth.

20. Rheoleidd-dra gwariant

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad ffurfiol.

Cyflwynir adroddiad ar wariant ar golledion a thaliadau arbennig, fel y'i diffinnir ym Mhennod 4 ac Atodiadau 4.10 i 4.13 o Reoli Arian Cyhoeddus, i Drysorlys EM drwy'r rhiant Adran. Ceir manylion am nifer a gwerth yr achosion sy'n fwy na £300,000 isod.

	2019/20		2018/19	
	Nifer yr achosion	£'000	Nifer yr achosion	£'000
Colled adeiladol	1	455	-	-
Taliadau Arbennig	36	347	27	156

Mae taliadau arbennig yn cynnwys: taliadau ex gratia; a difrod i geir llog.

Manylion achosion dros £300,000:

Roedd un achos adroddadwy yn 2019/20 o £455,000, sef colled adeiladol (dim achosion adroddadwy yn 2018/19) a oedd yn ymwneud â phrosiect digidol ystwyth, sef Gweddnewid Cyflawni Gweithredol. Yn dilyn adolygiad manwl o'r prosiect, penderfynwyd nad oedd y gofynion ar gyfer y datrysiad saernïaeth feddalwedd, a oedd yn cael ei ddatblygu a'i weithredu gan gyflenwr trydydd parti allanol, yn darparu platfform effeithiol mwyach ar gyfer cynnal a chadw a newid yn barhaus. Byddai hyn wedi effeithio ar allu'r Arolygiaeth i ymateb i ofynion newydd busnes neu gwsmeriaid mewn modd amserol, gan beryglu gwelliant yn y dyfodol.

21.
Rhwymedigaethau
amodol bychan

Mae'r adran hon o'r ddogfen hon wedi bod yn destun archwiliad ffurfiol.

Mae costau ex gratia yn daliadau anstatudol, a wneir yn gyffredinol o ganlyniad i gydnabod camgymeriad a oedd yn achosi gwariant diangen i'r hawliwr. Gall hyn gynnwys achosion lle y canfyddir camweinyddiaeth gan yr Ombwdsmon Seneddol. Ar sail blynyddoedd blaenorol, mae posibilrwydd bychan y gallwn dderbyn hawliad sylweddol am gostau sy'n ymwneud â gwaith a gwblhawyd cyn 31 Mawrth 2020 lle nad yw'r achos wedi'i godi eto. O ystyried y dosbarthiad bychan, nid yw'n bosibl amcangyfrif gwerth, ond pe bai angen, byddem yn ceisio cyllid ychwanegol gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol fel rhan o gyflwyniadau arferol ein hadolygiad o wariant.

Ar 29 Mawrth 2017, cyflwynodd Llywodraeth y DU ei hysbysiad i adael yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn unol ag Erthygl 50. Dechreuodd tanio Erthygl 50 broses ddwy flynedd o drafodaethau rhwng y DU a'r UE. Ar 31 Hydref 2019, gadawodd y DU yr UE a dechreuodd ar gyfnod pontio cychwynnol. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw newidiadau o bwys i ddeddfwriaeth, rheoliadau a threfniadau cyllido yn deillio o ganlyniadau'r trafodaethau i ymadael. Nid yw'r Arolygiaeth yn cael ei hariannu'n uniongyrchol gan yr UE, ond datgelir rhwymedigaeth amodol fechan na ellir ei meintoli o ganlyniad i effaith bosibl newidiadau i ddeddfwriaeth a rheoliadau.

Rydym yn monitro effaith COVID-19 ar ein contractwyr a'n cyflenwyr allweddol, ac nid oes unrhyw beth meintioledig i'w ddatgelu ar yr adeg ysgrifennu.



Sarah Richards
Prif Weithredwr yr Arolygiaeth Gynllunio
28 Awst 2020

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin.

Barn ar y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol yr Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llifoedd Arian Parod, y Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth a archwiliwyd.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Arolygiaeth Gynllunio ar 31 Mawrth 2020 a'r gwariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a roddwyd o dan y Ddeddf honno.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyriaeth berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs) (y DU) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol o'm tystysgrif. Mae'r safonau hynny yn mynnu fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adroddiadau Ariannol 2016. Rwyf yn annibynol ar yr Arolygiaeth Gynllunio yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol a phriodol i fod yn sail i'm barn.

Casgliadau yn ymwneud â busnes hyfyw

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae ISAs (y DU) yn mynnu fy mod yn adrodd i chi arnynt yn yr amgylchiadau canlynol:

- lle nad yw'n briodol i'r Arolygiaeth Gynllunio gyfrifyddu ar sail busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol; neu
- lle nad yw'r Arolygiaeth Gynllunio wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a allai fwrw cryn amheuaeth ar allu'r Arolygiaeth Gynllunio i barhau i gyfrifyddu ar sail busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu dros y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr, fel y Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gam-ddatgan perthnasol, p'un a achoswyd hynny trwy dwyll neu wall. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol ag ISAs (y DU) bod amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau deillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol pe gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu'n gyfunol, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol ag ISAs (y DU), rwyf yn arfer barn broffesiynol ac yn cynnal amheuaeth broffesiynol trwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd:

- yn nodi ac yn asesu risgiau cam-ddatgan perthnasol yn y datganiadau ariannol, p'un a achoswyd hynny trwy dwyll neu wall, yn cynllunio ac yn cyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, ac yn cael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol a phriodol i ddarparu sail i'm barn. Mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiadau perthnasol sy'n deillio o dwyll yn uwch nag un sy'n deillio o wall, gan y gallai twyll gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camliwiadau, neu drechu rheolaeth fewnol;

- yn cael dealltwriaeth o reolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn cynllunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol i'r amgylchiadau, ond nid at y diben o fynegi barn ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol yr Arolygiaeth Gynllunio;
- yn gwerthuso priodoldeb polisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd, a rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau cysylltiedig a wnaed gan y rheolwyr;
- yn gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys cyffredinol y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, a ph'un a yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli'r trafodion a'r digwyddiadau sylfaenol mewn modd sy'n cyflawni cyflwyniad teg; ac
- yn dod i gasgliad ynghylch priodoldeb defnydd yr Arolygiaeth Gynllunio o gyfrifyddu ar sail busnes hyfyw, ac, ar sail y dystiolaeth archwilio a gafwyd, p'un a oes ansicrwydd perthnasol yn bodoli yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai fwrw cryn amheuaeth ar allu'r Arolygiaeth Gynllunio i barhau fel busnes hyfyw. Os dof i'r casgliad fod yna ansicrwydd perthnasol, mae'n ofynnol i mi dynnu sylw yn fy adroddiad archwilydd at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol neu, os yw'r cyfryw ddatgeliadau yn annigonol, i addasu fy marn. Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd hyd at ddyddiad fy adroddiad. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol achosi i'r Arolygiaeth Gynllunio beidio â pharhau fel busnes hyfyw.

Rwyf yn cyfathrebu gyda'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseru cynlluniedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Gwybodaeth arall

Mae'r Prif Weithredwr, fel y Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth sydd wedi'i harchwilio, y datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilydd ar hynny. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall, ac nid wyf yn

mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw unrhyw wybodaeth arall yn anghyson yn faterol â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gefais yn yr archwiliad neu ei bod, fel arall, yn ymddangos ei bod wedi'i cham-ddatgan yn faterol. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith a gyflawnais, bod y wybodaeth arall hon wedi'i cham-ddatgan yn faterol, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae rhannau'r Adroddiad Atebolrwydd i'w harchwilio wedi eu paratoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r endid a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau materol yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac wedi'u paratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion rwyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd yn ei gylch mewn perthynas â'r materion canlynol yr adroddaf i chi, os, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol neu nid wyf wedi derbyn yr adroddiadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a rhannau'r Adroddiad Atebolrwydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion neu'r adroddiadau cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae'n ofynnol i mi eu cael ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaid ag arweiniad Trysorlys EM.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau ar y datganiadau ariannol hyn.

Gareth Davies
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain, SW1W 9SP
1st Medi 2020

Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

Mae fformat a chynnwys y datganiadau ariannol yn yr adran hon yn unol ag arweiniad perthnasol y Trysorlys/Swyddfa'r Cabinet.

22. Datganiad o wariant net cynhwysfawr (SOCNE)

		2019/20	2018/19
		£'000	£'000
	Nodyn		
Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau		(2,584)	(2,518)
Incwm gweithredu arall		(14,982)	(13,729)
Incwm gweithredu	4	(17,566)	(16,247)
Costau staff	3a	43,647	34,815
Costau gweinyddol eraill	3b	21,041	19,546
Cyfanswm gwariant gweithredu		64,688	54,361
Gwariant net ar gyfer y flwyddyn		47,122	38,114

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau parhaus.

Mae'r Nodiadau yn Adran 26 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

23. Datganiad o'r sefyllfa ariannol

		31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2019
		£'000	£'000
	Nodyn		
Asedau anghyfredol			
Eiddo, peiriannau ac offer	5	1,585	2,235
Asedau anniriaethol	6	126	252
Rhagdaliadau sy'n fwy na blwyddyn	8	10	-
Cyfanswm asedau anghyfredol		1,721	2,487
Asedau cyfredol			
Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy	8	6,383	8,658
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	9	1,263	2,477
Cyfanswm asedau cyfredol		7,646	11,135
Cyfanswm asedau		9,367	13,622
Rhwymedigaethau cyfredol			
Masnach a symiau eraill sy'n daladwy	10	(7,238)	(8,820)
Darpariaethau	11	(138)	(13)
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol		(7,376)	(8,833)
Asedau llai rhwymedigaethau		1,991	4,789
Ecwiti trethdalwyr			
Cronfa gyffredinol		1,991	4,789
Cyfanswm ecwiti trethdalwyr		1,991	4,789

Cymeradwywyd y cyfrifon ar dudalennau 109 i 129 gan Fwrdd yr Arolygiaeth ar 12 Awst 2020 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

Sarah Richards

Sarah Richards
Prif Weithredwr
28 Awst 2020

Mae'r Nodiadau yn Adran 26 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

24. Datganiad o lifoedd arian

		2019/20	2018/19
		£'000	£'000
	Nodyn		
Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu			
Gwariant gweithredu net		(47,122)	(38,114)
Addasiadau ar gyfer trafodion heb fod yn arian parod	3b, 4	1,238	1,609
(Cynnydd)/ Gostyngiad mewn masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy	8	2,265	(3,034)
Llai symudiad yn y ddarpariaeth dyledion drwg	3b	30	47
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach sy'n daladwy	10	(1,582)	843
Llai symudiadau mewn symiau sy'n daladwy yn ymwneud ag eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r SOCNE	5, 6	1,159	(1,154)
Defnydd o ddarpariaethau	11	(8)	-
All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu		(44,020)	(39,803)
Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, peiriannau ac offer	5	(1,344)	(1,277)
Prynu asedau anniriaethol	6	-	(4)
All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		(1,344)	(1,281)
Llifoedd arian parod o weithgareddau cyllido		44,150	39,786
Gostyngiad)/cynnydd net mewn symiau arian parod a chyfwerth ag arian parod yn ystod y cyfnod	9	(1,214)	(1,298)
Symiau arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod	9	2,477	3,775
Symiau arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod	9	1,263	2,477

Mae'r Nodiadau yn Adran 26 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

25. Datganiad o newidiadau i ecwiti trethdalwyr

		Cronfa gyffredinol
		£'000
	Nodyn	
Balans ar 31 Mawrth 2018		2,945
Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer 2018/19		
Cyfanswm gwariant cynhwysfawr		(38,114)
Taliadau heb fod yn arian parod – cyflog yr archwilydd	3b	57
Taliadau tybiannol	3b	115
Cyllid gan y Weinyddiaeth, Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol		39,786
Balans ar 31 Mawrth 2019		4,789
Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer 2019/20		
Cyfanswm gwariant cynhwysfawr		(47,122)
Taliadau heb fod yn arian parod – cyflog yr archwilydd	3b	60
Taliadau tybiannol	3b	114
Cyllid gan y Weinyddiaeth, Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol		44,150
Balans ar 31 Mawrth 2020		1,991

Mae'r Nodiadau yn Adran 26 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

26. Nodiadau i'r Cyfrifon

Nodyn 1. Datganiad o bolisiau cyfrifyddu ac amcangyfrifon

Nodyn 1.1 Polisiau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2019/20 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Mae'r polisiau cyfrifyddu a gaiff eu cynnwys yn FReM yn cymhwyso'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fo FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol yr Arolygiaeth at ddibenion rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisiau penodol a fabwysiadwyd gennym isod. Maent wedi eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol mewn perthynas â'r cyfrifon.

Nodyn 1.1a Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i roi cyfrif am ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer.

Nodyn 1.1b Amcangyfrifon a barnau cyfrifyddu

Mae paratoi gwybodaeth ariannol sy'n cydymffurfio ag IFRS yn mynnu defnyddio amcangyfrifon cyfrifyddu penodol. Mae hefyd yn ofynnol bod rheolwyr yn arfer eu barn wrth gymhwyso'r polisiau cyfrifyddu. Yr amcangyfrifon a'r barnau cyfrifyddu allweddol yw croniadau (gweler Nodyn 10), darpariaethau (gweler Nodyn 11) a rhwymedigaethau amodol (gweler Nodyn 12). Caiff amcangyfrifon eu seilio ar wybodaeth hysbys yn y busnes a thueddiadau'r gorffennol.

Nodyn 1.1c Treth ar werth

Roedd y rhan fwyaf o weithgareddau'r Arolygiaeth Gynllunio y tu allan i faes TAW ac, yn gyffredinol, nid yw treth allosod yn gymwys ac nid yw treth fewnbwn ar bryniannau yn adenilladwy, ac eithrio o dan delerau Cyfarwyddyd y Trysorlys o dan adran 41(3) Deddf Treth Ar Werth (VATA) 1994. Codir TAW na ellir ei hadennill ar y categori gwariant perthnasol neu caiff ei chynnwys yng nghost prynu cyfalaf asedau sefydlog. Pan godir treth allosod neu pan fo TAW fewnbwn yn adenilladwy, dangosir y symiau heb gynnwys TAW.

Nid ydym wedi ein cofrestru ar gyfer TAW ar wahân ond rydym yn gweithredu o dan rif cofrestru TAW y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Nodyn 1.1d Incwm gweithredu

Cydnabyddir incwm pan fyd rhwymedigaeth gyflawni yn cael ei bodloni e.e. trwy ddarparu gwasanaeth i gwsmer. Mae darparu gwasanaethau yn cyfeirio at yr amser a dreuliwyd ar waith achos. O ran gwaith achos megis ymchwiliadau Cynlluniau Lleol, a all ymestyn dros nifer o flynyddoedd ariannol, cyfrifir incwm ar y gwaith a gwblhawyd hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol a'i gronni.

Mae'r prif wasanaethau a gynigir i'w gweld yn y dadansoddiad segmentaidd yn Nodyn 2 i'r Datganiadau Ariannol, sy'n disgrifio'r meysydd gwasanaeth a'r incwm a dderbyniwyd.

Nodyn 1.1e Prydlesi gweithredu

Dosberthir prydlesi heblaw prydlesi cyllidol yn brydlesi gweithredu. Codir prydlesi gweithredu ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros oes y brydles, gan ystyried unrhyw gymhellion prydles yn unol â thelerau Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 17 – Datgeliadau a thrin prydlesi cyllidol ar wahân i brydlesi gweithredu.

Nodyn 1.1f Costau tybiannol

Yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus, caiff costau tybiannol ar y gyfradd briodol eu cynnwys ar gyfer ffioedd archwilio a gwasanaethau a ddarperir gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Nodyn 1.1g Eiddo, peiriannau ac offer

Caiff eiddo, peiriannau ac offer eu datgan ar werth teg gan ddefnyddio cost hanesyddol wedi ei dibrisio. Pan gânt eu cydnabod gyntaf, fe'u mesurir ar eu cost gan gynnwys unrhyw gostau, megis gosod, y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r gwaith o'u hadfer i gyflwr gwaith. Ni chaiff eiddo, peiriannau ac offer eu hailbrisio oherwydd, gan ddefnyddio mynegrifau a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n briodol i gategori'r ased, byddai'r gwerth yn anfaterol. Isafswm y lefel ar gyfer cyfalafu eiddo, peiriannau ac offer yw £5,000, neu £5,000 ar gyfer eitemau cyfanredol. Mae eitemau sy'n is na'r gwerth hwn yn cael eu codi fel costau ac fe'u dangosir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Nodyn 1.1h Dibrisiant

Caiff eiddo, peiriannau ac offer eu dibrisio ar gyfraddau a gyfrifir er mwyn dileu cost yr asedau dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig ar sail llinell syth, fel a ganlyn:

Technoleg Gwybodaeth (TG Strategol) 3 blynedd

Nodyn 1.1i Asedau anniriaethol

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys gwerth cyfalafog systemau a ddatblygwyd yn fewnol neu feddalwedd a brynwyd, trwyddedau meddalwedd a systemau sy'n cael eu datblygu. Caiff gwerth asedau anniriaethol eu datgan fel y gost, llai amorteiddio ac amhariad. Ni chaiff asedau anniriaethol eu hailbrisio; mae'r sefydliad o'r farn nad yw

sail cost amnewid wedi'i hamorteiddio yn faterol wahanol i werth teg.

Nodyn 1.1j Amorteiddio ac amhariad

Caiff asedau anniriaethol eu hamorteiddio ar gyfraddau a gyfrifir er mwyn dileu'r asedau dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig ar sail llinell syth, fel a ganlyn:

Meddalwedd a gynhyrchir yn fewnol 8 mlynedd

Caiff asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eu hamorteiddio o'r pwynt y dechreuir defnyddio'r ased. Rhestrir amorteiddio fel traul ac fe'i dangosir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Nodyn 1.1k Prydlesi cyllidol

Caiff telerau holl brydlesi'r Arolygiaeth Gynllunio eu hadolygu a, lle mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn berchen ar y risgiau a'r taliadau, caiff prydlesi eu trin yn brydlesi cyllidol.

Hefyd, fe wnaeth yr Arolygiaeth Gynllunio adolygu pob contract gwasanaeth (e.e. contractau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau TG) er mwyn penderfynu a yw'r contractau'n cynnwys prydles gyllidol ymgorfforedig, o dan delerau IAS 17 fel y'i dehonglir gan y Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) 4 – Penderfynu a yw Trefniant yn Cynnwys Prydles.

Nodyn 1.1l Darpariaethau

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu adeiladol sydd ag amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth (gweler Nodyn 11).

Nodyn 1.1m Adrodd segmentaidd

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio, fel un o Asiantaethau Gweithredol y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, yn adrodd o dan un segment gweithredol yn unig: Lleoliaeth. Teimlir ei bod yn fwy priodol, felly, i seilio'r dadansoddiad segmentaidd ar brif feysydd gwaith achos, ar sail y strwythur adrodd mewnol. Nid yw'r asedau a'r rhwymedigaethau wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad segmentaidd gan nad yw'r rhain wedi eu dosrannu, ond yn hytrach wedi eu defnyddio ar draws y sefydliad (gweler Nodyn 2).

Nodyn 1.1n Offerynnau ariannol

Gan fod ein gofynion arian parod yn cael eu bodloni trwy'r broses Amcangyfrif, mae offerynnau ariannol yn cyflawni rôl fwy cyfyngedig wrth greu a rheoli risg nag a fyddai'n berthnasol i gorff nad yw'n gorff sector cyhoeddus. Mae offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â'n gofynion prynu a defnyddio disgwylidig, felly nid ydym yn agored i lawer o risg o ran credyd, hylifedd neu'r farchnad.

Nodyn 1.1o Safonau
cyfrifyddu a dehongliadau
nas mabwysiadwyd hyd yn
hyn

Cyhoeddwyd y safonau, y diwygiadau a'r dehongliadau
canlynol, ond nid ydynt ar waith hyd yn hyn:

Newid a gyhoeddwyd	Cyhoeddwyd gan IASB	Blwyddyn ariannol y byddai'r newid yn gymwys iddi'n gyntaf
IFRS 16 Prydlesi	Ionawr-16	Daw i rym o 2020/21
IFRS 17 Contractau Yswiriant	Mai-17	Daw i rym o 2021/22

Byddai gweithredu IFRS 16, pe byddai wedi dod i rym
ar 1 Ebrill 2019, wedi arwain at gyfalafu'r ymrwymiad
prydles o £1,904,000 a'i amorteiddio dros ddwy flynedd.
Byddai hyn yn arwain at daliad amorteiddio o £952,000
a llog o £12,000. Byddwn yn adolygu'r ymrwymladau
prydles yn ystod 20/21 ac yn cymhwyso IFRS 16 i unrhyw
ymrwymladau fel y bo'n briodol.

Mae effaith IFRS 17 i'w chadarnhau o hyd ac mae'n
ddibynol ar unrhyw ddehongliad neu addasiad a
gymhwysir gan FReM. Mae unrhyw gyfryw ddehongliadau
neu addasiadau yn cael eu penderfynu ar hyn o bryd,
ac nid yw canlyniad y gwaith hwn yn hysbys hyd yn hyn.
Fodd bynnag, nid ydym yn disgwyl unrhyw addasiadau
mawr o ganlyniad i'r safonau newydd.

Nodyn 1.1p Busnes hyfyw

Yn gyffredin â sefydliadau eraill y Llywodraeth, caiff
ein rhwymedigaethau yn y dyfodol eu hariannu gan
adnoddau a gymeradwyir yn flynyddol gan y Senedd.
Cymeradwywyd y symiau sy'n ofynnol ar gyfer 2020/21 cyn
Toriad y Senedd ac nid oes unrhyw reswm i gredu na cheir
cymeradwyaeth yn y dyfodol i gefnogi gweithgareddau
busnes arferol. Yn unol â hynny, ystyriwyd ei bod yn
briodol mabwysiadu sail busnes hyfyw drwy gydol yr
adroddiad hwn ac wrth baratoi Datganiadau Ariannol
2019/20.

Nodyn 2. Datganiad o gostau gweithredu yn ôl segmentau

Rydym wedi seilio'r dadansoddiad segmentaidd ar brif feysydd gwaith achos.

Nid yw'r asedau a'r rhwymedigaethau wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad segmentaidd gan y cânt eu defnyddio ar draws y sefydliad, ac ni chânt eu dosrannu na'u hadrodd yn y modd hwn i uwch arweinwyr.

Caiff yr Arolygiaeth Gynllunio y rhan fwyaf o'i chyllid gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, ond cafodd oddeutu 27% o'i chostau yn 2019/20 eu hadennill drwy godi tâl ar gymysgedd o adrannau eraill y llywodraeth ganolog, cyrff llywodraeth leol neu unigolion a busnesau preifat.

Adolygwyd y broses ar gyfer dosrannu costau i ffrydiau incwm yn ystod 2019/20 ac mae'r tabl isod yn adlewyrchu dosraniad costau 2018/19 wedi'i ailddatgan. Mae'r ailddatganiad yn golygu bod y costau Seilwaith Cenedlaethol yn adlewyrchu ailddyrianiad o gyfanswm y costau sefydliadol yn fwy cywir (cyhoeddodd 2018/19 £4,849,000 o gostau Seilwaith Cenedlaethol o gymharu â'r gwerth wedi'i ailddatgan, sef £6,157,000). Mae'r sefyllfa net gyffredinol, sef £38,114,000, yr un fath ar gyfer 2018/19.

	2019/20			2018/19		
				WEDI'I AILDDATGAN	WEDI'I AILDDATGAN	
	Cost	Incwm	Net	Cost	Incwm	Net
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Apeliadau cynllunio	30,480	-	30,480	26,196	-	26,196
Seilwaith Cenedlaethol	9,103	(8,456)	647	6,157	(6,334)	(177)
Cynlluniau Lleol	6,807	(4,576)	2,231	5,188	(4,976)	212
Apeliadau Gorfodi	5,066	-	5,066	5,209	-	5,209
Hawliau Tramwy	1,658	-	1,658	1,185	-	1,185
Apeliadau Cynllunio Adeiladau Rhestredig	261	-	261	508	-	508
Gorchmynion Prynu Gorfodol	441	(213)	228	259	(111)	148
Gwaith Achos Arbenigol Mawr arall	4,540	(1,277)	3,263	4,305	(1,621)	2,684
Incwm o Lywodraeth Cymru	-	(2,584)	(2,584)	-	(2,518)	(2,518)
Rhaglen Gweddnewid	5,242	-	5,242	4,236	-	4,236
Arall	1,090	(460)	630	1,118	(687)	431
Cyfansymiau			47,122	54,361	(16,247)	38,114

Disgrifiad o'r segmentau

1. Apeliadau cynllunio: Mae hyn yn cwmpasu'r apeliadau cynllunio arferol sy'n effeithio ar ddeiliaid tai, hysbysebu a mân apeliadau masnachol.
2. Seilwaith Cenedlaethol: Mae hyn yn ymwneud â gwaith yr ymgwymerir ag ef ar gynigion ar raddfa fawr sy'n cefnogi'r economi, a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, gan gynnwys rheilffyrdd, gorsafoedd cynhyrchu ynni, porthladdoedd a meysydd awyr. Mae'r costau hyn yn cynnwys elfen o waith cyn gwneud cais, sy'n digwydd cyn i'r incwm gael ei gydnabod, felly gall costau a'r incwm cysylltiedig rychwantu blynyddoedd ariannol gwahanol.
3. Cynlluniau Lleol: Mae hyn yn cwmpasu gwaith yr ymgwymerir ag ef mewn perthynas ag archwilio Cynlluniau Lleol Awdurdodau Cynllunio Lleol.
4. Apeliadau gorfodi: Dyma lle gwneir apêl yn erbyn hysbysiadau gorfodi pan ymgwymerir â datblygiad heb ganiatâd cynllunio neu pan nad yw'n unol â chais cynllunio cymeradwy.
5. Hawliau Tramwy: Gwaith a wneir wrth adolygu gorchmynion yn ymwneud â hawliau tramwy yw hyn.
6. Apeliadau Cynllunio Adeiladau Rhestredig: Mae hyn yn cwmpasu apeliadau'n ymwneud â gwaith yr ymgwymerir ag ef mewn perthynas ag adeiladau rhestredig.
7. Gorchmynion Prynu Gorfodol: Gwaith yr ymgwymerir ag ef mewn perthynas â gwrthwynebiadau a geir yn ymwneud â Gorchymyn Prynu Gorfodol yw hyn.
8. Gwaith Achos Arbenigol Mawr arall: Mae hyn yn cwmpasu gwaith yr ymgwymerir ag ef ar ran adrannau eraill y llywodraeth. Caiff y costau hyn eu hadennill yn rhannol yn unig o'r gwaith rydym yn ymgymryd ag ef ar ran adrannau eraill y llywodraeth.
9. Rhaglen Gweddnewid: Rhaglen o newid mawr yw hon sy'n ceisio cyflawni tair blaenoriaeth strategol: gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid; gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd; a mwy o ymgysylltu â staff. At ddibenion dadansoddi segmentaidd, mae'r costau'n deillio o elfennau a ariennir gan: gyllidebau Gweddnewid; Adfer perfformiad; cyfalaf; a chyllidebau busnes arferol.
10. Arall: Mae hyn yn cwmpasu'r holl waith arall na restrir uchod ac mae'n cynnwys gwneud penderfyniadau costau sy'n deillio o apeliadau/hysbysiadau gorfodi a dynnir yn ôl a gwneud penderfyniadau ar apeliadau Hysbysiadau Prynu, yn bennaf. Gall y gwaith hwn gynnwys pynciau fel gorchmynion diogelu coed a thrafnidiaeth.

Nodyn 3. Gwariant gweithredu

Nodyn 3a. Costau staff

Cyflogau cyfarwyddwyr

Mae cyflogau cyfarwyddwyr wedi'u cynnwys yn yr adran Costau Staff ond mae mwy o fanylion yn i'w gweld yn Adran 15 yr Adroddiad Blynnyddol hwn, sef Adroddiad Cyflogau.

Costau staff

Mae costau staff yn cynnwys:

	2019/20	2018/19
	£'000	£'000
Cyflogau	31,223	25,878
Costau nawdd cymdeithasol	3,439	2,851
Costau pensiwn eraill	8,457	5,497
Is-gyfanswm	43,119	34,226
Staff asiantaeth	528	589
Cyfanswm costau staff net	43,647	34,815

Nodyn 3b. Costau gweinyddol eraill

		2019/20	2018/19
	Nodyn	£'000	£'000
Rhenti dan brydlesi gweithredu:			
Llogi offer a pheiriannau		250	152
Prydlesau gweithredu eraill		1,024	1,417
		1,274	1,569
Eitemau anariannol:			
Dibrisiant	5	832	209
Amorteiddio	6	126	338
Amhariad asedau		-	924
Colled wrth waredu ased		3	-
Darpariaeth ar gyfer dyledion amheus		(30)	(47)
Cyflog yr Archwilydd ²¹		60	57
Taliadau adenilladwy y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ²²		114	115
Gwasanaethau Hyfforddi'r Ardoll Brentisiaethau		13	19
Cynnydd mewn darpariaeth yn ystod y flwyddyn		138	13
Ôl-gofnodi darpariaethau		(5)	-
		1,251	1,628
Gwariant arall:			
Ffioedd i Arolygwyr heb fod ar gyflog misol		1,222	2,239
Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch		2,316	2,009
Costau llety		569	760
Gwasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol		1,897	1,678
Gwasanaethau Cymorth		3,613	2,466
Ymchwil a Datblygu		3,260	2,017
Technoleg Gwybodaeth		2,696	2,608
Costau ex gratia		405	136
Costau anffafriol		325	333
Drwgddyledion a dileu dyledion		496	130
Telathrebu		130	182
Hyfforddiant a chynadleddau		532	835
Gwasanaethau post		175	157
Cyflenwadau swyddfa		150	196
Costau dileu swydd a chostau ymadael eraill		128	1
Costau gweinyddol eraill ²³		602	602
		18,516	16,349
Cyfanswm		21,041	19,546

-
21. Yn cynrychioli'r ffi archwilio dybiannol mewn perthynas ag ardystiad blynyddol y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol o ddatganiadau ariannol yr Arolygiaeth Gynllunio. Nid oedd unrhyw gyflog yn ddyledus am waith heb fod yn waith archwilio.
 22. Mae taliadau adenilladwy y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cyfrifyddu ac Adnoddau Dynol.
 23. Mae costau gweinyddol eraill yn cynnwys ffioedd proffesiynol, cyhoeddiadau, dodrefn/ffitiadau a gwasanaethau cyfieithu.

Nodyn 4. Incwm gweithredu

	2019/20	2018/19
	£'000	£'000
Ffioedd a thaliadau		
Cynlluniau Lleol	4,576	4,976
Seilwaith Cenedlaethol	8,456	6,334
Gorchmynion Prynu Gorfodol	213	111
Gwaith Achos Arbenigol Mawr arall	1,277	1,621
Cyfanswm ffioedd a thaliadau	14,522	13,042
Nwyddau a gwasanaethau		
Incwm gan Lywodraeth Cymru	2,584	2,518
Cyfanswm nwyddau a gwasanaethau	2,584	2,518
Incwm amrywiol		
Adennill costau anffafriol	440	650
Arall	7	18
Cyfanswm incwm amrywiol	447	668
Cyfanswm incwm tybiannol amrywiol	13	19
Cyfanswm incwm gweithredu	17,566	16,247

Nodyn 5. Eiddo, peiriannau ac offer

	Technoleg Gwybodaeth
	£'000
Cost neu brisiad	
Ar 1 Ebrill 2019	2,490
Ychwanegiadau ²⁴	185
Gwarediadau	(59)
Ar 31 Mawrth 2020	2,616
Dibrisiant	
Ar 1 Ebrill 2019	255
Tâl a godwyd yn ystod y flwyddyn	832
Gwarediadau	(56)
Ar 31 Mawrth 2020	1,031
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2020	1,585
Ar 31 Mawrth 2019	2,235
Cyllido asedau	
Yn berchen arnynt ar 31 Mawrth 2020	1,585

	Technoleg Gwybodaeth
	£'000
Cost neu brisiad	
Ar 1 Ebrill 2018	55
Ychwanegiadau	2,435
Ar 31 Mawrth 2019	2,490
Dibrisiant	
Ar 1 Ebrill 2018	46
Tâl a godwyd yn ystod y flwyddyn	209
Ar 31 Mawrth 2019	255
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2019	2,235
Ar 31 Mawrth 2018	9
Cyllido asedau	
Yn berchen arnynt ar 31 Mawrth 2019	2,235

24. Nid yw'r ychwanegiadau a gofnodwyd yn y Datganiad Llifoedd Arian yn cynnwys symud asedau sydd wedi cronni, na fu unrhyw lifoedd arian ar eu cyfer.

Nodyn 6. Asedau anniriaethol

	Technoleg Gwybodaeth a Gynhyrchwyd yn Fewnol
	£'000
Cost neu brisiad	
Ar 1 Ebrill 2019	3,473
Ychwanegiadau	-
Ar 31 Mawrth 2020	3,473
Amorteiddio	
Ar 1 Ebrill 2019	3,221
Tâl a godwyd yn ystod y flwyddyn	126
Ar 31 Mawrth 2020	3,347
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2020	126
Ar 31 Mawrth 2019	252
Cyllido asedau	
Yn berchen arnynt ar 31 Mawrth 2020	126

	Technoleg Gwybodaeth a Gynhyrchwyd yn Fewnol
	£'000
Cost neu brisiad	
Ar 1 Ebrill 2018	
Amhariad ²⁵	(924)
Ar 31 Mawrth 2019	3,473
Amorteiddio	
Ar 1 Ebrill 2018	2,883
Tâl a godwyd yn ystod y flwyddyn	338
Ar 31 Mawrth 2019	3,221
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2019	252
Ar 31 Mawrth 2018	1,514
Cyllido asedau	
Yn berchen arnynt ar 31 Mawrth 2019	252

25. Yn 2018/19, roedd system rheoli dogfennau newydd yn cael ei datblygu, gan arwain at amharu'r system bresennol i adlewyrchu'r gwerth gostyngol yn ei defnydd. Mae mwyafrif y gwerth sy'n weddill yn ymwneud â'n system rheoli dogfennau.

Nodyn 7. Offerynnau Ariannol

Gan y bodlonir ein gofynion arian parod trwy'r broses Amcangyfrif, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig mewn creu a rheoli risg nag a fyddai'n berthnasol i gorff nad yw yn y sector cyhoeddus. Mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol, yn unol â'n gofynion prynu a defnyddio disgwyledig, felly nid ydym yn agored i lawer o risg o ran credyd, hylifedd na'r farchnad.

Nodyn 8. Symiau masnach sy'n dderbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

	2019/20	2018/19
	£'000	£'000
Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn		
Symiau masnach sy'n dderbyniadwy	825	2,043
Symiau eraill sy'n dderbyniadwy:		
TAW	361	122
Arall ²⁶	289	228
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	4,908	6,265
Cyfanswm	6,383	8,658
Rhagdaliadau sy'n dod yn ddyledus ar ôl blwyddyn	10	-
Cyfanswm	6,393	8,658

26. Mae Arall yn cynnwys balansau sy'n daladwy gan sefydliadau ac adrannau eraill y llywodraeth nad ydynt yn ymwneud â gwaith rheolaidd ar sail ffi a blaensymiau ac adenillion amrywiol y gyflogres.

Nodyn 9. Arian parod a chyfwerth ag arian

	2019/20	2018/19
	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill	2,477	3,775
Newid net i falansau arian parod a chyfwerth ag arian parod	(1,214)	(1,298)
Balans ar 31 Mawrth	1,263	2,477

Cedwir yr holl falansau arian parod yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth.

Nodyn 10. Symiau masnach sy'n daladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

	2019/20	2018/19
	£'000	£'000
Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn		
Symiau masnach sy'n daladwy	23	25
Symiau eraill sy'n daladwy:		
TAW, trethiant a nawdd cymdeithasol	927	760
Arall ²⁷	1,108	1,000
Croniadau ac incwm gohiriedig	5,180	7,035
Cyfanswm y symiau taladwy ar 31 Mawrth	7,238	8,820

27. Mae Arall yn cynnwys didyniadau'r gyflogres.

Nodyn 11. Darpariaethau

	Ex gratia	Costau anffafriol	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill 2019	-	13	13
Darparwyd yn y flwyddyn	138	-	138
Defnyddiwyd yn y flwyddyn	-	(8)	(8)
Adferwyd yn y flwyddyn	-	(5)	(5)
Balans ar 31 Mawrth 2020	138	-	138

	Ex gratia	Costau anffafriol	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill 2018	-	-	-
Darparwyd yn y flwyddyn	-	13	13
Balans ar 31 Mawrth 2019	-	13	13

Dadansoddiad o amseriad disgwylidig llifoedd gostyngol

	2019/20	2018/19
	£'000	£'000
Dim hwyrach nag un flwyddyn	138	13

Ex gratia

Taliadau anstatudol yw taliadau ex gratia, a wneir yn gyffredinol o ganlyniad i gamgymeriad cydnabyddedig sy'n achosi gwariant diangen i'r hawliwr. Gall hyn gynnwys achosion lle mae'r Ombwdsmon Seneddol yn canfod camweinyddu. Y ddarpariaeth yw'r amcangyfrif gorau ar sail ar y wybodaeth sydd ar gael.

Costau anffafriol

Costau ymglyfreitha yw costau anffafriol, y gellid mynd iddynt yn dilyn ceisiadau aflwyddiannus i wrthwynebu her i benderfyniad Arolygydd yn yr Uchel Lys. Y ddarpariaeth yw'r amcangyfrif gorau ar sail y wybodaeth sydd ar gael.

Nodyn 12.
Rhwymedigaethau
amodol a ddatgelir o
dan IAS 37

Roedd dau fath o rwymedigaeth amodol yn bodoli ar 31 Mawrth 2020, na ddarparwyd ar eu cyfer yn y cyfrifon. Roedd y rhain fel a ganlyn:

- (a) Taliadau ex gratia y gellid eu gwneud i apelyddion neu bartïon eraill i apêl o ganlyniad i gamgymeriad cydnabyddedig sy'n achosi gwariant diangen i'r hawliwr. Mae'n anodd iawn rhagweld amseriad a gwerth y taliadau hyn, ond yr amcangyfrif gorau o'r rhwymedigaeth amodol yw £5,000 (2018/19: £467,000);
- (b) Costau ymgyfreitha y gellid mynd iddynt yn dilyn ceisiadau aflwyddiannus i wrthwynebu her i benderfyniad gan Arolygydd yn yr Uchel Lys. Mae'n anodd rhagweld amseriad a gwerth y dyfarniadau hyn. Rydym wedi adolygu tystiolaeth o flynyddoedd blaenorol ar nifer yr achosion a arweiniodd at daliad, a thrwy gymhwyso'r duedd hon i'r achosion yn y flwyddyn gyfredol, amcangyfrifwn rwymedigaeth amodol o £88,000 (2018/19: £110,000).

Nodyn 13.
Ymrwymadau o dan
brydlesi

Meddiannir a defnyddir dau eiddo ar gyfer gweithgareddau gweithredol ar brydles gan adrannau'r llywodraeth (Cymru a Lloegr) ar gontractau y gellir eu canslo. Mae'n ofynnol i ni roi 12 mis o rybudd ar y brydles. O ran Temple Quay House ym Mryste, pe byddai'r brydles yn cael ei chanslo cyn diwedd tymor y brydles, byddai'r Arolygiaeth Gynllunio yn atebol am gostau'r brydles hyd nes bod y lle yn cael ei ailosod (hyd at uchafswm o dymor 12 mis nesaf y brydles, sef £952,000 hyd at 31 Mawrth 2021).

Nodyn 14.
Ymrwymadau ariannol
eraill

Mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn rheoli contract sylweddol ar gyfer gwasanaethau technoleg ar ein rhan, ac adlewyrchir yr ymrwymiad yn llawn yn Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Mae'r taliadau yr ydym wedi ymrwymo iddynt, ar gyfer gwasanaethau technoleg a theleffoni yn bennaf, fel a ganlyn:

	2019/20	2018/19
	£'000	£'000
Dim hwyrach nag un flwyddyn	551	1,119
Hwyrach nag un flwyddyn a dim mwy na phum mlynedd	-	152

Nodyn 15. Trafodion partïon cysylltiedig

Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yw'r parti cysylltiedig sy'n rheoli a'r parti sy'n rheoli, yn y pen draw.

Ystyrir bod Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig, y mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi cynnal nifer sylweddol o drafodion perthnasol â hi yn ystod y flwyddyn.

Yn ogystal, mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi cynnal nifer fawr o drafodion perthnasol ag adrannau eraill y llywodraeth, cyrff y llywodraeth ganolog a sefydliadau llywodraeth leol yn ymwneud â'i busnes arferol. Yr Adrannau y mae'r Arolygiaeth yn cynnal y trafodion mwyaf arwyddocaol â hwy yw: Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig; yr Adran Drafnidiaeth; Adran Gyfreithiol y Llywodraeth; yr Adran Addysg; a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Rhaid i aelodau Anweithredol a Gweithredol y Bwrdd ddatgan unrhyw fuddiant personol neu fusnes a allai, neu y gellid tybio y gallai, ddylanwadu ar eu barn fel aelod o'r Bwrdd. Yn ystod y flwyddyn, nid oes unrhyw aelod o'r Bwrdd, nac unrhyw barti cysylltiedig arall, wedi cynnal unrhyw drafodion perthnasol â ni.

Mae cyflogau uwch reolwyr/aelodau'r Bwrdd i'w gweld yn yr Adroddiad Cyflogau (gweler Adran 15 yr Adroddiad Blynnyddol hwn).

Nodyn 16. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Cyflwynir datganiadau ariannol yr Arolygiaeth Gynllunio gerbron Dau Dŷ'r Senedd gan Ysgrifennydd Gwladol y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Mae IAS 10 – Digwyddiadau Ar Ôl y Cyfnod Adrodd yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddatgelu'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r cyfrifon. Hwn yw'r dyddiad yr anfonir y cyfrifon ardystiedig gan reolwyr yr Arolygiaeth Gynllunio at Ysgrifennydd Gwladol y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi ar yr un diwrnod y mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn llofnodi Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Atodiadau

Atodiad A – Perfformiad yn erbyn targedau gweinidogol

Nid yw Atodiad A yn destun archwiliad.

Lloegr

Mae Cynllun Busnes 2020/21 yn cynnwys gwaith i ddisodli'r targedau hyn â chyfres newydd o fesurau y cytunwyd arnynt gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol o fis Ebrill 2021 ymlaen. Nid ydynt mwyach yn adlewyrchu'r mesurau craidd a ddefnyddir gan yr Arolygiaeth Gynllunio.

O ran apeliadau, roedd gwybodaeth am gyflymder y penderfyniadau a roddwyd gennym i'n cwsmeriaid ar hyd y flwyddyn ac a ddefnyddiwyd yn y prif Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon yn canolbwyntio'n gyffredinol ar yr amser rhwng yr adeg pan dderbyniwyd apêl ddilys gennym a'r penderfyniad a wnaed. Mae hyn yn fwy defnyddiol i gwsmeriaid na'r amser rhwng dyddiad dechrau'r apêl a'r penderfyniad, a ddefnyddiwyd yn y dangosyddion hyn.

Mae Adran 9 yr Adroddiad Blyneddol hwn Dadansoddiad Manwl o Berfformiad yn disgrifio ein perfformiad ar hyd y flwyddyn.

Allwedd

Bodlonwyd y
targed

Ni fodlonwyd
y targed

* Mae'r canlyniadau'n dangos y ganran a oedd yn bodloni'r targed, wedi'i dilyn gan gyfanswm nifer yr achosion mewn cromfachau.

** Mae'r canlyniadau'n dangos y ganran a oedd yn bodloni'r targed, wedi'i dilyn gan nifer yr achosion y penderfynwyd arnynt mewn cromfachau.

Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol*	2019/20	2018/19
Cyhoeddi 100% o holl farnau cwmpasu'r EIA cyn pen 42 diwrnod o'u derbyn	100%	100%
Cyhoeddi 100% o holl farnau sgrinio'r EIA cyn pen 21 diwrnod o'u derbyn	Dd/B	Dd/B
Penderfynu ar dderbyn 100% yr holl geisiadau cyn pen 28 diwrnod	100%	100%
Cwblhau 100% o'r holl archwiliadau cyn pen chwe mis	100%	100%
Cyflwyno 100% o'r holl argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol cyn pen tri mis	100%	100%
Apeliadau Cynllunio ^{28*}	2019/20	2018/19
Penderfynu ar 80% o gynrychiolaethau ysgrifenedig cyn pen 14 wythnos o'r dyddiad dechrau	50% (12,439)	58.8% (9,318)
Penderfynu ar 80% o wrandawiadau cyn pen 14 wythnos o'r dyddiad dechrau	20% (615)	23.6% (453)
Penderfynu ar 80% o ymchwiliadau (nad ydynt yn bwrpasol) cyn pen 22 wythnos o'r dyddiad dechrau	- (-)	0.0% (3)
Penderfynu ar 100% o ymchwiliadau (pwrpasol) yn unol â'r amserlen gytûn	95% (127)	99.4% (176)
Penderfynu ar 90% o ymchwiliadau o dan Adolygiad Rosewell cyn pen 24 wythnos	83% (66)	Dd/B
Penderfynu ar 100% o ymchwiliadau o dan Adolygiad Rosewell cyn pen 26 wythnos	99% (66)	Dd/B
Penderfynu ar 80% o apeliadau deiliaid tai cyn pen 8 wythnos o'r dyddiad dechrau	58% (4,417)	75.9% (4,453)
Penderfynu ar 80% o apeliadau masnachol cyn pen 8 wythnos o'r dyddiad dechrau	40% (598)	62.9% (402)
Apeliadau Gorfodi (A174, A39 a Thystysgrifau Datblygiad Cyfreithlon)*	2019/20	2018/19
Penderfynu ar 80% o gynrychiolaethau ysgrifenedig cyn pen 32 wythnos o'r dyddiad dechrau	94% (2,076)	88.7% (1,868)
Penderfynu ar 80% o wrandawiadau cyn pen 33 wythnos o'r dyddiad dechrau	64% (145)	83.2% (167)
Penderfynu ar 80% o ymchwiliadau cyn pen 43 wythnos o'r dyddiad dechrau	42% (192)	62.1% (195)
Hawliau Tramwy, Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus**	2019/20	2018/19
Penderfynu ar 80% o gynrychiolaethau ysgrifenedig cyn pen 37 wythnos o'r dyddiad dechrau (2018/19 - 27 wythnos o'r dyddiad dechrau)	67.7% (21)	81.25% (39)
Penderfynu ar 80% o wrandawiadau cyn pen 39 wythnos o'r dyddiad dechrau (2018/19 - 29 wythnos o'r dyddiad dechrau)	12.5% (1)	33.3% (1)
Penderfynu ar 80% o ymchwiliadau cyn pen 45 wythnos o'r dyddiad dechrau (2018/19 - 35 wythnos o'r dyddiad dechrau)	57.1% (8)	77.5% (4)

28. Rydym wedi defnyddio methodoleg wahanol ar gyfer cyfrif nifer yr achosion ymchwiliad. Gall achosion ymchwiliad ddechrau fel gweithdrefn o fath gwahanol ac yna newid yn ystod oes yr achos.

Hawliau Tramwy, Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad**		2019/20	2018/19
Penderfynu ar 80% o gynrychiolaethau ysgrifenedig cyn pen 37 wythnos o'r dyddiad dechrau (2018/19 - 27 wythnos o'r dyddiad dechrau)		42.1% (16)	73.5% (25)
Penderfynu ar 80% o wrandawiadau cyn pen 39 wythnos o'r dyddiad dechrau (2018/19 - 29 wythnos o'r dyddiad dechrau)		33.3% (1)	83.3% (5)
Penderfynu ar 80% o ymchwiliadau cyn pen 45 wythnos o'r dyddiad dechrau (2018/19 - 35 wythnos o'r dyddiad dechrau)		48.8% (20)	77.5% (45)
Atodlen 14**		2019/20	2018/19
Penderfynu ar 80% o gyfarwyddiadau cyn pen 21 wythnos o'r dyddiad dilys (2018/19 - 17 wythnos o'r dyddiad dechrau)		88.7% (87)	46.2% (56)
Penderfynu 80% o apeliadau cyn pen 30 wythnos o'r dyddiad dilys (2018/19 - 26 wythnos o'r dyddiad dechrau)		30.2% (13)	45.83% (11)
Tir Comin**		2019/20	2018/19
Penderfynu ar 80% o'r rheiny heb wrthwynebiadau cyn pen 8 wythnos o'r dyddiad dechrau (2018/19 - 12 wythnos o'r dyddiad dechrau)		100% (30)	89% (33)
Penderfynu ar 80% o'r rheiny â gwrthwynebiad cyn pen 26 wythnos o'r dyddiad dechrau		93% (27)	92% (22)
Penderfynu ar 80% o'r rheiny â gwrthwynebiad (Arolygydd) cyn pen 40 wythnos o'r dyddiad dechrau (2018/19 - 52 wythnos o'r dyddiad dechrau)		87% (20)	84% (15)
Apeliadau Amgylcheddol*		2019/20	2018/19
Penderfynu ar bob math o apel cyn pen 28 wythnos o'r dyddiad dechrau		50% (6)	33% (6)
Gorchmynion Diogelu Coed*		2019/20	2018/19
Penderfynu ar 80% o gynrychiolaethau ysgrifenedig cyn pen 14 wythnos o'r dyddiad dechrau		92% (399)	1% (292)
Penderfynu ar 80% o wrandawiadau/ymchwiliadau cyn pen 26 wythnos o'r dyddiad dechrau		85% (39)	13% (54)
Gwrychoedd Uchel*		2019/20	2018/19
Penderfynu ar 80% o gynrychiolaethau ysgrifenedig cyn pen 24 wythnos o'r dyddiad dechrau		87% (52)	1.7% (56)
Gwrychoedd*		2019/20	2018/19
Penderfynu ar 80% o bob math o apel cyn pen 28 wythnos o'r dyddiad dechrau		100% (4)	0% (4)
Ceisiadau am gostau*		2019/20	2018/19
Penderfynu ar 50% o bob math o apel cyn pen 10 wythnos o'r dyddiad dechrau		63% (121)	55% (139)
Cynlluniau Datblygu*		2019/20	2018/19
Cwblhau archwiliadau Cynlluniau Datblygu (Cynllun Lleol) o fewn yr amserlen a gytunwyd gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol		100% (59)	100% (52)
Cwblhau archwiliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol o fewn yr amserlen a gytunwyd gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol		100% (3)	100% (5)
Bodlonrwydd cwsmeriaid		2019/20	2018/19
Sicrhau bod 80% o'r partïon y gwnaed arolwg ohonynt yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r broses/gweithdrefnau apelio ²⁹		55% (116)	74% (249)

29. Mae'r data a gyflenwyd ar gyfer 19-20 wedi'i seilio ar atebion yr ymatebwyr i fodlonrwydd â'r ffordd yr ymdriniwyd â'u hapêl. O ganlyniad i faint y sampl, ni ystyrir ei bod yn ystadegol ddilys. Nid oes modd ychwaith ei chymharu'n uniongyrchol â chanlyniadau'r llynedd. Rydym wedi amlygu'r angen i wella'r ffordd rydym yn mesur bodlonrwydd cwsmeriaid yn sylweddol yn ystod 2020/21.

Cymru

Amseroldeb *	2019/20	2018/19
Penderfynu ar 90% o'r holl apeliadau cynllunio a benderfynwyd drwy gynrychiolaethau ysgrifenedig (rhan 1 a rhan 3 o Reoliadau 2017) cyn pen 8 wythnos	97.35% (114)	98.8% (116)
Penderfynu ar 85% o'r holl apeliadau cynllunio a benderfynwyd drwy gynrychiolaethau ysgrifenedig (rhan 4) cyn pen 14 wythnos	95.95% (303)	92.5% (256)
Penderfynu ar 85% o'r holl apeliadau cynllunio a benderfynwyd drwy wrandawiadau cyn pen 21 wythnos	93.75% (17)	93.5% (34)
Penderfynu ar 85% o'r holl apeliadau cynllunio a benderfynwyd drwy ymchwiliadau cyn pen 29 wythnos	Dd/B	0% (1)
Penderfynu ar 85% o'r holl apeliadau gorfodi a benderfynwyd drwy gynrychiolaethau ysgrifenedig cyn pen 27 wythnos	100% (54)	92.3% (13)
Penderfynu ar 85% o'r holl apeliadau gorfodi a benderfynwyd drwy wrandawiadau ac ymchwiliadau cyn pen 41 wythnos	87.50% (8)	100% (9)
Bodloni'r amserlen a bennir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag argymhellion a wneir gan yr Arolygiaeth ar apeliadau a adferwyd a cheisiadau a alwyd i mewn	100% (4)	100% (5)
Cyflwyno argymhellion ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol cyn pen 36 wythnos	100% (2)	100% (3)
Darparu Arolygydd i archwilio Cynlluniau Datblygu ym mhob achos ar y dyddiad y gofynnir amdano gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol	Dd/B	100% (2)
Darparu adroddiadau Arolygwyr ar archwiliadau o Gynlluniau Datblygu yn unol â'r amserlenni cytûn	100% (1)	50% (2)

Lloegr ar y cyd â Chymru

Ansawdd	2019/20	2018/19
Mae 99% o benderfyniadau Arolygwyr yn rhydd rhag cwyn a gadarnhawyd neu her gyfreithiol lwyddiannus	99.6%	99.6% (Wales 99.7%)

Atodiad B – Gwasanaethau cwsmeriaid a chysylltiadau

Croesawn yr holl sylwadau, adborth a chwestiynau a allai fod gennych ynglŷn â'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hwn. Gallwch gysylltu â ni ar strategicsupport@planninginspectorate.gov.uk. O ran ymholiadau gan y wasg, cysylltwch â: press.office@planninginspectorate.gov.uk.

Gwasanaethau Cwsmeriaid Lloegr



The Planning Inspectorate
Customer Services Team
Area 3Qf
Temple Quay House
2 The Square
Temple Quay
Bristol BS1 6PN

Rhif ffôn: 0303 444 5000
E-bost: enquiries@planninginspectorate.gov.uk

Ymholiadau Cyffredinol Cymru



The Planning Inspectorate
Crown Buildings
Cathays Park
Cardiff CF10 3NQ

Rhif ffôn: 0303 444 5940
E-bost: wales@planninginspectorate.gov.uk

Swyddfa'r Wasg



The Planning Inspectorate
Press Office
Area 3Q
Temple Quay House
2 The Square
Temple Quay
Bristol BS1 6PN

Rhif ffôn: 0303 444 5004 / 0303 444 5005
E-bost: press.office@planninginspectorate.gov.uk
Twitter: @PINSgov

Safleoedd corfforaethol

Lloegr: <https://www.gov.uk/government/organisations/planning-inspectorate>
Cymru: <https://www.gov.wales/planning-inspectorate>

Porth Gwaith Achos Apeliadau: <https://acp.planninginspectorate.gov.uk>

Yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd: <https://www.ombudsman.org.uk/>

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: <https://www.ombudsman.wales/>

CCS CS01209294746
978-1-5286-2103-8